# Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Castell-nedd Port Talbot

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Strategaeth a Ffafrir

Ar ran **Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

Cyf. Prosiect: 332611859 | Diw: A | Dyddiad Ymgynghori: Rhagfyr 2024

Swyddfa Gofrestredig: Brighton, y Deyrnas Unedig
Cyfeiriad y Swyddfa: 2nd Floor, Huntingdon House, 20 North Street, Brighton, BN1 1EB T: +44 (0)1273 855844 E: Velda.Fairclough@stantec.com

# Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** ..... **1**

**1. Cyflwyniad** ..... **3**

1.1 Trosolwg ..... 3

1.2 Terminoleg ..... 3

1.3 Disgrifiad o'r Cynllun ..... 3

1.4 Y Cyd-destun Deddfwriaethol ..... 4

1.5 Pwrpas yr ARhC ..... 5

1.6 Sicrhau Ansawdd ..... 5

1.7 Ymgynghori ..... 5

**2. Methodoleg** ..... **6**

2.1 Trosolwg ..... 6

2.2 Dogfennau canllaw ..... 6

2.3 Cyfnodau'r ARhC ..... 6

2.4 Dull Asesu ..... 9

2.5 Categorïau Sgrinio ..... 10

2.6 Cwmpas Daearyddol ..... 11

2.7 Ffynonellau data ..... 11

**3. Safleoedd Ewropeaidd** ..... **13**

3.1 Ystyried Safleoedd Ewropeaidd i'w Cynnwys ..... 13

3.2 Crynodeb o Safleoedd Ewropeaidd, Amcanion Cadwraeth a Ffactorau sy'n Effeithio ar Integriti Safleoedd ..... 14

**4. Polisïau Strategol CDLIA CNPT** ..... **30**

4.1 Trosolwg ..... 30

**5. Safleoedd Allweddol y Strategaeth a Ffafrir** ..... **32**

5.1 Safleoedd Allweddol a Safleoedd Ymgeisiol y Strategaeth a Ffafrir ..... 32

**6. Llwybrau Effaith Posibl** ..... **34**

6.2 Llygredd atmosfferig ..... 35
Dyddodion Nitrogen ..... 35

6.3 Pwysau hamdden ..... 36
Adar ..... 37

Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol (INNS) ..... 37

6.4 Ystyriaethau hydrolegol: Swm, lefel, llif ac ansawdd Dŵr ..... 37

**7. Sgrinio'r Effeithiau Sylweddol Tebygol** ..... **39**

7.1 Nodi Effeithiau Sylweddol Tebygol ..... 39

7.2 Effeithiau Sylweddol Tebygol Polisïau'r Cynllun ..... 39

7.3 Effeithiau Sylweddol Tebygol y Llwybrau Effaith ..... 50
Manylion y Llwybrau Effaith mewn Perthynas â Phob Safle Ewropeaidd ..... 50

7.4 Casgliadau'r Cyfnod Sgrinio ..... 50

**8. Asesiad Cyfunol** ......51
Cynlluniau ......51
Prosiectau ......51
**9. Asesiad Priodol** ......64
9.2 Ansawdd Dŵr ......65
**10. Casgliadau** ......72
**Cyfeiriadau** ......73

## Ffigurau

Ffigur 1. Map o’r Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig o fewn 15km i Ardal y CDLlA 75
Ffigur 2. Map o’r Safleoedd Allweddol a’r Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig o fewn 15km i Ardal y CDLlA 76

## Tablau

Tabl 2-1. Categoriau cyn sgrinio o ran potensial effeithiau Polisïau Strategol y CDLlA, yn unol â llawlyfr ARhC 10
Tabl 3-1. Safleoedd Ewropeaidd a’u lleoliad o ffin CDLlA CNPT 13
Tabl 3-2. Crynodeb o’r Nodweddion Cymhwyso ac Amcanion Cadwraeth cysylltiedig y Safleoedd Ewropeaidd perthnasol ......15
Tabl 4-1 Polisïau Strategol a gynigir ar gyfer CDLlA CNPT ac amcanion cysylltiedig pob polisi. ......30
Tabl 5-1. Crynodeb o’r Safleoedd Allweddol a nodwyd yn Strategaeth a Ffafrir CDLlA CNPT. ......32
Tabl 7-1. Crynodeb o’r asesiad o Effaith Sylweddol Debygol (LSE) pob Polisi Strategol a amlinellwyd yn CDLlA CNPT ar sail categorïau sgrinio llawlyfr ARhC DTA (gweler Tabl 2-1). ......40
Tabl 9-1. Y Safleoedd Allweddol a gynigir ar gyfer datblygu tai, gan ddangos y pellter o ACA Cynffig, ac a allai fod angen lliniaru neu beidio. ......64

## Atodiadau

Atodiad A Map o’r Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig o fewn 15km i Ardal y CDLlA
Atodiad B Map o’r Safleoedd Allweddol a’r Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig o fewn 15km i Ardal y CDLlA
Atodiad C Bygythiadau a phwysau ar Safleoedd Ewropeaidd
Atodiad D Lleoliad y Safleoedd Allweddol mewn perthynas â Safleoedd Ewropeaidd
Atodiad E Sgrinio Safleoedd Ewropeaidd yn seiliedig ar lwybrau effaith posib
Atodiad F Lleoliad y Safleoedd Ymgeisiol a nodwyd fel rhai a allai fod yn addas ac yn gyflawnadwy i’w datblygu mewn perthynas â Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd
Atodiad G Rhestr o’r Safleoedd Ymgeisiol a nodwyd fel rhai a allai fod yn addas ac yn gyflawnadwy ar gyfer datblygu development

This page is intentionally blank

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Comisiynwyd Stantec gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot (CCNPT) i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) o'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid sy'n dod i'r amlwg (CDLlA), Asesiad Amgylcheddol Strategol (ASS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Yr adroddiad hwn yw'r ARhC. Amcan yr ARhC yw nodi llwybrau effaith posibl y CDLlA, a allai arwain at Effaith/Effeithiau Sylweddol Tebygol (LSE), a lle bo hynny'n berthnasol, arwain at effaith/effeithiau niweidiol ar integriti Safleoedd Ewropeaidd, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAoedd), Ardaloedd Amddiffyniad Arbennig (AAAoedd) a safleoedd Ramsar. Mae'r ARhC hwn yn archwilio effeithiau posibl polisïau o fewn y CDLlA ar ei ben ei hun, yn ogystal ag mewn cyfuniad (h.y. y Cynllun), ac o'i gyfuno â Chynlluniau a Phrosiectau eraill. Lle bo hynny'n briodol, manylir ar fesurau lliniaru. Gan roi ystyriaeth ddyledus i gyfnod datblygu cyfredol y CDLlA, gan gynnwys mireinio geiriad y polisi a/neu sicrwydd dyrannu safleoedd, dylid dychwelyd at yr Asesiad Priodol (ARhC: Cyfnod 2) yng nghyfnod y Cynllun Adnau.

## Y cyd-destun deddfwriaethol

O dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u newidiwyd), mae gofyniad I asesu'r effeithiau ar Safleoedd Ewropeaidd. Er mwyn archwilio a yw Cynllun neu Brosiect mewn perygl o effeithio ar integriti Safle Ewropeaidd, rhaid i ARhC gael ei gynnal gan awdurdod cymwys, gan gynnwys AP, lle bo angen, cyn cymeradwyo'r Cynllun neu'r Prosiect.

## Proses yr ARhC

Cynhaliwyd yr asesiad yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer ARhCau. Pennwyd cylch chwilio o 15km o ardal CNPT i nodi Safleoedd Ewropeaidd o fewn ac o amgylch y CDLlA. Yn dilyn hyn, aseswyd chwiliad o lwybrau effaith posibl er mwyn 'sgrinio allan' Safleoedd Ewropeaidd oedd heb gysylltiad ag ardal y CDLlA, gan gynnwys cysylltiadau hydrolegol a swyddogaethol. Mae'r pedwar Safle canlynol sydd â Dynodiad Ewropeaidd wedi cael eu sgrinio a'u cynnwys yn AP yr ARhC:

- ACA Cynffig
- ACA Cors Crymlyn
- Cors Crymlyn Ramsar
- ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr

## Canfyddiadau

Manylodd CCNPT ar 18 Polisi Strategol o dan y CDLlA sy'n dod i'r amlwg. Aseswyd y Polisïau Strategol hyn ar wahân, mewn cyfuniad (h.y. Y Cynllun) ac wedi'u cyfuno â Chynlluniau a Phrosiectau eraill. Mae'r Polisïau Strategol canlynol sy'n rhan o'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg yn CNPT wedi cael eu Sgrinio i mewn ar gyfer Asesiad Priodol:

- PS6 Ardaloedd Strategaeth;
- PS8 Tai;
- PS9 Canolfannau Manwerthu a Masnachol;
- PS10 Twristiaeth; a
- PS11 Adferiad Economaidd

Ystyriwyd ystod o lwybrau effaith posibl yn ystod yr asesiad hwn. Mae pedwar o Bolisïau Strategol y CDLlA yn gwarchod rhag effeithiau niweidiol, felly cafodd y llwybrau effaith canlynol eu sgrinio allan o asesiad pellach: aflonyddu uniongyrchol ar rywogaethau a chynefin, addasu cynefinoedd Safleoedd Ewropeaidd yn uniongyrchol, colli cynefin sy'n gysylltiedig â swyddogaeth, ac effeithiau sŵn a dirgryniad. Nodwyd y llwbyrau effaith canlynol yn y CDLlA:

- Llygredd atmosfferig – Potensial i gynyddu llygredd pridd ac aer yn sgîl gweithgareddau adeiladu a chynnydd mewn traffig.
- Pwysau hamdden – Mwy o aflonyddu yn sgîl gweithgaredd dynol o ganlyniad i'r canlynol; chwaraeon awyr agored a gweithgareddau hamdden at ddefnydd adloniant; perygl tân ac ymlediad rhywogaethau anfrodorol ymwthiol a/neu rywogaethau brodorol problematig;
- Ansawdd dŵr
- Potensial i ddyfroedd arwyneb gael eu llygru (llynnol a thirol, morol a heli), dŵr daear (ffynonellau pwynt penodol a ffynonellau gwasgaredig) a llygredd dŵr morol; a
- Swm, lefel a llif y dŵr (hydroleg) – Newidiadau a achoswyd gan bobl mewn amodau hydrolig.

Ar sail y data sydd ar gael, gellid eithrio Effeithiau Sylweddol Tebygol ar gyfer rhai o'r llwybrau effaith a nodwyd, o ran y pedwar Safle Ewropeaidd a sgriniwyd i mewn ar gyfer yr AP. Cafodd y llwybrau effaith canlynol eu sgrinio i mewn ar gyfer AP o ran y Safleoedd Ewropeaidd a aseswyd:

- ACA Cynffig
  - Pwysau Hamdden
  - Ansawdd Dŵr
  - Hydroleg
  - Llygredd Atmosfferig
- ACA a Safle Ramsar Cors Crymlyn
  - Ansawdd Dŵr
  - Swm y Dŵr
  - Llygredd Atmosfferig
- ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr
  - Ansawdd Dŵr
  - Swm y Dŵr
  - Llygredd Atmosfferig

Ystyriwyd effeithiau cyfuno â Chynlluniau a Phrosiectau eraill, ac ni ellir eithrio Effeithiau Sylweddol Tebygol ar y sail bod llawer o'r Cynlluniau a'r Prosiectau a aseswyd yn rhannu llwybrau effaith posibl gyda'r CDLlA.

## Casgliad yr Asesiad Priodol

Mae'r Asesiad Priodol yn dod i'r casgliad nad oes modd eithrio effaith niweidiol ar integriti'r safle yng nghyfnod Strategaeth a Ffafrir y Cynllun ar gyfer ACA Cynffig, mewn perthynas â phwysau hamdden ac ansawdd dŵr, ac ansawdd dŵr yn achos ACA Glaswelltir Cefn Cribwr, ac y bydd angen edrych eto ar y llwybrau effaith hyn yng nghyfnod y Cynllun Adnau, gyda rhagor o wybodaeth o ran geiriad y polisi a dyrannu'r safleoedd datblygu.

Dylid ailasesu llwybrau effaith eraill mewn perthynas â'r Safleoedd Ewropeaidd yng nghyfnod y Cynllun Adnau er mwyn sicrhau bod modd i'r asesiad ddod i'r casgliad na fydd effaith niweidiol ar integriti'r safle.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Trosolwg

1.1.1 Comisiynwyd Stantec gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot (CCNPT) i ymgymryd ag Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) o'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA), Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC).

1.1.2 Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Castell-nedd Port Talbot (CNPT) (2011-2026) yn manylu ar y polisïau strategol a gynigir ar gyfer y rhanbarth, ac fe'i mabwysiadwyd yn 2016. Yn dilyn adolygiad ac ymgysylltiad pellach â'r rhanddeiliaid, barnwyd bod angen diwygiadau i'r CDLl, ac o ganlyniad mae CDLlA yn cael ei baratoi.

1.1.3 Amcan yr ARhC yw nodi unrhyw agweddau ar y CDLlA a allai arwain at Effeithiau Sylweddol Tebygol (LSE) a, lle bo effeithiau niweidiol perthnasol ar integriti Safleoedd Ewropeaidd, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAoedd), Ardaloedd Amddiffyniad Arbennig (AAA), ac fel mater o bolisi'r Llywodraeth, safleoedd Ramsar. Mae'r ARhC yn asesu effeithiau amgylcheddol posibl yn sgîl y CDLlA yn unig, yn ogystal ag mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill, gan gynghori ar fecanweithiau polisi priodol ar gyfer cyflwyno mesurau lliniaru yn ôl y galw.

1.1.4 Adroddiad Sgrinio'r ARhC hwn yw cam cyntaf proses yr ARhC (manylir ar hynny yn Adran 2.2 isod). Diben yr Adroddiad Sgrinio ARhC hwn yw profi a yw'r CDLlA a gynigir ar gyfer CCNPT (y cyfeirir ato o hyn allan yma fel 'y Cynllun') yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar integriti safleoedd a ddynodwyd fel rhai o ddiddordeb bioamrywiaeth ar lefel Ewropeaidd, naill ai yn unigol, neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill.

1.1.5 Bydd casgliadau Adroddiad Sgrinio'r ARhC yn cael eu trafod gyda CCNPT a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a gallant lywio newidiadau i'r CDLlA wrth iddo gael ei ddiwygio ymhellach.

## 1.2 Terminoleg

1.2.1 Er mwyn osgoi amheuaeth, defnyddir y derminoleg ganlynol ar hyd Adroddiad yr ARhC:

- Y Cynllun: CDLlA 2023-2038 a gynigir ar gyfer CCNPT.
- Yr Opsiynau: y Polisïau Strategol a gynigir ar gyfer CDLlA 2023-2038 i CNPT.
- Safleoedd Ewropeaidd: at ddibenion Adroddiad Sgrinio'r ARhC, mae 'Safleoedd Ewropeaidd' yn cyfeirio at yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Amddiffyniad Arbennig (AAA), sydd fel ei gilydd bellach yn cael eu hystyried yn rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, a safleoedd Ramsar.

## 1.3 Disgrifiad o'r Cynllun

1.3.1 Mabwysiadwyd y CDLl (2011-2026) ar gyfer yr ardal gan CCNPT yn 2016. Mae **Atodiad A** yn cynnwys map sy'n dangos Ardal CNPT.

1.3.2 Mae CCNPT wedi monitro'r CDLl yn rheolaidd ers 2016 a pharatoi Adroddiad Adolygu CDLl (Gorffennaf 2020) a ddaeth i'r casgliad bod y CDLl yn destun 'Adolygiad Llawn' yn unol â darpariaethau statudol perthnasol. Yn arbennig, mae angen CDLlA i roi sylw i ystod o Ddeddfau newydd, fframweithiau polisi, mentrau, tystiolaeth a materion gofodol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol ers i'r CDLl presennol gael ei fabwysiadu. Bydd Adroddiad Sgrinio'r ARhC yn ystyried pob un o'r Polisïau Strategol a gynigir ar gyfer y CDLlA (o hyn allan 'Opsiynau') yn ynysig, yr Opsiynau mewn cyfuniad â'i gilydd (h.y. ystyried y Cynllun), a'r Cynllun mewn cyfuniad â Chynlluniau neu Brosiectau eraill.

## 1.4 Y Cyd-destun Deddfwriaethol

1.4.1 Trosodd 'Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u newidiwyd)' (y 'Rheoliadau Cynefinoedd') rai agweddau ar y 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd' (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC) a'r 'Gyfarwyddeb Adar Gwyllt' (Cyfarwyddeb 2009/147/EC) (a adwaenir gyda'i gilydd fel 'Cyfarwyddebau Natur') (gan gynnwys amrywiol newidiadau) yn gyfraith ddomestig.

1.4.2 I wneud deddfwriaeth o'r fath yn bosibl ei gweithredu wedi i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd (h.y. o 1af Ionawr 2021), gwnaed newidiadau i'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u newidiwyd) gan 'Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Newidiwyd) (Gadael yr UE), 2019'. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau o'r Comisiwn Ewropeaidd i'r awdurdodau domestig perthnasol, gyda'r holl brosesau a thelerau eraill yn parhau heb eu newid, fel bod yr amddiffyniad cadarn a roddir i safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau, gan gynnwys adar gwyllt, yn parhau trwy'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u newidiwyd).

1.4.3 Mae'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u newidiwyd), gyda newidiadau a wnaed gan y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Newidiwyd) (Gadael yr UE), 2019, yn darparu ar gyfer dynodi a gwarchod safleoedd ecolegol pwysig a ddynodwyd eisoes o dan y Cyfarwyddebau Natur, gan gynnwys ACA ac AAA ac unrhyw safleoedd pellach a ddynodwyd o dan y Rheoliadau hyn (gan ffurfio 'Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol' newydd yn y Deyrnas Unedig gyda'i gilydd), ond sy'n dal i gael eu hamddiffyn yn yr un modd ag ACA ac AAA, yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol).

1.4.4 Lle mae perygl y gallai'r Cynllun greu effeithiau niweidiol ar Safleoedd Ewropeaidd, mae gofyniad hefyd (yn unol â Rheoliad 105 o'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u newidiwyd), i'r awdurdod sy'n creu'r cynllun (CCNPT) greu 'AP' o'r Cynllun ar Safle Ewropeaidd, yng ngoleuni Amcanion Cadwraeth y Safle Ewropeaidd hwnnw; h.y. cynnal ARhC. Mae Rheoliad 105 yn mynd ymlaen i ddweud '*bod rhaid i'r awdurdod sy'n creu'r cynllun weithredu'r cynllun defnydd tir dim ond ar ôl sicrhau na fydd yn cael effaith niweidiol ar integriti y Safle Ewropeaidd…*'. Mae proses yr ARhC (fel y manylir yn **Adran 2**) yn cynnwys cwblhau 'Cyfnod Sgrinio' cychwynnol, a ddilynir gan 'AP' os bernir bod y Cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol ar Safle Ewropeaidd. Lle nad oes modd nodi mesurau addas i ymdrin â'r Effeithiau Sylweddol Tebygol (LSE), neu lle mae ansicrwydd yn parhau, mae gofyn ystyried Cyfnod 3 (Atebion Amgen).

1.4.5 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) yn cyfeirio at asesu effeithiau posibl prosiect datblygu ar un neu fwy o Safleoedd Ewropeaidd, gan gynnwys AAAoedd ac ACAoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn disgwyl i ddarpar AAAoedd (dAAAoedd), ACAoedd ymgeisiol (yACAoedd), ac ystyried unrhyw gynefinoedd gwneud iawn ARhC a gadarnhawyd yn yr un ffordd.

1.4.6 At ddibenion yr Adroddiad Sgrinio ARhC hwn, ac yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd a Pholisi Llywodraeth Cymru (Nodyn Cyngor Technegol 5, Medi 2009), diffinnir 'Safleoedd Ewropeaidd' fel:

- Dosbarthir Ardaloedd Amddiffyniad Arbennig (AAA) o dan Gyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd 'ar gadwraeth adar gwyllt' (2009/147/EC) (y 'Gyfarwyddeb Adar Gwyllt') ar gyfer amddiffyn adar gwyllt a'u cynefinoedd (gan gynnwys rhywogaethau arbennig o brin ac agored i niwed a restrir yn Atodiad 1 o'r Gyfarwyddeb, a rhywogaethau mudol).
- A dynodir Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ADA) o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC) ac maent yn targedu cynefinoedd a/neu rywogaethau penodol y nodwyd bod iddynt bwysigrwydd Ewropeaidd (safleoedd sy'n rhan o rwydwaith Natura 2000, neu 'Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol');
- Ymgeiswyr i fod yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (yACA) a gynigiwyd i'r Comisiwn gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Erthygl 4(1) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd;

- Safleoedd â Phwysigrwydd Cymunedol (SCIs) a fabwysiadwyd gan y Comisiwn o dan Erthygl 4(2) o Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Gymuned Ewropeaidd;
- Safleoedd sy'n gartref i fathau o gynefinoedd naturiol sy'n flaenoriaeth, neu rywogaethau blaenoriaeth y cychwynnwyd ymgynghoriad yn eu cylch o dan Erthygl 5(1) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd;
- AAAoedd posibl ac ACAoedd posibl sy'n cael eu hystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'w dosbarthu fel AAA/ACA; a
- Safleoedd Ramsar a Safleoedd Ramsar arfaethedig (Gwlyptiroedd â Phwysigrwydd Rhyngwladol a restrir o dan Gonfensiwn Ramsar 1971).
- Safleoedd morol Ewropeaidd oddi ar y lan, fel y diffinnir yn rheoliad 15 o Reoliadau Cadwraeth Natur Morol oddi ar y Lan (Cynefinoedd Naturiol, &c.) 2007 (S.I. 2007/1842).

## 1.5 Pwrpas yr ARhC

1.5.1 Fel yr amlinellir yn Adran 1.4, yn unol â Rheoliad 105 o'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u newidiwyd), cyfrifoldeb yr awdurdod sy'n creu'r cynllun (CCNPT yn yr achos hwn) yw penderfynu a fydd y Cynllun yn cael effaith sylweddol ar Safle Ewropeaidd (p'un a fydd hynny'n unigol neu 'o'i gyfuno' â Chynlluniau neu Brosiectau eraill), yng ngoleuni Amcanion Cadwraeth y Safle Ewropeaidd dan sylw, h.y. cynnal ARhC. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfnod cychwynnol proses yr ARhC: Cyfnod 1: Sgrinio. Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ragarweiniol i CCNPT, sef yr awdurdod sy'n creu'r cynllun, a rhanddeiliaid eraill, i lywio trafodaeth bellach ynghylch y polisïau a gynigir fel rhan o'r CDLlA, a'r mesurau lliniaru cysylltiedig a allai fod yn ofynnol. Gall canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r trafodaethau wedi hynny lywio newidiadau i'r CDLlA wrth iddo gael ei ddiwygio ymhellach; a/neu ddarparu'r sylfaen er mwyn gallu cynhyrchu ARhC lefel prosiect yn y dyfodol.

## 1.6 Sicrhau Ansawdd

1.6.1 Cafodd Adroddiad yr ARhC ei gwblhau, ei adolygu a'i awdurdodi gan ecolegwyr profiadol, y mae pawb ohonynt yn aelodau o Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM), wedi'u clymu gan Gôd Ymddygiad Proffesiynol CIEEM.

## 1.7 Ymgynghori

1.7.1 Yn y cyfnod hwn, ni chynhaliwyd ymgynghoriad yn benodol ynghylch adroddiad sgrinio'r ARhC hwn. Fodd bynnag, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffafrir ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol a'r ARhC ar gyfer y CDLlA.

# 2. Methodoleg

## 2.1 Trosolwg

2.1.1 Paratowyd y ddogfen hon ar sail methodoleg ARhC a nodwyd mewn canllawiau cenedlaethol (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LlCD) Argraffiad 3, 2020). Mae'r canllawiau'n nodi dull pedwar cam o ymdrin ag ARhC (fel y rhestrir isod) ac yn pwysleisio natur iteraidd y broses:

- Cyfnod 1: Sgrinio ar gyfer Effeithiau Sylweddol Tebygol (LSE)
- Cyfnod 2: Asesiad Priodol a'r Prawf Integriti
- Cyfnod 3; Datrysiadau Amgen
- Cyfnod 4: Rhesymau Gorfodol Budd Gor-redol y Cyhoedd a Mesurau Gwneud Iawn

## 2.2 Dogfennau canllaw

2.2.1 Dilynwyd y dogfennau canllaw canlynol a chyfeirio atynt ar hyd yr asesiad hwn:

- Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LlCD) Argraffiad 3 (LLYW.CYMRU, 2020);
- Llawlyfr ARhC DTA (Tyldesley a Chapman, 2013);
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: cadwraeth natur a chynllunio (LLYW.CYMRU 2009); a
- Chanllaw Llywodraeth Cymru, 'Asesiadau rheoliadau cynefinoedd: gwarchod safle Ewropeaidd' (gov.wales/habitats-regulations-assessments-protecting-european-site-html), cyhoeddwyd yn 2021.

## 2.3 Cyfnodau'r ARhC

### Cyfnod 1: Sgrinio

2.3.1 Yn dilyn y cyfnod casglu tystiolaeth i bennu'r Safleoedd Ewropeaidd y gallai'r Cynllun effeithio arnynt a'r buddiannau sydd ganddynt; mae cyfnod cyntaf yr ARhC yn broses sgrinio i ystyried a allai polisïau a chynigion y Cynllun fod yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso safle Ewropeaidd.

2.3.2 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, nid yw'r ymarferiad sgrinio wedi'i gyfyngu i ardal yr Awdurdod, ond mae hefyd yn nodi'r holl Safleoedd Ewropeaidd o fewn pellter rhesymol i ffiniau'r awdurdod sy'n creu'r Cynllun, neu fannau lle mae llwybr a allai arwain at effaith (e.e. dyfrffyrdd).

2.3.3 Yn achos pob safle Ewropeaidd, nodwyd y canlynol:

- Y nodwedd(ion) sy'n gwneud y safle'n gymwys, a
- Pha effeithiau y gallai'r nodwedd(ion) sy'n gwneud y safle'n gymwys fod yn sensitif iddyn nhw (e.e. llygredd aer, aflonyddu hamdden).

2.3.4 Dyfarnodd Llys Cyfiawnder Ewrop ynghylch dehongliad Erthygl 6(3) yn achos Waddenzee (Achos C-127/02) fel a ganlyn:

- Dylid ystyried effaith yn 'debygol', os nad oes modd gwadu, ar sail gwybodaeth wrthrychol, y bydd yn cael effaith sylweddol ar y safle" (Paragraff 44);
- Dylid ystyried effaith yn 'sylweddol', "os yw'n tanseilio'r amcanion cadwraeth" (Paragraff 48); a

- Lle mae cynllun neu brosiect yn cael effaith ar safle “ond nid yw’n debygol o danseilio’r amcanion cadwraeth, ni ellir barnu ei fod yn debygol o gael effaith sylweddol ar y safle dan sylw” (Paragraff 47).

2.3.5 Defnyddir dull gweithredu rhagofalus. Bydd y broses sgrinio yn asesu pob polisi a chynnig yn y cynllun er mwyn ystyried yr effaith debygol, yn unigol ac ‘wedi’i chyfuno’ ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill sy’n effeithio ar yr un safle Ewropeaidd. Bydd tebygolrwydd effaith sylweddol yn cael ei asesu o ran pob nodwedd gymwys y gwnaed y dynodiad ar ei gyfer, ac ar gyfer pob dynodiad lle cafodd safle ei ddynodi, ei ddosbarthu neu ei restru o dan fwy nag un rhwymedigaeth ryngwladol.

2.3.6 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, datblygir categori sgrinio priodol, a bydd casgliad rhesymedig ynghylch pob polisi/cynnig yn nodi’r effaith sylweddol debygol, gyda ffocws ar yr AP os bydd gofyn.

2.3.7 Bydd canlyniad y cyfnod sgrinio yn ddatganiad clir ynghylch a yw’r Cynllun ar ei ben ei hun, neu mewn cyfuniad â Chynlluniau neu brosiectau eraill, yn debygol o gael effaith sylweddol ar nodwedd cymwys unrhyw safle Ewropeaidd neu beidio.

2.3.8 Pennodd cyfraith achosion ARhC (achos 'Dilly Lane', 2008) y gellid cymryd mesurau lliniaru oedd wedi’u ‘hymgorffori yn y Prosiect’ neu oedd yn ‘ffurfio rhan o’r Prosiect’ i ystyriaeth yng nghyfnod profi Sgrinio ‘LSE’ yr ARhC (cyhyd â’u bod yn effeithiol). Derbyniodd y barnwr oedd yn dyfarnu fod modd ystyried agweddau penodol ar Brosiect, a fwriedir i osgoi neu leihau effeithiau negyddol ar Safle Ewropeaidd (h.y. lliniaru), o hyd fel rhai ‘wedi’u hymgorffori yn y Prosiect’ os cânt eu hyrwyddo felly gan y datblygwr.

2.3.9 Fodd bynnag, daeth dyfarniad mwy diweddar (Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ('CJEU') Pobl dros Wynt a Sweetman v Coillte Teoranta (C-323/17) i’r casgliad na ellid ystyried mesurau lliniaru a fwriadwyd i osgoi neu leihau effeithiau ar Safle Ewropeaidd yn rhan o’r ‘Prosiect’, ac felly na ddylid eu cymryd i ystyriaeth yng Nghyfnod Sgrinio’r ARhC wrth farnu a allai LSE ddigwydd ar integriti Safle Ewropeaidd.

2.3.10 Er bod y gyfraith achosion uchod yn cyfeirio’n benodol at Brosiectau (yn hytrach na Chynlluniau), derbynnir yn gyffredinol bellach fod modd ystyried unrhyw fesurau sy’n rhan annatod o ddyluniad y cynllun (a ddisgrifir fel ‘lliniaru a wreiddiwyd’ yn yr adroddiad hwn) sydd heb eu hymgorffori yn y cynllun yn benodol am resymau ecolegol, ond sydd serch hynny yn lleihau’r effeithiau ecolegol, yn gallu cael eu hystyried yng Nghyfnod Sgrinio’r ARhC. Ni ddylid ystyried mesurau a ychwanegwyd yn benodol at y Prosiect i gyflawni’r diben o osgoi neu leihau ei effeithiau niweidiol ar Safle Ewropeaidd (a ddisgrifiwyd fel ‘lliniaru ychwanegol’ yn yr adroddiad hwn) yn y Cyfnod Sgrinio, ac mae angen AP. Cefnogir yr agwedd hon gan erthyglau mewn Cyfnodolyn ARhC diweddar (DTA Publications, 2018).

2.3.11 Os nodir LSE yn y Cyfnod Sgrinio, ar sail gwybodaeth wrthrychol ac yn absenoldeb mesurau lliniaru/osgoi, dylai’r Awdurdod Cymwys symud ymlaen i gyfnod nesaf yr asesu (Cyfnod 2: AP).

### Cyfnod 2: Asesiad Priodol a’r Prawf Integriti

2.3.12 Lle pennir nad oes modd eithrio LSE, rhaid i’r dadansoddiad symud ymlaen i gyfnod nesaf yr ARhC, a elwir yn Asesiad Priodol (AP). Mae cyfraith achosion wedi egluro nad term technegol yw AP. Mewn geiriau eraill, does dim dadansoddiadau technegol penodol, neu lefel o ddadansoddiad technegol, a ddosbarthir o dan y gyfraith fel un sy’n perthyn i’r AP, yn hytrach na’r sgrinio ar gyfer LSE.

2.3.13 Pwrpas Cyfnod 2 (AP) yw canfod a fydd y Cynllun, ar ei ben ei hun neu o’i gyfuno â Chynlluniau a Phrosiectau eraill, yn cael effaith niweidiol ar amcanion cadwraeth nodweddion cymhwyso’r safle, ar sail yr wybodaeth wyddonol orau.

2.3.14 Mae canllawiau cenedlaethol yn nodi y bydd cwmpas a chynnwys AP yn dibynnu ar natur, lleoliad, hyd a graddfa'r Cynllun arfaethedig a nodweddion cymhwyso'r safle Ewropeaidd. Bydd hynny'n cynnwys profi a yw'r Cynllun ar ei ben ei hun, neu o'i gyfuno ag eraill, yn effeithio ar y ffactorau amgylcheddol sy'n angenrheidiol i gynnal integriti'r safle, h.y. a yw'r Cynllun yn cynyddu llygredd aer, yn achosi mwy o aflonyddu yn sgîl hamdden etc.

2.3.15 Gan gymryd i ystyriaeth gasgliadau'r AP o ran effeithiau'r Cynllun ar yr amcanion cadwraeth, ac wedi ceisio a rhoi sylw i gyngor yr ymgyngoreion statudol (CNC, Natural England, JNCC, fel sy'n briodol), rhaid i'r Awdurdod Cymwys benderfynu a fydd y Cynllun yn cael effaith niweidiol ar integriti'r safle Ewropeaidd.

2.3.16 Mae TAN 5 yn dweud mai "integriti safle yw cydlyniant ei strwythur ecolegol a'i swyddogaeth, ar draws ei arwynebedd cyfan, sy'n ei alluogi i gynnal y cynefin, y cyfuniad o gynefinoedd a/neu'r lefelau o boblogaethau y cafodd ei ddosbarthu neu ei restru o'u herwydd".

2.3.17 Rhaid felly i'r awdurdod sy'n creu'r Cynllun ystyried effeithiau rhesymol ragweladwy a thebygol y Cynllun er mwyn dod i'r casgliad a fydd yn cael effaith niweidiol ar integriti'r safle Ewropeaidd. Wrth wneud hynny, gellir cymryd i ystyriaeth sut bwriedir i'r cynnig neu'r polisi gael ei weithredu, ac a oes modd rhoi amodau neu gyfyngiadau eraill y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol yn eu lle i sicrhau na fydd effaith niweidiol ar integriti'r safle.

2.3.18 Mae'r canllawiau cenedlaethol yn glir bod rhaid cael penderfyniad pendant na fyddai'r cynllun yn cael effaith niweidiol. O dan rai amgylchiadau gall fod yn fwy priodol gohirio rhai agweddau ar ARhC i gynllun haen is neu asesiad lefel prosiect, er bod rhaid i'r asesiad ar lefel y cynllun fod wedi cyrraedd cyfnod yr asesiad priodol cyn y gall hynny ddigwydd. Er mwyn sicrhau na fyddai effaith niweidiol ar integriti safle Ewropeaidd, gall corff sy'n creu cynllun ddibynnu ar fesurau lliniaru mewn cynllun neu brosiect haen is dim ond os bodlonwyd y tri maen prawf canlynol: ac mae ARhC y cynllun neu'r prosiect haen is yn ofynnol o dan y gyfraith neu bolisi'r Llywodraeth. Ni all yr asesiad cynllun lefel uwch ragweld yn rhesymol yr effaith ar safle Ewropeaidd mewn modd ystyrlon; lle bydd gan y cynllun haen is neu'r prosiect lefel is, a fydd yn nodi'n fwy manwl natur, amseriad, hyd, graddfa neu leoliad y datblygiad, ac o ganlyniad ei effeithiau posibl, bydd ganddo'r hyblygrwydd angenrheidiol o ran union natur, amseriad, hyd, graddfa a lleoliad y cynnig i sicrhau bod modd osgoi effaith niweidiol ar integriti'r safle.

### Cyfnod 3: Datrysiadau Amgen

2.3.19 Lle na fu modd i'r asesiad ddweud yn bendant na fyddai effeithiau niweidiol, bydd angen rhoi sylw iddynt trwy ddilyn un o'r ddau opsiwn canlynol:

- Newidiadau a wneir i'r cynllun (dileu'r polisi/cynnig, adleoli'r cynigion y tu hwnt i barth dylanwad, newid graddfa, amseriad, hyd neu natur y cynnig, cadw'r cynnig o dan lefel arwyddocaol/trothwyon neu derfynau).
- Ymgorffori 'mesurau lliniaru'; Dylid cynnwys manylion y mesurau lliniaru arfaethedig mewn polisi safle-benodol.

### Cyfnod 4: Rhesymau Gorfodol o Ran Budd Gor-redol y Cyhoedd a Mesurau Gwneud Iawn

2.3.20 Os gellir dangos nad oes datrysiadau amgen, gall yr awdurdod cymwys ystyried a oes unrhyw resymau gorfodol o ran budd gor-redol y cyhoedd (IROPI) i gyfiawnhau pam mae'n rhaid i'r cynllun fynd rhagddo er gwaethaf yr effaith negyddol debygol ar integriti'r safle.

2.3.21 Cyrhaeddir y cyfnod hwn dim ond lle na all AP ddweud yn bendant na fydd effaith niweidiol ar integriti safle Ewropeaidd ac mae'r ACLl wedi penderfynu peidio â newid ac ailasesu'r cynnig. Yn y sefyllfa hon nid yw'n gyfreithlon cadarnhau na mabwysiadu'r cynnig oni fodlonir pob un o dri amod, hynny yw nad oes datrysiadau amgen, bod rhesymau gorfodol o ran budd gor-redol y cyhoedd (IROPI), a bod mesurau gwneud iawn wedi'u sicrhau. Y prawf cyntaf

yw ystyried datrysiadau amgen (sy'n dal i gyflawni amcan y cynnig), ac a fyddai unrhyw un o'r rhain yn cael effaith lai ar Safleoedd Ewropeaidd. Dim ond lle gellir dangos nad yw'r datrysiadau amgen hyn yn cael llai o effaith y gall y cynnig symud ymlaen i ail brawf IROPI.

2.3.22 Mae'r canllawiau cenedlaethol yn glir na ddylid mabwysiadu'r Cynllun ond os oes rhaid i'r cynnig neu'r polisi gael ei gyflawni ar gyfer yr IROPI.

2.3.23 Mae TAN 5 yn glir mai prosiectau sydd â phwysigrwydd cenedlaethol, yn gyffredinol, sy'n fwyaf tebygol o gefnogi IROPI, tra bod prosiectau ag arwyddocâd lleol yn llai tebygol o gael eu hystyried fel rhai gor-redol o ran y niwed posibl i'r safle Ewropeaidd. Lle bernir bod pwysigrwydd datblygiad yn IROPI, rhaid sicrhau mesurau gwneud iawn i warchod cydlyniant cyffredinol y rhwydwaith Safleoedd Ewropeaidd.

2.3.24 Mae'r ARhC, ac yn benodol cyfnod yr Asesiad Priodol manwl, yn cefnogi penderfyniad gan 'Awdurdod Cymwys' ynghylch a fyddai cynllun neu brosiect arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar "integriti" safle dynodedig; yn ôl canllawiau Gov.UK (2019) [1] mae hynny'n golygu cydlyniant strwythur ecolegol a swyddogaeth y safle, ar draws ei arwynebedd cyfan, sy'n ei alluogi i gynnal y cynefin, y cyfuniad o gynefinoedd a/neu'r lefelau poblogaethau o rywogaethau y cafodd ei ddosbarthu o'u herwydd".

2.3.25 Seiliwyd y penderfyniad ar oblygiadau prosiect ar amcanion cadwraeth y safle. Mae'r amcanion hyn yn nodi'r trothwyon ffisegol, cemegol a biolegol, a'r terfynau o ran gweithgarwch ac aflonyddu, y mae'n rhaid eu bodloni i gynnal integriti. Mae effaith niweidiol ar integriti (AEOI) yn debygol o fod yn un sy'n arwain at ddirywiad yn statws cadwraeth y nodwedd(ion) cymwys y dynodwyd y safle o'u herwydd.

## 2.4 Dull Asesu

2.4.1 Amcan yr ARhC hwn yw canfod a yw'r Strategaeth a Ffafrir yn debygol o gael effaith sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd, naill ai'n unigol neu o'u cyfuno â Chynlluniau a Phrosiectau eraill.

2.4.2 Ar sail y fethodoleg uchod, bydd yr adrannau canlynol yn dilyn y broses fel cam a amlinellwyd ar gyfer ARhC:

- Mae **Adran 3** yn gyntaf yn manylu ar y Safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd ar gyfer yr asesiad, trwy sgrinio bras.
- Mae **Adran 4** yn manylu ar y Polisïau Strategol sydd i'w hasesu fel rhan o CDLlA CNPT (h.y. y Cynllun).
- Mae **Adran 5** yn rhoi trosolwg o'r safleoedd a ddyrannwyd sy'n cefnogi'r CDLlA, a thrafodir Safleoedd Allweddol a Safleoedd Ewropeaidd.
- Mae **Adran 6** yn nodi'r llwybrau effaith posibl a allai ddeillio o'r CDLlA, mewn perthynas â'r Safleoedd Ewropeaidd hysbys.
- Mae **Adran 7**, prawf ar gyfer Effaith Sylweddol Debygol (LSE) yn cael ei gwblhau ar Bolisïau Strategol y CDLlA a'r llwybrau effaith.
- Mae **Adran 8** yn darparu manylion am asesiad cyfunol.
- Mae **Adran 9**, Asesiad Priodol, yn cael ei gwblhau.
- Mae **Adran 10** yn cloi'r asesiadau ac yn cyflwyno'r camau nesaf.

[1] Gweler Paragraff 003 Cyfeirnod ID: 65-003-20190722 o'r canllawiau ar gyfer asesiad priodol (GOV.UK, 2019)

2.4.3 Mae’r dull gweithredu ar gyfer yr asesiad cyfunol yn golygu, os na nodir llwybrau effaith a/neu os nad oes effaith amlwg yn deillio o bob un o’r Opsiynau, nad oes mecanwaith fyddai’n golygu y gallai effeithiau cyfunedig canfyddadwy ddigwydd gydag Opsiynau, Prosiectau neu Gynlluniau eraill. Lle nodir llwybrau effaith neu effeithiau amlwg, caiff y potensial o ran LSE mewn cyfuniad ag Opsiynau, Cynlluniau a Phrosiectau eraill ei ystyried. Yna deuir i gasgliadau ynghylch a ragwelir LSE ar y Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd. Lle na ellir dweud yn bendant na fydd LSE, cynhelir asesiad pellach (Cyfnod 2: AP) i benderfynu a fyddai effaith niweidiol ar integriti’r Safle Ewropeaidd dan sylw.

## 2.5 Categorïau Sgrinio

2.5.1 Mae’r CDLlA sy’n dod i’r amlwg yn cynnwys cyfres o Bolisïau Strategol a sgriniwyd i nodi’r rhai sydd â photensial o ran LSE ar y nodweddion y dynodwyd Safleoedd Ewropeaidd o’u herwydd. Aseswyd LSE yn unol â’r canllawiau yn TAN5 oedd yn golygu bod y polisïau a amlinellwyd yn y CDLlA oedd yn dod i’r amlwg yn cael eu gwirio’n systematig a’u rhoi mewn categori o A-M a amlinellwyd yn llawlyfr ARhC DTA (Tyldesley a Chapman, 2013), yn ôl y potensial ar gyfer effeithiau, ac amlinellir hyn yn **Nhabl 2-1** isod.

**Tabl 2-1. Categorïau cyn-sgrinio o ran potensial effeithiau Polisïau Strategol y CDLlA, yn unol â llawlyfr ARhC DTA.**

| Categori | Disgrifiad | Canlyniad y Sgrinio |
|---|---|---|
| A | Datganiad cyffredinol o bolisi/dyhead cyffredinol | Sgriniwyd allan |
| B | Polisi sy’n rhestru’r meini prawf cyffredinol ar gyfer profi pa mor dderbyniol/gynaliadwy yw cynigion | Sgriniwyd allan |
| C | Cynnig y cyfeirir ato, ond nad yw’r cynllun yn ei gynnig | Sgriniwyd allan |
| D | Polisïau diogelu/trothwy safle cyffredinol sy’n gwarchod yr amgylchedd ar draws y cynllun | Sgriniwyd allan |
| E | Polisïau neu gynigion sy’n llywio newid mewn modd sy’n amddiffyn Safleoedd Ewropeaidd rhag effeithiau niweidiol | Sgriniwyd allan |
| F | Polisi na all arwain at ddatblygu neu newid arall | Sgriniwyd allan |
| G | Polisi neu gynnig na allai gael unrhyw effaith ganfyddadwy ar safle | Sgriniwyd allan |
| H | Polisi neu gynnig na all ei effeithiau (gwirioneddol neu ddamcaniaethol) danseilio’r amcanion cadwraeth (ar eu pen eu hunain neu o’u cyfuno ag agweddau eraill ar hwn neu gynlluniau neu brosiectau eraill) | Sgriniwyd allan |
| I | Polisi neu gynnig a allai gael effaith sylweddol debygol ar safle yn unigol | Sgriniwyd allan |
| J | Polisi neu gynnig sy’n cael effaith ar safle ond sy’n annhebygol o fod yn arwyddocaol ar ei ben ei hun, felly mae angen gwirio am effeithiau sylweddol tebygol cyfunedig | I’w bennu yn dilyn Asesiad cyfunedig |
| K | Polisi neu gynnig sy’n annhebygol o gael effaith sylweddol yn unig neu mewn cyfuniad | Sgriniwyd allan yn dilyn Asesiad cyfunedig |
| L | Polisi neu gyfuniad a allai fod yn debygol o gael effaith sylweddol mewn cyfuniad | Sgriniwyd i mewn yn dilyn Asesiad cyfunedig |

| Categori | Disgrifiad | Canlyniad y Sgrinio |
|---|---|---|
| M | Polisïau neu gynigion wedi'u teilwra ar gyfer ardal, safle neu achos, a fwriedir i osgoi neu leihau effeithiau niweidiol ar Safle Ewropeaidd | Sgriniwyd i mewn |

## 2.6 Cwmpas Daearyddol

2.6.1 Nid oes meini prawf safonol ar gyfer pennu cwmpas daearyddol ARhC. Yn hytrach, defnyddir y model ffynhonnell-llwybr-derbynnydd yn nodweddiadol i bennu a oes llwybrau cysylltu effaith posibl yn cysylltu â datblygiad a ddyrannwyd yn nogfen y Cynllun. Ar sail ymarferiad rhychwantu cychwynnol (sgrinio bras), fel y manylir yn **Adran 3** cafodd y safleoedd Ewropeaidd canlynol eu cwmpasu gan yr asesiad:

- ACA Cynffig
- ACA Coedydd Nedd a Mellte
- ACA/Ramsar Cors Crymlyn
- ACA Caeau Mynydd Mawr
- ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr
- ACA Coetir Blackmill
- ACA Bae Dunraven
- ACA Afon Wysg
- ACA Bannau Brycheiniog
- ACA Cwm Cadlan
- ACA Blaen Cynon

## 2.7 Ffynonellau data

2.7.1 I lywio'r asesiad hwn cwblhawyd adolygiad ar y data, yr adroddiadau a'r astudiaethau oedd ar gael, y barnwyd eu bod yn berthnasol i ardal astudio CNPT. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i benderfynu a allai LSE neu effeithiau a allai fod yn niweidiol ddeillio o CDLlA CNPT. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- CDLl a dogfennau ategol awdurdodau cyfagos lle maent ar gael, gan gynnwys yr ACI a gwybodaeth am yr ARhC (roedd CDLlA Strategaeth a Ffafrir Llawlyfr Cynlluniau Datblygu diweddar Casnewydd a Bro Morgannwg fel ei gilydd ar gael ar adeg ysgrifennu).
- Cyfoeth Naturiol Cymru – Gwybodaeth am safleoedd a warchodir (https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/find-protected-areas-of-land-and-sea/?lang=en)
- Gwybodaeth Ddaearyddol Amlasiantaeth ynghylch Cefn Gwlad (MAGIC) (www.magic.gov.uk);
- Gwybodaeth am ACAoedd ac AAAoedd o wefan JNCC (https://sac.jncc.gov.uk/site/)
- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 2011-2026 – Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd, 2013.

2.7.2 Lle defnyddir adnoddau eraill, manylir ar y rhain yn y testun, a darperir troednodiadau ar gyfer pob ffynhonnell o wybodaeth er hwylustod cyfeirio. Mae'r adran gyfeiriadol yn darparu crynodeb o Gynlluniau rheoli Craidd ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd a dogfennau eraill trosfwaol na fyddai'r adroddiad fel arall wedi cyfeirio atynt.

## 2.8 Rhagdybiaethau a Chyfyngiadau

2.8.1 Seiliwyd yr asesiad hwn ar y Polisïau Strategol arfaethedig a ddarparwyd gan CCNPT ym mis Medi 2024 ar gyfer yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir rhwng Rhagfyr 2023 a Ionawr 2024. Petai'r polisïau hyn yn cael eu newid, byddai angen ailasesu'r LSE ar Safleoedd Ewropeaidd, a byddai gofyn diweddaru'r ARhC.

2.8.2 Rhagdybir y bydd pob polisi yn cael ei weithredu fel y nodir, ac yn unol â'r gofynion statudol perthnasol a'r polisïau cynllunio cenedlaethol.

2.8.3 Os caiff datblygiad a gynlluniwyd ei gyflwyno ar gyfer Safle Ymgeisiol ac mae'r defnydd tir yn wahanol i'r hyn a ragwelwyd, bydd gofyn bod yr ARhC yn cael ei ddiweddaru. Bydd angen monitro hynny a'i adolygu trwy broses y CDLlA.

2.8.4 Yng nghyfnod y Cynllun Adnau, disgwylir i asesiad ARhC wedi'i ddiweddaru gael ei gwblhau er mwyn asesu gwybodaeth newydd a manylach am y Polisïau Strategol, polisïau rheoli datblygu manwl, y safleoedd a ddyrannwyd, y llwybrau effaith a'r potensial ar gyfer effeithiau cyfunedig.

# 3. Safleoedd Ewropeaidd

## 3.1 Ystyried Safleoedd Ewropeaidd i'w Cynnwys

3.1.1 Nid oes meini prawf safonol ar gyfer pennu cwmpas ffisegol ARhC. Yn hytrach, dylid defnyddio'r model ffynhonnell-llwybr-derbynnydd i benderfynu a oes llwybrau effaith posibl yn sgîl y datblygiad sy'n gysylltiedig â'r safleoedd arfaethedig, a ddyrannwyd yn nogfen y Cynllun.

3.1.2 Defnyddiwyd parth clustogi 15km yn gyntaf ar gyfer y sgrinio bras cychwynnol o amgylch ffin y CDLlA, yn y lle cyntaf i nodi'r Safleoedd Ewropeaidd hynny y gallai polisïau'r CDLlA effeithio arnynt. Yn nodweddiadol, cyfyngir ar natur a graddfa'r effeithiau posibl gan bellter, a chanllawiau arfer gorau – llawlyfr ARhC DTA (Tyldesley a Chapman, 2013), ac yn gyffredinol bernir y byddai unrhyw effeithiau posibl sy'n deillio o gynllun y tu hwnt i 15km mor fychan fel na fyddai modd canfod eu heffaith ar Safleoedd Ewropeaidd y tu hwnt i'r pellter hwn. Fodd bynnag, yna cynhaliwyd asesiad o'r llwybrau effaith posibl ar Safleoedd Ewropeaidd o fewn pellter o 15km er mwyn asesu a oes llwybrau effaith yn bodoli trwy gysylltiadau uniongyrchol a/neu swyddogaethol (e.e. coridor afon, cynefin fforio ystlumod etc). Lle mae ansicrwydd ynghylch llwybr effaith/cyswllt, cymhwysir yr egwyddor ragofalus.

3.1.3 Nododd dadansoddiad system wybodaeth ddaearyddol (GIS) 11 o Safleoedd Ewropeaidd o fewn 15km i ffin y CDLlA. Mae **Tabl 3-1** isod yn darparu'r rhestr o Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd ac yn darparu manylion ynghylch eu lleoliad mewn perthynas ag ardaloedd ffiniol awdurdod CNPT.

**Tabl 3-1. Safleoedd Ewropeaidd a'u lleoliad o ffin CDLlA CNPT**

| Enw'r safle Ewropeaidd | Dynodiad | Arwynebedd y Safle (Ha) | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Cynffig | ACA | 1191.67 | Mae ffin ddeheuol ardal yr awdurdod yn ymyl yr ACA. |
| Coedydd Nedd a Mellte | ACA | 378.18 | Lleolir ar ffin ogledd-ddwyreiniol yr awdurdod, yn rhannol o fewn CNPT, ond yn bennaf yn ardaloedd awdurdod Powys a Rhondda Cynon Taf. |
| Cors Crymlyn | ACA, Ramsar | 299.45 | Lleolir yn rhan orllewinol yr awdurdod. Mae'r safle'n gorgyffwrdd ag ardaloedd awdurdodau CNPT ac Abertawe. |
| Caeau Mynydd Mawr | ACA | 26.05 | Lleolir 8.2km i'r gorllewin o ffin orllewinol ardal awdurdod CNPT. |
| Glaswelltiroedd Cefn Cribwr | ACA | 58.35 | Lleolir 400m i'r de-ddwyrain o ffin ddeheuol ardal awdurdod CNPT. |
| Coetiroedd Blackmill | ACA | 70.05 | Lleolir 6.5km i'r dwyrain o ffin dde-ddwyreiniol ardal awdurdod CNPT. |
| Bae Dunraven | ACA | 6.45 | Lleolir 11.5km i'r de o ffin ddeheuol ardal awdurdod CNPT. |

| Enw'r safle Ewropeaidd | Dynodiad | Arwynebedd y Safle (Ha) | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Afon Wysg | ACA | 967.97 | Lleolir 11km i'r gogledd o ffin ogleddol ardal awdurdod CNPT. |
| Bannau Brycheiniog | ACA | 268.63 | Lleolir 12.5km i'r gogledd o ffin ogleddol ardal awdurdod CNPT. |
| Cwm Cadlan | ACA | 84.2 | 5km i'r dwyrain o ffin ddwyreiniol ardal awdurdod CNPT. |
| Blaen Cynon | ACA | 66.52 | 4km i'r dwyrain o ffin ddwyreiniol ardal awdurdod CNPT. |
| Bae ac Aberoedd Caerfyrddin | ACA | 66092.05 | 12.5km i'r gorllewin o ffin ogledd-orllewinol ardal awdurdod CNPT. |
| Moryd y Burry | AAA, Ramsar | 6627.99 | 12.5km i'r gorllewin o ffin ogledd-orllewinol ardal awdurdod CNPT. |

3.1.4 Yn dilyn y cyfnod sgrinio bras cychwynnol, cafodd nifer o Safleoedd Ewropeaidd eu hidlo allan o'r asesiad ar sail y ffaith eu bod y tu allan i'r parth dylanwad hydrolegol. Barnwyd ei fod yn briodol eithrio'r safleoedd hyn oherwydd y byddai unrhyw lwybrau effaith posibl yn sgîl y CDLlA yn digwydd trwy gysylltiadau hydrolegol. Cafodd y safleoedd canlynol eu diystyru:

- ACA Carmel – 9km i'r gorllewin
- ACA Afon Tywi – 10km i'r gogledd
- ACA Comin Gŵyr – 11km i'r gorllewin

3.1.5 Dylai'r safleoedd hyn gael eu hailasesu yng nghyfnod y Cynllun Adnau er mwyn sicrhau bod y sgrinio bras yn briodol.

## 3.2 Crynodeb o Safleoedd Ewropeaidd, Amcanion Cadwraeth a Ffactorau sy'n Effeithio ar Integriti Safleoedd

3.2.1 Dangosir y Safleoedd Ewropeaidd a nodir yn yr adran hon ar fap yn **Atodiad A**. Ceir manylion pellach ynghylch y nodweddion cymhwyso a'r amcanion cadwraeth cysylltiedig yn **Nhabl 3-2** isod.

3.2.2 Rhestrir crynodeb o'r 'ffactorau perthnasol sy'n effeithio ar integriti safleoedd' y Safleoedd Ewropeaidd yn **Nhabl 3-2**. Mae **Atodiad C** yn darparu manylion am y bygythiadau a'r pwysau sydd ar bob un o'r Safleoedd Ewropeaidd, a gyhoeddwyd yn Ffurflenni Data Safonol perthnasol Natura 2000. Ar ben hynny, mae Cynlluniau Rheolaeth Craidd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn darparu trosolwg lefel uchel o'r materion (cyfredol ac a ragwelir) sy'n effeithio ar gyflwr nodweddion diddordeb y Safleoedd Ewropeaidd ac amlinellu'r mesurau blaenoriaeth sy'n ofynnol i wella cyflwr y nodweddion. Nid ydynt yn cwmpasu materion lle mae camau adferol eisoes yn eu lle neu weithgareddau rheoli parhaus sy'n ofynnol ar gyfer cynnal a chadw. Ceir manylion y ffynonellau gwybodaeth y cyfeirir atynt ar draws adrannau'r asesiad.

**Tabl 3-2. Crynodeb o'r Nodweddion Cymhwyso ac Amcanion Cadwraeth cysylltiedig y Safleoedd Ewropeaidd perthnasol**

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Amcanion Cadwraeth |
|---|---|---|
| ACA Cynffig | Cynefinoedd Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>1. Twyni sefydlog gyda llystyfiant blodeuog ("twyni llwyd")<br>2. Twyni sydd â *Salix repens* ssp. *Argentea* (*Salicion arenariae*)<br>3. Llaciau twyni llaith<br>*4.* Dyfroedd caled oligo-mesotroffig gyda llystyfiant dyfnforol *Chara* spp.<br><br>Mae cynefinoedd Anecs I yn cyflwyno fel nodwedd gymhwyso, ond nid fel prif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>5. Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinietalia maritimae*)<br><br>Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>6. Petal-lys (*Petalophyllum ralfsii*)<br>7. Tegeirian y Ffen (*Liparis loeselii*) | Y weledigaeth ar gyfer **nodweddion 1 a 2** yw statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br>▪ Bydd twyni sy'n cynnwys *Salix repens* a llaciau twyni llaith yn digwydd fel rhan o'r system twyni, a phennir eu lleoliad gan brosesau naturiol a rheolaeth briodol ar bori.<br>▪ Ceir hyd i ystod o gyfnodau olyniaeth yn y ddwy nodwedd.<br>▪ Bydd ffactorau sy'n effeithio ar y nodweddion o dan reolaeth.<br><br>Y weledigaeth ar gyfer **nodwedd 3** yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br>▪ Bydd twyni sefydlog â llystyfiant blodeuog (twyni llwyd) yn digwydd lle mae twyni hŷn, symudol yn dod yn fwy sefydlog, ac mewn cyfnodau olyniaeth gynnar yn cael eu llenwi â chennau a rhywogaethau eraill sy'n arwydd o'r pontio o gynefin llai symudol.<br>▪ Bydd y cynefin yn cwmpasu ystod o gyfnodau olyniaethol ar draws yr ardal, a phennir hynny gan batrymau ffactorau naturiol a phori.<br>▪ Bydd twyni llwyd yn rhan sylweddol o'r system twyni, ond yn cynyddu a lleihau o ran cwmpas a lleoliad wrth i brosesau naturiol bennu tirwedd y systemau twyni.<br>▪ Mae'r holl ffactorau o dan fesurau rheoli.<br><br>Y weledigaeth ar gyfer **nodwedd 4** yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br>▪ Gwelyau *Chara* o dan y dŵr (*Chara aspera* a *C. virgata* yn bennaf) sy'n tyfu yn y dŵr cymharol fas yw'r prif lystyfiant macroffyt o dan yr wyneb ar draws y rhan fwyaf o'r llyn.<br>▪ Mae *Chara* yn digwydd ar amlder o fwy na 50% ar hyd trawsluniau goruchwylio rheolaidd yn y canghennau Gorllewinol a Chanolog.<br>▪ Mae rhywogaethau Charoffyt a dyfrllys anghyffredin megis *Potamogeton gramineus* a *P. x nitens* yn bresennol mewn cilfachau a phyllau eraill, gan gynnwys *Tolypella glomerata* ym mhyllau'r twyni.<br>▪ Caiff y llyn ei bwydo gan darddell, felly mae lefelau'r maetholion yn parhau'n isel. Nid yw un o'r prif faetholion (ffosfforws) yn cyrraedd lefel o fwy na 25 microgram fesul litr mewn ardaloedd samplo rheolaidd. Mae'r lefelau nitrogen yn y dŵr yn isel (llai nag 1 miligram fesul litr) ac yn gostwng neu'n sefydlog. |

| **Safle Ewropeaidd** | **Nodweddion Cymhwyso** | **Amcanion Cadwraeth** |
|---|---|---|
| | | ▪ Mae dŵr y llyn yn glir, ond gyda digonedd o lystyfiant ar ffurf gwelyau dwys o blanhigion o dan y dŵr ac ar yr ymylon. Mae disg Secchi i'w gweld ar wely'r llyn yn y rhan ddyfnaf (2.6m).<br>▪ Mae dyfnder y dŵr yn gymharol sefydlog, ac yn amrywio'n naturiol gyda dŵr daear.<br>▪ Cyfyngir y cyrs, y siglen a'r gleddlys i'r parthau bas (nad ydynt yn gorchuddio mwy na 10% o'r safle).<br>▪ Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.<br><br>Y weledigaeth ar gyfer **nodwedd 5** yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br><br>▪ Mae ansawdd y forfa heli o fewn y terfynau a bennwyd.<br>▪ Nid oes cynnydd yn yr erydiad ar hyd yr ardal bontio rhwng morfa heli a thwyni tywod.<br>▪ Bydd fflora'r forfa heli yn parhau i gynnwys y rhywogaethau prin canlynol: Limonium binervosum, a Frankenia laevis.<br>▪ Bydd pori ysgafn gan gwningod a/neu stoc yn parhau i gael ei oddef o fewn terfynau.<br>▪ Bydd effeithiau niweidiol merlota wedi cael eu lleihau neu eu dileu.<br><br>Parheir i ganfod *Petalophyllum ralfsii* yn ei leoliadau presennol ym mhob un o'r ddau SoDdGA sy'n rhan o'r ACA. Y weledigaeth ar gyfer **nodwedd 6** yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br><br>▪ Ceir hyd i'r rhywogaethau lle mae'r amodau'n addas, mewn niferoedd digonol i ffurfio poblogaeth gynaliadwy, hyfyw.<br>▪ Bydd y boblogaeth yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar yr amodau, yn enwedig mewn blynyddoedd sychach, ond bydd y boblogaeth hirdymor yn parhau'n sefydlog ac yn gynaliadwy.<br>▪ Bydd llaciau twyni addas yn cynnwys ardaloedd tir moel lle bydd cennau meddal (*Collema spp*.) a mwsoglau *Barbula* yn trigo.<br>▪ Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar y nodwedd o dan reolaeth.<br><br>Y weledigaeth ar gyfer **nodwedd 7** yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol: |

| **Safle Ewropeaidd** | **Nodweddion Cymhwyso** | **Amcanion Cadwraeth** |
|---|---|---|
| | | ▪ Mae cynefin addas digonol yn bresennol i gefnogi'r poblogaethau.<br>▪ Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar y nodwedd o dan reolaeth. |
| ACA Coedydd Nedd a Mellte | <u>Cynefinoedd Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>1. Fforestydd *Tilio-Acerion* o lethrau, mariandir a hafnau<br>2. Hen goetir derw digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain | Y weledigaeth ar gyfer **nodwedd 1** yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br><br>▪ Bydd coetir onn ucheldir yn gorchuddio o leiaf 18ha o gyfanswm arwynebedd y safle.<br>▪ Dylai'r canopi gynnwys coed onn yn bennaf, a bydd y coed canlynol yn gyffredin yn y coetir:<br>▪ Bydd y rhedynnau yn rhywogaethau fflora daear cyffredin.<br>▪ Er y gall niferoedd bach ohonynt fod yn bresennol yn y canopi, ni ddylai sycamorwydd a ffawydd ddod yn amlwg ar draul yr onn.<br>▪ Bydd rhywogaethau ymledol a gyflwynwyd yn absennol, a diwreiddir unrhyw gonifferau y trosglwyddwyd eu hadau o blanigfeydd cymdogol tra'u bod yn eginblanhigion/goed ifanc.<br>▪ Cyfyngir cymaint â phosibl ar y difrod i fflora'r ddaear ac erydiad y pridd oherwydd pwysau'r cyhoedd.<br>▪ Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.<br><br>Y weledigaeth ar gyfer **nodwedd 2** yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br><br>▪ Bydd coetir derw digoes yn llenwi o leiaf 175 ha o gyfanswm arwynebedd y safle.<br>▪ Dylai'r canopi gynnwys derw yn bennaf, a bydd coed brodorol lleol yn gyffredin yn y coetir.<br>▪ Bydd y rhedynnau yn rhywogaethau fflora daear cyffredin.<br>▪ Bydd bryoffytau yn dal yn lluosog a bydd y fflora bryoffytau yn parhau i gynnwys y rhywogaethau gorllewinol/Iwerydd hynny sy'n nodweddu'r math yma o goetir. Bydd cyfres o rywogaethau prinnach a rhywogaethau ar gyrion eu cwmpas daearyddol yn dal yn bresennol.<br>▪ Bydd rhywogaethau rhostir fel llusi a grug cyffredin Calluna vulgaris yn gyffredin mewn rhai ardaloedd.<br>▪ Bydd rhywogaethau ymledol a gyflwynwyd fel y rhododendron yn absennol, a bydd unrhyw gonifferau y trosglwyddwyd eu hadau o blanigfeydd cyfagos yn cael eu diwreiddio tra'u bod yn eginblanhigion/goed ifanc. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Amcanion Cadwraeth |
|---|---|---|
| | | ▪ Cyfyngir gymaint â phosibl ar y difrod i fflora'r ddaear ac erydiad y pridd oherwydd pwysau'r cyhoedd.<br>▪ Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth. |
| ACA Cors Crymlyn | Cynefinoedd Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>1. Ffeniau Calchaidd sy'n cynnwys *Cladium mariscus* a rhywogaethau o *Caricion davallianae*<br>2. Siglenni pontio a chorsydd crynedig<br>Mae cynefinoedd Anecs I yn cyflwyno fel nodwedd gymhwyso, ond nid fel prif reswm dros ddethol y safle:<br>3. Fforestydd llifwaddodol sy'n cynnwys *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* (*Alno-Padion, Alnion incane, Salicion albae*) | **Nodweddion 1, 2 a 3:**<br>▪ Dylai'r cwmpas fod yn sefydlog yn y tymor hir, neu'n cynyddu lle bo hynny'n briodol.<br>▪ Dylai'r ansawdd (gan gynnwys o ran strwythur a swyddogaeth ecolegol) fod yn cael ei gynnal, neu'n gwella lle bo hynny'n briodol.<br>▪ Rhaid bod poblogaethau rhywogaethau nodweddiadol y cynefin yn cael eu cynnal, neu'n cynyddu lle bo hynny'n briodol.<br>▪ Dylai ffactorau sy'n effeithio ar gwmpas ac ansawdd y cynefin a'i rywogaethau nodweddiadol (ac sydd felly'n effeithio ar ragolygon y cynefin i'r dyfodol) fod o dan reolaeth briodol. |
| Ramsar Cors Crymlyn | ○ Ffen topogenaidd<br>○ Plu'r gweunydd main<br>○ Cynulliad infertebratau mawndir | Dim wedi'u rhestru. Fel y nodwyd uchod. |
| ACA Caeau Mynydd Mawr | Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn: | Y weledigaeth ar gyfer **nodwedd 1** yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br>▪ Bydd y boblogaeth yn hyfyw yn y tymor hir, gan gydnabod amrywiadau poblogaeth eithafol y rhywogaeth. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Amcanion Cadwraeth |
|---|---|---|
| | 1. Pili pala britheg y gors (*Euphydryas* (*Eurodryas, Hypodryas*) *aurinia*)<br>Cynefinoedd Anecs I sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond heb fod yn brif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>2. Dolydd *Molinia* ar bridd calchaidd, mawnog neu sy'n llawn clai a gwaddod (*Molinion caeruleae*) | ▪ Bydd cynefinoedd ar y safle yn y cyflwr delfrydol i gynnal y metaboblogaeth.<br>▪ Poblogaethau'r ACA fydd craidd y metaboblogaeth. Bydd y metaboblogaeth yn cynnwys poblogaethau'r ACA a hefyd boblogaethau sy'n bridio ar dir o fewn c. 2 gilomedr i ffin yr ACA.<br>▪ Bydd o leiaf 13 ha ar draws y tair SoDdGA a gynhwysir yn laswelltir corsiog addas i gynnal britheg y gors, gyda Succisa pratensis yn bresennol, a phrysg isel yn unig.<br>▪ Bydd o leiaf 6 ha o hyn yn gynefin bridio mewn cyflwr da i fritheg y gors, gyda'r llystyfiant twmpathog, yn achos o leiaf 80% o'r pwyntiau samplo, o fewn ystod o 12-25 cm o uchder, gyda Succisa pratensis yn bresennol o fewn pwynt samplo â radiws o 50cm. Ni fydd prysgwydd (>0.5 m o uchder) yn gorchuddio mwy na 10% o'r ardal.<br>▪ Bydd o leiaf 7 ha arall o hyn yn gynefin bridio cyflwr addas ar gyfer britheg y gors, gyda Succisa pratensis achlysurol/mynych/digonol a llystyfiant 12-25cm o uchder fel arfer. Ni fydd prysgwydd (> 0.5 m o uchder) yn gorchuddio mwy na 10% o'r ardal gyfan.<br>▪ Bydd cysgod da ar y glaswelltir corsiog ar ffurf perthi a choed aeddfed.<br><br>**Nodwedd 2:**<br><br>• Bydd nodwedd dôl Molinia yn llenwi rhwng 25% ac 80% o gyfanswm arwynebedd y safle.<br>• Bydd gweddill y safle yn gynefin arall lled-naturiol.<br>• Bydd y planhigion canlynol yn gyffredin ar y dolydd Molinia: glaswellt y bwla Molinia caerulea; ysgall y ddôl Cirsium dissectum; tamaid y cythraul Succisa pratensis; hesgen beniganddail Carex panicea a'r tresgl Potentilla erecta.<br>• Bydd grug croesddail Erica tetralix a grug cyffredin Calluna vulgaris hefyd yn gyffredin mewn rhai ardaloedd.<br>• Ni ddylid caniatáu i frwyn ymledu, a bydd rhywogaethau sy'n arwyddion o addasu amaethyddol, megis pawrwellt lluosflwydd Lolium perenne a meillion gwlanog Trifolium repens, yn absennol i raddau helaeth o ddôl Molinia. |

| **Safle Ewropeaidd** | **Nodweddion Cymhwyso** | **Amcanion Cadwraeth** |
|---|---|---|
| | | • Bydd rhywogaethau prysgwydd megis helyg Salix a bedw Betula hefyd yn absennol i raddau helaeth o ddôl Molinia.<br>• Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth. |
| ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr | Cynefinoedd Anecs I sy'n brif reswm dros dethol y safle hwn:<br>1. Dolydd *Molinia* ar bridd calchaidd, mawnog neu glaeog, llawn gwaddod (*Molinion caeruleae*)<br>Rhywogaethau Anecs II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond heb fod yn brif rheswm dros ddethol y safle hwn:<br>2. Britheg y gors (*Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas) aurinia*) | Y weledigaeth ar gyfer **nodwedd 1** yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br>• Bydd glaswelltir corsiog *eu-Molinion* yn llenwi rhwng 50% a 55% o gyfanswm arwynebedd y safle. .<br>• Bydd gweddill y safle yn gynefin arall lled-naturiol neu'n ardaloedd porfa parhaol.<br>• Bydd y planhigion canlynol yn gyffredin ar laswelltir corsiog *eu-Molinion*: glaswellt y bwla Molinia caerulea; ysgall y ddôl *Cirsium dissectum*; *Carex hostiana*; *Carex pulicaris*; tamaid y cythraul *Succisa pratensis*; hesgen beniganddail *Carex panicea*; dant y pysgodyn *Serratula tinctoria* a'r tresgl *Potentilla erecta*.<br>• Bydd grug croesddail *Erica tetralix* a grug cyffredin *Calluna vulgaris* hefyd yn gyffredin mewn rhai ardaloedd.<br>• Bydd brwyn a rhywogaethau sy'n arwyddion o addasu amaethyddol, megis pawrwellt lluosflwydd *Lolium perenne* a meillion gwlanog *Trifolium repens* yn absennol i raddau helaeth o laswelltir corsiog *eu-Molinion*.<br>• Bydd rhywogaethau prysgwydd megis helyg Salix (ac eithrio Salix repens) a bedw Betula hefyd yn absennol i raddau helaeth o laswelltir corsiog eu-Molinion.<br>• Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau uchod o dan reolaeth.<br><br>Y weledigaeth ar gyfer **nodwedd 2** yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br>• Bydd y safle yn cyfrannu at gynnal metaboblogaeth gynaliadwy o fritheg y gors yn ardal Cefn Cribwr. Bydd hyn yn galw am o leiaf 50ha o gynefin addas, y mae'n rhaid i 10ha ohono o leiaf fod mewn cyflwr da, er na ddisgwylir i'r cyfan gael ei ganfod o fewn yr ACA.<br>• Bydd peth ar dir cyfagos o fewn radiws o ryw 2km. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Amcanion Cadwraeth |
|---|---|---|
| | | • Bydd y boblogaeth yn hyfyw yn y tymor hir, gan gydnabod amrywiadau poblogaeth eithafol y rhywogaeth.<br>• Bydd y cynefinoedd ar y safle mewn cyflwr delfrydol i gynnal y metaboblogaeth.<br>• Bydd o leiaf 40ha o fewn yr ACA a'r SoDdGA cysylltiedig yn laswelltir corsiog addas i gynnal britheg y gors, gyda Succisa pratensis yn bresennol a phrysgwydd isel yn unig.<br>• Bydd o leiaf 8ha yn gynefin bridio mewn cyflwr da i fritheg y gors, gyda glaswellt y bwla Molinia caerulea yn fwyaf amlwg, S. pratensis yn bresennol ar draws y safle, ac uchder llystyfiant o 10-20cm dros gyfnod y gaeaf.<br>• Diffinnir cynefin addas i fritheg y gors fel gelli glaswelltir lle mae Succisa pratensis yn bresennol a lle nad yw prysgwydd dros 1 fetr o uchder yn gorchuddio mwy na 10% o'r gelli.<br>• Nodweddir cynefin bridio delfrydol britheg y gors gan laswelltir lle mae uchder y llystyfiant yn 10-20 cm, gyda digonedd o laswellt y bwla Molinia caerulea, tamaid y cythraul "dail mawr" mynych Succisa pratensis addas i fritheg y gors ddodwy wyau arno, a phrysgwydd achlysurol yn unig. Yn y blynyddoedd brig, ceir hyd i ddwysedd o 200 gwe larfaidd fesul hectar o gynefin delfrydol ar draws y safle.<br>• Bydd y glaswelltir corsiog wedi'i gysgodi'n dda gan berthi a choed aeddfed.<br>• Mae pob ffactor sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau blaenorol o dan reolaeth. |
| ACA Coetir Blackmill | <u>Cynefin Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn</u><br>Hen goedydd derw digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain | Y weledigaeth ar gyfer **nodwedd gymhwyso** y safle hwn yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br><br>• Cwmpas: Pennwyd terfyn isaf o 90% ar gyfer cwmpas y cynefin coetir er mwyn caniatáu presenoldeb ymyl rhedyn ac ardaloedd o laswelltir wedi'i led-wella o amgylch y blociau coetir, y credir eu bod yn ychwanegu at amrywiaeth y safle.<br>• Cyfansoddiad y Canopi: Deri yw 70% o'r coed sy'n ffurfio'r canopi, ac mae 95% o'r coed sy'n ffurfio'r canopi yn rhywogaethau brodorol.<br>• Gorchudd y canopi a'i adnewyddu: Yn 70% o fylchau'r canopi bydd 2 goeden ifanc hyfyw, gydag o leiaf un ohonynt yn dderwen. Yn y tymor byrrach (dros un cylch adrodd) bydd 5 eginblanhigyn derw neu adnewyddiad bedw yn y mannau hyn. Ar gyfartaledd, cyfradd creu'r bylchau yw 0.5% y flwyddyn, a fydd yn y tymor hwy yn creu trosiant o 25% o'r coetir dros |

| **Safle Ewropeaidd** | **Nodweddion Cymhwyso** | **Amcanion Cadwraeth** |
|---|---|---|
| | | gyfnod o 50 mlynedd.<br>• Dangosyddion cyflwr/ansawdd fflora'r ddaear: <80% o fflora'r ddaear i gynnwys llystyfiant direolaeth mwy na 50cm o uchder. Nid oes problemau sylweddol eraill yn 90% o'r coetir (e.e. tipio, lleiniau danadl oherwydd gorfaethu etc.). Diben y manylebau hyn yw sicrhau nad yw llystyfiant y ddaear yn rhy ddireolaeth ac yn atal adfywio a phlanhigion is, gan ymdrin â materion 'pori'.<br>• Dwysedd coed hynafol: Mae dwysedd y coed hynafol (a ddiffinnir fel rhai ag amgylchedd >200cm ar lefel y frest) yn 1 o leiaf fesul hectar.<br>• Pren marw: Pren marw, yn sefyll neu wedi cwympo, yn bresennol.<br>• Pori da byw: Gallai atal yr holl bori dros gyfnod hir niweidio haen y cae, yn enwedig bryoffytau, gan fod cysgod yn gallu eu diddymu. Y ddelfryd yw naill ai efelychu'r lefel isel iawn a geir mewn ecosystem goetir naturiol, neu amrywio'r pwysau pori yn achlysurol. Ar hyn o bryd mae'r safle'n mynd trwy gyfnod adferiad wedi pori trwm, ac yn y tymor byr i ganolig, dylid ceisio atal neu ddileu pori.<br>• Rhywogaethau anfrodorol: Dim mwy na 5% o'r coed sy'n ffurfio'r canopi yn rhai anfrodorol.<br>• Llygredd aer: Posibl trwy gyfuniad o effeithiau'r trwyddedau a ganiateir gan AA, ac mae'n destun ymchwiliad ar hyn o bryd. |
| ACA Bae Dunraven | <u>Rhywogaeth Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>*Rumex rupestris* (tafolen y traeth) | Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br><br>• Mae o leiaf 10 planhigyn aeddfed ar y safle<br>• Mae'r planhigion sy'n bresennol yn blodeuo ac yn gosod hadau<br>• Mae'r boblogaeth yn sefydlog ac yn hyfyw yn y tymor hir. |
| ACA Afon Wysg | <u>Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>1. Llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus* | **Nodweddion 1-7 ac 8 (h.y. rhywogaethau pysgod):**<br>Y weledigaeth ar gyfer y nodweddion hyn yw bod ganddynt statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br><br>• Cyflawnir Amcan Cadwraeth y ddyfrffordd – gweler y cynllun Rheoli Craidd (CNC, 2022) i gael rhagor o fanylion).<br>• Mae poblogaeth y nodwedd yn yr ACA yn sefydlog neu'n cynyddu yn y tymor hir. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Amcanion Cadwraeth |
|---|---|---|
| | 2. Llysywen bendoll y nant *Lampetra planeri*<br>3. Llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis*<br>4. Gwangen *Alosa fallax*<br>5. Eog Iwerydd *Salmo salar*<br>6. Penlletwad *Cottus gobio*<br>7. Dyfrgi Ewropeaidd *Lutra lutra*<br><br><u>Rhywogaethau Anecs II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond heb fod yn brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>8. Herlyn *Alosa alosa*<br><br><u>Cynefinoedd Anecs I nad ydynt yn brif reswm dros ddethol y safle hwn</u><br>9. Dyfrffydd ar lefel y gwastatir i'r mynydd gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho- Batrachion* | • Nid yw cwmpas naturiol y nodwedd yn yr ACA yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol rhagweladwy.<br>• Mae cynefin digon mawr yn bodoli, ac mae hynny'n debygol o barhau, i gynnal poblogaeth y nodwedd yn yr ACA ar sail hirdymor.<br><br>**Nodwedd 7:**<br>Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br>• Mae poblogaeth y dyfrgwn yn yr ACA yn sefydlog neu'n cynyddu yn y tymor hir ac yn adlewyrchu capasiti cario naturiol y cynefin oddi mewn i'r ACA, fel y pennir gan lefelau naturiol digonedd ysglyfaethwyr ac ymddygiad tiriogaethol cysylltiedig.<br>• Nid yw cwmpas naturiol dyfrgwn yn yr ACA yn cael ei leihau nac yn debygol o leihau yn y dyfodol rhagweladwy. Cymerir y cwmpas naturiol i olygu cyrraedd y mannau hynny a allai fod yn addas i ffurfio rhan o diriogaeth fridio a/neu ddarparu llwybrau rhwng tiriogaethau bridio.<br>• Hwylusir unigolion i symud a gwasgaru'n ddiogel o amgylch yr ACA trwy ddarparu, lle bo angen, cynefin addas ar lan yr afon, a thanffyrdd, silffoedd, ffensys etc wrth bontydd ffordd a rhwystrau artiffisial eraill.<br><br>**Nodwedd 9:**<br>Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br>• Cyflawnir Amcan Cadwraeth y ddyfrffordd – gweler y cynllun Rheoli Craidd (CNC, 2022) i gael rhagor o fanylion).<br>• Dylai cwmpas naturiol y cymunedau planhigion a gynrychiolir yn y nodwedd hon fod yn sefydlog neu'n cynyddu yn yr ACA. Cymerir y cwmpas naturiol i olygu cyrraedd y mannau hynny lle mae cynefin amlwg addas yn bodoli yn y tymor hir. Gall y cynefin addas a'r cymunedau planhigion cysylltiedig amrywio o estyniad i estyniad.<br>• Dylai'r ardal a gwmpasir gan y nodwedd o fewn ei hardal naturiol yn yr ACA fod yn sefydlog neu'n cynyddu. |

<table>
<tr><th>Safle Ewropeaidd</th><th>Nodweddion Cymhwyso</th><th>Amcanion Cadwraeth</th></tr>
<tr><td>ACA Bannau Brycheiniog</td><td><u>Cynefin Anecs I sy’n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>1. Llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant yn yr hafnau<br>2. Llethrau creigiog silicaidd gyda llystyfiant yn yr hafnau<br><br><u>Cynefin Anecs I sy’n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nad yw’n brif reswm dros ddethol y safle:</u><br>3. Rhostir sych Ewropeaidd<br><br><u>Cynefin Anecs I sy’n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nad yw’n brif reswm dros ddethol y safle:</u><br>4. Cymunedau llysiau tal hydroffilaidd ar y gwastatir ac ar lefelau’r mynydd a’r mynydd-dir alpaidd</td><td>Nodwedd 1:<br>• Mae’r clogwyni tywodfaen cyfoethog eu sylfaen, gan gynnwys cilfachau, sgrî a mannau cysylltiedig lle mae pridd tenau, yn dal heb eu haflonyddu ac yn cynnal planhigion nodweddiadol, gan gynnwys mwsogl a llysiau’r afu.<br>• Mae amrywiaeth o blanhigion prin ac anghyffredin yn ffynnu yn y mannau hyn, gan gynnwys y tormaen porffor, y dduegredynen werdd, afal-fwsogl Oeder, y clustlys garw lleiaf a sawl heboglys prin.<br>• Mae poblogaethau’r rhywogaethau hyn yn ddigon mawr ac eang i gael eu cynnal i’r dyfodol (ar hyn o bryd gall rhai poblogaethau fod yn gritigol o isel).<br>• Mae pob ffactor sy’n effeithio ar gyflawni’r amodau uchod o dan reolaeth.<br><br>Nodwedd 2:<br>• Mae’r creigiau tywodfaen asidig, gan gynnwys cilfachau a sgrî, yn dal heb eu haflonyddu ac yn cynnal planhigion nodweddiadol, sy’n cynnwys mwsoglau, rhedyn a chennau.<br>• Mae amrywiaeth o blanhigion prin ac anghyffredin yn ffynnu yn y mannau hyn, gan gynnwys y cnwp-fwsogl mawr, y gorhelygen, a’r mwsogl rhesog mwyaf.<br>• Mae poblogaethau’r rhywogaethau hyn yn ddigon mawr ac eang i gael eu cynnal i’r dyfodol.<br>• Mae pob ffactor sy’n effeithio ar gyflawni’r amodau uchod o dan reolaeth.<br><br>Nodwedd 3:<br>• Cynhelir cwmpas, ansawdd ac amrywiaeth y llystyfiant rhostir, a lle bo modd, caiff rhosydd sydd wedi diraddio eu hadfer i gyflwr da.<br>• Mae gan brif ardaloedd rhostir yr ACA a’r SoDdGA strwythur oed amrywiol, gyda mosaig o rostir ifanc, aeddfed ac sy’n dirywio.<br>• Mae pob ffactor sy’n effeithio ar gyflawni’r amodau hyn o dan reolaeth.<br><br>Nodwedd 4:<br>• Mae’r silffoedd clogwyn lle mae pridd llai asidig yn dal yn rhydd rhag pori i raddau helaeth, fel bod y planhigion blodeuo nodweddiadol yn gallu ffynnu a blodeuo’n rhydd.<br>• Mae sawl planhigyn anghyffredin yn ffynnu yn y mannau hyn, gan gynnwys glesyn-y-gaeaf danheddog a mathau prin o heboglys.</td></tr>
</table>

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Amcanion Cadwraeth |
|---|---|---|
| | | • Mae poblogaethau'r planhigion hyn yn ddigon mawr ac eang i gael eu cynnal i'r dyfodol.<br>• Mae pob ffactor sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau uchod o dan reolaeth. |
| ACA Cwm Cadlan | <u>Cynefinoedd Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>1. Dolydd *Molinia* ar bridd calchaidd, mawnog neu glaeog, llawn gwaddod (*Molinion caeruleae*)<br>2. Ffen alcalïaidd | Y weledigaeth ar gyfer **Nodwedd 1** yw y bydd ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br>• Bydd dôl ffen yn llenwi o leiaf 26 ha o gyfanswm yr ardal cynefin glaswelltir corsiog, a fydd ei hun yn gorchuddio o leiaf 42 ha.<br>• Bydd gweddill y safle yn cynnwys cynefin arall lled-naturiol yn bennaf, gan gynnwys ffen alcalïaidd.<br>• Bydd planhigion dolydd ffen nodweddiadol yn gyffredin.<br>• Bydd planhigion sy'n arwydd o addasu neu newid amaethyddol er mwyn hydroleg a sychu'r pridd yn absennol, neu'n bresennol ar lefel isel yn unig.<br>• Er bod brwyn i'w gweld yn aml, ni fydd y rhywogaethau mwy swmpus yn gorchuddio mwy na 33%.<br>• Yn gyffredinol, ni fydd y tir moel yn gorchuddio mwy na 5%, a'r sbwriel llystyfiant 25%.<br>• Bydd prysgwydd trwchus yn absennol o'r ddôl ffen ar y cyfan, ond fwy na thebyg mae'n ddymunol i infertebratau ac adar gael llwyni neu goed gwasgaredig.<br>• Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth.<br><br>Y weledigaeth ar gyfer **Nodwedd 2** yw y bydd ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br>• Bydd Ffen alcalïaidd yn llenwi rhyw 11 ha neu fwy.<br>• Bydd gweddill y safle'n cynnwys yn bennaf gynefin lled-naturiol arall, gan gynnwys dolydd ffen.<br>• Bydd planhigion Ffen alcalïaidd nodweddiadol yn gyffredin.<br>• Bydd planhigion sy'n arwydd o addasu neu newid amaethyddol er mwyn hydroleg a sychu'r pridd yn absennol, neu'n bresennol ar lefel isel yn unig.<br>• Er bod brwyn i'w gweld yn aml, ni fydd y rhywogaethau mwy swmpus yn gorchuddio mwy na 33%.<br>• Yn gyffredinol, ni fydd y tir moel yn gorchuddio mwy na 5%, a'r sbwriel llystyfiant 10%.<br>• Bydd rhywogaethau prysgwydd yn absennol o'r ffen alcalïaidd ar y cyfan.<br>• Wrth darddellau dethol, dylai dŵr lifo ac eithrio pan geir yr amodau sychder mwyaf difrifol.<br>• Mae'r holl ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r amodau hyn o dan reolaeth. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Amcanion Cadwraeth |
|---|---|---|
| ACA Blaen Cynon | <u>Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn</u><br>Pili Pala Britheg y gors *Euphydryas* (*Eurodryas, Hypodryas*) *aurinia* | Y weledigaeth ar gyfer y nodwedd hon yw bod ganddi statws cadwraeth ffafriol, lle bodlonir yr holl amodau canlynol:<br>• Bydd y safle'n cyfrannu at gynnal metaboblogaeth gynaliadwy o fritheg y gors yn ardal Penderyn/Hirwaun. Bydd hyn yn galw am o leiaf 50ha o gynefin addas, y mae'n rhaid i 10ha o leiaf ohono fod mewn cyflwr da, er na ddisgwylir cael hyd i'r cyfan yn yr ACA. Bydd peth ohono ar dir cyfagos o fewn radiws o ryw 2km.<br>• Bydd y boblogaeth yn hyfyw yn y tymor hir, gan gydnabod amrywiadau poblogaeth eithafol y rhywogaeth.<br>• Bydd isafswm o 30% o arwynebedd y safle yn laswelltir addas i gynnal britheg y gors. (Gan mai cyfanswm arwynebedd yr ACA yw 66.62 ha, mae 30% yn cynrycholi 20 ha yn fras.)<br>• Rhaid i isafswm o 40% o'r cynefin addas (rhyw 8 ha) fod mewn cyflwr delfrydol ar gyfer bridio britheg y gors.<br>• Diffinnir cynefin addas britheg y gors fel gelli glaswelltir lle ceir *Succisa pratensis* a lle nad yw prysgwydd dros 1 fetr o uchder yn gorchuddio mwy na 10% o'r gelli.<br>• - Nodweddir cynefin bridio delfrydol britheg y gors gan laswelltir lle mae'r llystyfiant yn 10-20cm o uchder, gyda digonedd o laswellt y bwla Molinia caerulea, tamaid y cythraul "dail mawr" *Succisa pratensis* addas i fritheg y gors ddodwy eu hwyau arnynt yn digwydd yn aml, a phrysgwydd achlysurol yn unig. Yn y blynyddoedd brig, ceir hyd i ddwysedd o 200 o weoedd larfaidd fesul hectar o gynefin delfrydol ar draws y safle. |
| ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin | <u>Cynefin Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>1. <u>Cefnenni tywod sy'n cael eu gorchuddio i ryw raddau gan ddŵr y môr drwy'r amser</u><br>2. <u>Aberoedd</u><br>3. <u>Traethellau lleidiog a thraethellau tywod nad yw dŵr y môr yn eu gorchuddio adeg llanw isel</u> | **Nodweddion cynefin:**<br>▪ Cefnenni tywod sy'n cael eu gorchuddio i ryw raddau gan ddŵr y môr drwy'r amser<br>▪ Aberoedd<br>▪ Traethellau lleidiog a thraethellau tywod nad ydynt wedi'u gorchuddio gan ddŵr y môr drwy'r amser<br>▪ Morydau a baeau bas mawr<br>▪ Dolydd heli Iwerydd<br>▪ Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill yn byw ar y llaid a'r tywod |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Amcanion Cadwraeth |
|---|---|---|
| | 4. Morydau a baeau bas mawr<br>5. Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill yn byw ar y llaid a'r tywod<br>6. Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinellietalia maritimae*)<br>Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>7. Gwangen *Alosa fallax*<br>Rhywogaethau Anecs II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond heb fod yn brif reswm dros ddethol y safle:<br>*8.* Llysywen bendoll y môr *Petromyzin marinus*<br>*9.* Llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis*<br>*10.* Herlyn *Alosa alosa*<br>*11.* Dyfrgi *Lutra lutra* | ▪ Dosbarthiad a chwmpas cyffredinol y nodweddion cynefin o fewn y safle, a phob un o'u prif elfennau yn sefydlog neu'n cynyddu.<br>▪ Nad yw'r strwythur ffisegol, biolegol a chemegol a'r swyddogaethau angenrheidiol ar gyfer cynnal y cynefin a'i ansawdd yn y tymor hir yn cael eu diraddio.<br>▪ Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth y rhywogaethau nodweddiadol yn golygu nad yw ansawdd y cynefin yn diraddio.<br><br>**Nodweddion Rhywogaethau:**<br>▪ Mae'r boblogaeth yn cynnal ei hun ar sail hirdymor fel cydran hyfyw o'i chynefin naturiol.<br>▪ Mae poblogaeth y rhywogaeth o fewn y safle yn golygu nad yw cwmpas naturiol y boblogaeth yn cael ei leihau nac yn debygol o gael ei leihau yn y dyfodol rhagweladwy.<br>▪ Mae presenoldeb, digonedd, cyflwr ac amrywiaeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n ofynnol i gynnal y rhywogaeth hon yn golygu bod dosbarthiad, digonedd a deinameg poblogaeth y rhywogaeth o fewn y safle, a'r boblogaeth y tu hwnt i'r safle, yn sefydlog neu'n cynyddu. |
| AAA Moryd y Burry | Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle:<br>▪ Gylfinir *Numenius arquata*<br>▪ Pibydd y mawn *Calidris alpina alpine*<br>▪ Cornicyll llwyd *Pluvialis Squatarola* | I gyflawni statws cadwraeth ffafriol mae angen cyflawni pob un o'r canlynol, yn amodol ar brosesau naturiol, a'u cynnal yn y tymor hir. Os na chyflawnir yr amcanion hyn, bydd angen mesurau adfer i gyflawni statws cadwraeth ffafriol:<br>▪ Mae niferoedd yr holl rywogaethau adar yn yr AAA yn sefydlog neu'n cynyddu.<br>▪ Mae cyflenwad a dosbarthiad ysglyfaeth addas yn ddigonol ac yn briodol y gynnig niferoedd yr holl rywogaethau o adar yn yr AAA.<br>▪ Caniateir i holl adar yr AAA drigo yn eu tiroedd bwydo a'u hardaloedd gorffwys gydag isafswm o aflonyddu, ac maent yn rhydd i symud rhyngddynt yn ddirwystr. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Amcanion Cadwraeth |
|---|---|---|
| | ▪ Pibydd *Calidris canutus*<br>▪ Pioden y môr *Haematopus ostralegus*<br>▪ Hwyaden gynffonfain *Anas acuta*<br>▪ Pibydd coesgoch *Tringa totanus*<br>▪ Hwyaden hudo *Tadorna tadorna*<br>▪ Hwyaden lydanbig *Anas clypeata*<br>▪ Corhwyad *Anas crecca*<br>▪ Cwtiad y traeth *Arenaria interpres*<br>▪ Chwiwell *Anas penelope* | ▪ Cyflawnir holl gyflyrau'r Amcanion Cadwraeth ar gyfer y cynefinoedd cynhaliol a'r rhywogaethau, yn amodol ar brosesau naturiol, a'u cynnal yn y tymor hir.<br>▪ Mae'r rheolaeth a'r mesurau rheoli ar gyfer gweithgareddau neu weithrediadau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar bïod y môr, yn briodol ar gyfer cynnal y nodwedd yn FCS, ac mae'n ddiogel yn y tymor hir. |
| Ramsar Moryd y Burry | Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle:<br>*1.* Pibydd coesgoch cyffredin*Tringa totanus tetanus*<br>*2.* Hwyaden gynffonfain y gogledd *Anas acuta*<br>3. Pioden Ewrasiaidd y môr *Haematopus ostralegus* ostralegus<br>4. Pibydd coch *Calidris canutus islandica*<br>Rhywogaeth Anecs II sy'n cyflwyno fel nodwedd gymhwyso, ond heb fod yn brif reswm dros ddethol y safle: | I'w ddatblygu. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Amcanion Cadwraeth |
|---|---|---|
| | 5. Hwyaden lydanbig *Anas clypeata* | |

# 4. Polisïau Strategol CDLlA CNPT

## 4.1 Trosolwg

4.1.1 Mae **Tabl 4-1** isod yn darparu manylion yr 18 Polisi Strategol a gynigir ar gyfer CDLlA CNPT. Cyfeirir at y polisïau hyn fel yr 'Opsiynau' i'w hystyried yn yr asesiad hwn.

**Tabl 4-1 Polisïau Strategol a gynigir ar gyfer CDLlA CNPT ac amcanion cysylltiedig pob polisi.**

| Polisi Strategol (PS) | Amcanion |
|---|---|
| PS1 Creu Lleoedd Strategol | NO4: Gwireddu manteision llawn twf economaidd gwyrdd ar draws y fwrdeistref sirol i ddarparu cymunedau cwbl gynaliadwy ym mhob ardal leol, ochr yn ochr â chadw amgylchedd Castell-nedd Port Talbot. |
| PS2 Newid yn yr Hinsawdd | NO1: Lleiafu'r achosion ac addasu i effeithiau cyfredol a rhagweledig y newid yn yr hinsawdd trwy wneud y canlynol:<br>Lleiafu allyriadau nwyon tŷ gwydr;<br>Gofyn bod datblygiadau'n cael eu lleoli a'u dylunio'n briodol; a<br>Gwarchod a gwella pob ased amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer addasu i'r hinsawdd a gwydnwch yn ei sgîl. |
| PS3 Argyfwng Byd Natur, Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol | NO2: Cyflawni budd net i fioamrywiaeth a gwell gwydnwch i ecosystemau yn sgîl datblygiadau newydd ar draws y fwrdeistref sirol. |
| PS4 Iechyd | NO3: Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn darparu amgylchedd lleol iach sy'n annog ffyrdd actif a mwy iach o fyw i bob grŵp oed. |
| PS5 Creu Lleoedd ar Waith | NO5: Cefnogi, gwella a chyfoethogi unigrywiaeth cymunedau CNPT, gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg, trwy gamau cadarnhaol i greu lleoedd ar lefel leol.<br><br>NO8: Annog a chefnogi cadw a darparu cyfuniad o gyfleusterau cymunedol, manwerthu, cyflogaeth a hamdden mewn lleoliadau priodol ar draws y fwrdeistref sirol.<br><br>NO13: Sicrhau bod asedau naturiol a hanesyddol CNPT yn cael eu cadw, eu gwarchod a'u gwella, yn ogystal â'r Seilwaith Gwyrdd, y tirweddau, yr arfordir sydd heb ei ddatblygu a'r ardaloedd arfordirol. |
| PS6 Ardaloedd Strategaeth | Nodwyd Dwy Ardal Strategaeth oddi mewn i CNPT – Coridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol (CCNGA) ac Ardal Cyfle'r Cymoedd (VOA). Y CCNGA yw lle mae'r rhan fwyaf o boblogaeth, cyflogaeth, gwasanaethau allweddol a chyfleusterau'r Fwrdeistref Sirol wedi'u lleoli, a lle cyfeirir y rhan fwyaf o'r datblygu.<br><br>Ardal Cyfle'r Cymoedd yw lle bydd cyfleoedd twristiaeth, cyflogaeth a threftadaeth allweddol yn cael eu hyrwyddo er mwyn gweithredu fel catalydd ar gyfer gwelliannau hirdymor. |
| PS7 Trafnidiaeth Gynaliadwy | NO6: Lleihau anghydraddoldebau gofodol o ran teithio a thrafnidiaeth ar draws y fwrdeistref sirol trwy welliannau i Deithio Llesol a chysylltiadau a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, yn arbennig yn ardaloedd y cymoedd. |
| PS8 Tai | NO7: Cyflwyno tai newydd digonol o ansawdd da o'r mathau gofynnol yn y lleoliadau mwyaf addas er mwyn ymateb i'r angen a nodwyd. |
| PS9 Manwerthu a Chanolfannau Masnachol | NO8: Annog a chefnogi cadw a darparu cyfuniad o gyfleusterau cymunedol, manwerthu, cyflogaeth a hamdden mewn lleoliadau priodol ar draws y fwrdeistref sirol. |
| PS10 Twristiaeth | NO10: Sicrhau bod holl ardaloedd CNPT yn gallu elwa o dwf economaidd a seilwaith economaidd modern, gan gynnwys atyniadau i ymwelwyr, sy'n briodol i ymateb i'w hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| PS11 Adferiad Economaidd | NO4: Gwireddu manteision llawn twf economaidd gwyrdd ar draws y fwrdeistref sirol i ddarparu cymunedau cwbl gynaliadwy ym mhob ardal leol, ochr yn ochr â chadw amgylchedd CNPT. |

| Polisi Strategol (PS) | Amcanion |
|---|---|
| | NO9: Annog a galluogi sefydlu a thwf technolegau a diwydiannau gwyrdd newydd glân er mwyn hybu a chynnal rôl arweiniol i CNPT yn yr economïau diwydiannol ac ynni adnewyddadwy cenedlaethol a rhyngwladol.<br>NO10: Sicrhau bod pob ardal yn CNPT yn gallu elwa o dwf economaidd a seilwaith economaidd modern, gan gynnwys atyniadau ymwelwyr sy'n briodol i ymateb i'w hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. |
| PS12 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | NO9: Annog a galluogi sefydlu a thwf technolegau a diwydiannau gwyrdd newydd glân er mwyn hybu a chynnal rôl arweiniol i CNPT yn yr economïau diwydiannol ac ynni adnewyddadwy cenedlaethol a rhyngwladol.<br><br>NO11: Galluogi CNPT i wneud cyfraniad priodol i gynhyrchu ynni carbon isel ac adnewyddadwy, ochr yn ochr ag annog cymryd pob cam priodol i leihau'r galw am ynni a gwella effeithlonrwydd ar draws pob sector. |
| PS13 Mwynau | NO12: Cadw a diogelu adnoddau, cronfeydd wrth gefn a seilwaith mwynau, ochr yn ochr â gwneud cyfraniad priodol a chymesur i'r cyflenwad o fwynau er mwyn ymateb i'r angen lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod yr effeithiau niweidiol yn cael eu lleiafu a bod darparu cyfleusterau a phrosesau priodol i drin gwastraff, ailgylchu a gwaredu yn cael ei hwyluso. |
| PS14 Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | NO12: Cadw a diogelu adnoddau, cronfeydd wrth gefn a seilwaith mwynau, ochr yn ochr â gwneud cyfraniad priodol a chymesur i'r cyflenwad o fwynau er mwyn ymateb i'r angen lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod yr effeithiau niweidiol yn cael eu lleiafu a bod darparu cyfleusterau a phrosesau priodol i drin gwastraff, ailgylchu a gwaredu yn cael ei hwyluso. |
| PS15 Yr Amgylchedd Hanesyddol | NO13: Sicrhau bod asedau naturiol a hanesyddol CNPT yn cael eu cadw, eu gwarchod a'u gwella, yn ogystal â'r Seilwaith Gwyrdd, y tirweddau, yr arfordir sydd heb ei ddatblygu a'r ardaloedd arfordirol. |
| PS16 Seilwaith Gwyrdd | NO13: Sicrhau bod asedau naturiol a hanesyddol CNPT yn cael eu cadw, eu gwarchod a'u gwella, yn ogystal â'r Seilwaith Gwyrdd, y tirweddau, yr arfordir sydd heb ei ddatblygu a'r ardaloedd arfordirol. |
| PS17 Cefn Gwlad, Tirweddau a'r Arfordir heb ei ddatblygu | NO13: Sicrhau bod asedau naturiol a hanesyddol CNPT yn cael eu cadw, eu gwarchod a'u gwella, yn ogystal â'r Seilwaith Gwyrdd, y tirweddau, yr arfordir sydd heb ei ddatblygu a'r ardaloedd arfordirol. |
| PS18 Gwarchod yr Amgylchedd | NO14: Sicrhau bod materion amgylcheddol a newidiadau i'r dyfodol, gan gynnwys perygl llifogydd, newid arfordirol ac afonol, a materion llygredd yn cael eu hosgoi'n briodol, y rhoddir sylw priodol iddynt, ac y lleiafir yr effeithiau niweidiol. |

4.1.2 Fel y trafodir yn **Adran 6**, mae llwybrau posibl effaith, o ganlyniad i'r polisïau, wedi'u seilio ar y potensial i'r polisi hybu newid, yn ogystal ag annog gwarchod yr amgylchedd. Mae'r polisïau hyn i gael eu hadolygu a'u datblygu i sicrhau bod y polisïau hyn ar gyfer gwarchod yr amgylchedd yn cynnig amddiffyniad penodol rhag effeithiau uniongyrchol ar Safleoedd Ewropeaidd.

# 5. Safleoedd Allweddol y Strategaeth a Ffafrir

## 5.1 Safleoedd Allweddol a Safleoedd Ymgeisiol y Strategaeth a Ffafrir

5.1.1 Mae Safleoedd Allweddol y Strategaeth a Ffafrir (y cyfeirir atynt o hyn allan fel 'Safleoedd Allweddol') a ddarparwyd gan Gyngor CNPT yn cael eu cynnig fel rhan o gyflawni'r CDLIA, fel y dangosir yn **Nhabl 5-1**. Ar y cyfnod hwn yn y Strategaeth mae dyraniadau dros dro ar gyfer y safleoedd a enwir a gallai'r rhain newid yng nghyfnod y Cynllun Adnau. Gwnaed penderfyniad ynghylch y math o ddatblygiad yn y tabl, ac mae côd lliw i'r rhain er mwyn gwahaniaethu rhwng rhai preswyl, ardaloedd cyflogaeth, lleoliadau sy'n canolbwyntio ar welliannau trafnidiaeth a thwristiaeth.

**Tabl 5-1. Crynodeb o'r Safleoedd Allweddol a nodwyd yn Strategaeth a Ffafrir CDLIA CNPT.**

| Enw'r Safle | Cyfeirnod | Math o Ddatblygiad | Maint (hectarau) |
|---|---|---|---|
| Coed Hirwaun | RLDP/PT/0042, RLDP/PT/2015 ac RLDP/PT/UC024 | Dangosol 900 o anheddau (400 yng nghyfnod y CDLIA) ac ysgol gynradd newydd cyfrwng Cymraeg | 128.1ha |
| Tir i'r Dwyrain o'r Rhos | RLDP/P/0027, RLPD/P/0029 ac RLDP/P/0030 | Dangosol Preswyl (400 o gartrefi) ac ysgol cyfrwng Cymraeg | 15.7ha |
| Tir yn ymyl Blaenbaglan | RLDP/PT/UC0003 | Dangosol Preswyl - 341 o anheddau, gan gynnwys 141 dyraniad sydd eisoes yn bodoli | 14.5ha |
| Fferm Fforest | RLDP/N/0005, RLDP/N/0006 ac RLDP/N/UC007 | Dangosol preswyl (250 - 300 o gartrefi) a thir ar gyfer ysgol arbennig | 26.4ha |
| Porthladd Port Talbot | RLDP/PT/0048 ac RLDP/PT/2009 | Cyflogaeth, seilwaith trafnidiaeth ac ynni adnewyddadwy | 389.6ha |
| Gwaith Dur Port Talbot | RLDP/PT/0041 | Cyflogaeth; ynni adnewyddadwy | 671.9ha |
| Parc Ynni Baglan | RLDP/PT/0008 | Cyflogaeth | 187.8ha |
| GCRE | RLDP/DV/0022 | Seilwaith Trafnidiaeth | 107.8ha |
| Canolfan Antur Cwm Afan | RLDP/AV/0001 | Twristiaeth a hamdden | 128.4ha |

5.1.2 Dewiswyd y Safleoedd Allweddol hyn i helpu i gyflawni'r strategaeth arfaethedig ac maent yn destun mireinio pellach cyn cyfnod y Cynllun Adnau. Bydd safleoedd eraill, llai strategol eu pwysigrwydd, hefyd yn cael eu dyrannu ar gyfer datblygu yn y Cynllun Adnau.

5.1.3 Fel y nodir yn nogfen y 'Strategaeth a Ffafrir', 'Gan ddefnyddio'r Safleoedd Ymgeisiol (2022 a 2023) a'r Cofrestrau Capasiti Trefol yn fan cychwyn, cynhaliwyd asesiad o Safleoedd Allweddol posibl i lywio'r Strategaeth a Ffafrir. Diffiniwyd Safleoedd Allweddol posibl fel safleoedd tai a chyflogaeth sy'n debygol o fedru gwneud cyfraniad da iawn at yr amcanion creu lleoedd, ac sy'n cyd-fynd â gweledigaeth y CDLIA'.

5.1.4 Mae'r CDLIA wedi nodi 9 Safle Allweddol yn unol ag Opsiynau'r Cynllun. Mae'r lleoliadau safle mewn perthynas â Safleoedd Ewropeaidd i'w gweld yn **Atodiad B**. Defnyddiwyd yr un dull gweithredu mewn perthynas â'r 64 Safle Ymgeisiol/Safle Capasiti Trefol a aseswyd gan y Cyngor fel rhai addas a chyflawnadwy (y rhai a nodwyd yn 'wyrdd' yn nogfennau Asesu'r Safleoedd Ymgeisiol a'r Safleoedd Capasiti Trefol.

Seiliwyd yr asesiad hwn ar y lefel gyfredol o wybodaeth sydd gan y Cyngor ar y pryd, a gallai fod yn destun newid cyn nodi dyraniadau ar gyfer y Cynllun Adnau. Manylir ar y safleoedd hyn (y mae rhai ohonynt yn ffurfio safleoedd allweddol) yn yr adrannau asesu i helpu i bennu llwybrau effaith posibl o'u hadran a'r Safleoedd Ewropeaidd. Cyn y Cynllun Adnau, gwneir gwaith pellach pan fydd y Cyngor wedi nodi dyraniadau.

5.1.5 Ceir pellter pob Safle Allweddol mewn perthynas â'r Safleoedd Ewropeaidd a sgriniwyd i mewn ar gyfer yr asesiad hwn, yn **Atodiad D**. Ceir mapiau o'r Safleoedd Ymgeisiol mewn perthynas â'r Safleoedd Ewropeaidd a sgriniwyd i mewn ar gyfer yr asesiad hwn yn **Atodiad F**, a ategir â'r rhestr o 60 Safle Ymgeisiol a'r cyfeirnodau cysylltiedig yn **Atodiad G**

# 6. Llwybrau Effaith Posibl

6.1.1 Mae’r adran ganlynol yn darparu manylion y bygythiadau a’r pwysau perthnasol uniongyrchol/anuniongyrchol a allai effeithio ar integriti Safleoedd Ewropeaidd perthnasol o ganlyniad i’r Polisïau Strategol a’r Safleoedd Allweddol a gynigir yn y CDLlA:

- **Llygredd atmosfferig –** Mwy o lygru’r pridd a’r aer yn bosibl trwy weithgareddau adeiladu a chynnydd mewn traffig.
- **Pwysau hamdden –** Mwy o aflonyddu yn sgîl gweithgaredd dynol o ganlyniad i’r canlynol; gweithgareddau chwaraeon a hamdden i gael adloniant yn yr awyr agored; perygl tân ac ymlediad rhywogaethau anfrodorol ymwthiol a/neu rywogaethau brodorol trafferthus;
- **Ansawdd dŵr –** Posibilrwydd o lygru dŵr arwyneb (llynnol a thirol, morol a lled hallt), dŵr daear (ffynonellau un pwynt a gwasgaredig) a llygru dŵr y môr; a
- **Swm, lefel a llif dŵr (hydroleg) –** Newidiadau a achoswyd gan bobl i amodau hydrolig.

6.1.2 Nid ystyriwyd effeithiau uniongyrchol ar Safleoedd Ewropeaidd fel llwybr effaith canfyddadwy oherwydd bod polisïau canlynol y Cynllun yn gwarchod rhag effaith niweidiol:

- PS3 Argyfwng Byd Natur, Bioamrywiaeth a’r Amgylchedd Naturiol
- PS16 Seilwaith Gwyrdd
- PS17 Cefn Gwlad, Tirweddau a’r Arfordir heb ei Ddatblygu
- PS18 Amddiffyn yr Amgylchedd

6.1.3 Mae’r llwybrau effaith uniongyrchol a sgriniwyd allan ar sail y polisïau uchod yn cynnwys:

- Aflonyddu uniongyrchol ar rywogaethau a chynefinoedd
- Addasu cynefinoedd Safleoedd Ewropeaidd yn uniongyrchol
- Colli cynefin sydd â chysylltiadau swyddogaethol
- Effeithiau sŵn a dirgryniad

6.1.4 Ceir asesiad o’r llwybrau effaith posibl mewn cysylltiad â’r CDLlA o ran y bygythiadau a’r pwysau ar bob safle Ewropeaidd yn **Atodiad C**. Pennwyd asesiad o’r llwybrau effaith a chysylltiadau posibl â Safleoedd Ewropeaidd, mewn perthynas â ffin awdurdod CNPT yn ogystal.

6.1.5 Fel y trafodwyd uchod, lluniwyd polisïau amddiffyn yr amgylchedd i sicrhau bod effeithiau uniongyrchol ar Safleoedd Ewropeaidd yn cael eu hosgoi, a bydd yn ofynnol trwy gyfnod y Cynllun Adnau bod y polisïau hyn yn cael eu hadolygu a’u datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn darparu’r amddiffyniad hwnnw. Cwblhawyd yr asesiad hwn ar y sail bod Safleoedd Ewropeaidd yn cael eu hamddiffyn rhag llwybrau effaith uniongyrchol.

6.1.6 At ei gilydd, mae’r Safleoedd Ewropeaidd canlynol sydd o fewn 15km i ffin awdurdod CNPT yn sensitif i’r llwybrau effaith a rhoddir ystyriaeth bellach iddynt yn yr asesiad hwn:

## 6.2 Llygredd atmosfferig

### Dyddodion Nitrogen

6.2.1 Mae mwy o draffig a gweithgaredd diwydiannol yn sgîl datblygiadau newydd yn cyfrannu at lygredd atmosfferig, yn arbennig allyriadau ocsidau nitrogen (NOx) ac amonia (NH3). Mae'r llygryddion hyn yn gadael dyddodion nitrogen ar ecosystemau tirol, gan annog twf rhywogaethau sy'n goddef nitrogen, a chystadlu'n llwyddiannus yn erbyn planhigion sensitif, a all arwain at golli bioamrywiaeth mewn cynefinoedd megis coetir a rhostir.

6.2.2 Mae llygredd aer yn fygythiad sylweddol i fioamrywiaeth a gweithrediad ecosystemau mewn amgylcheddau tirol. Gall arwain at asideiddio'r pridd, datblygiadau ewtroffig, a newidiadau yng nghyfansoddiad y gymuned o blanhigion[2].

6.2.3 Mewn rhai achosion, gall cynnydd yn y dyddodion N wella twf mwsogl megis *Sphagnum fuscum*[3] ac yn achos rhos hesg-fwsogl y mynydd, yn y pen draw mae'n diraddio'r cynefin trwy ddadelfennu cynyddol sy'n arwain at golli'r gorchudd o fwsogl[4]. Dros gyfnod hwy o gyswllt a chronni, gall ychwanegu N newid cemeg y pridd, cynyddu biomas bacteraidd, ac ysgogi gweithgarwch ensymau mewn mawn, fel bod sbwriel yn dadelfennu'n gynt, a llai o garbon yn cronni[5]. Mae lefel uchel o ddyddodion N yn lleihau twf migwyn (Sphagnum) ac yn newid y cydbwysedd cystadleuol â phlanhigion fasgwlaidd, gan gyfyngu o bosibl ar swyddogaeth y cynefin, a lleihau cyfradd cronni carbon[6]. Gall hyd yn oed lefelau isel o ddyddodion N (7.7-10 kg ha−1 bl−1) gael effaith negyddol ar fryoffytau, cennau a phlanhigion blodeuo[7] ac yn ôl yr adroddiadau mae mawndir Prydain yn derbyn, ar gyfartaledd, 14.1 kg N ha−1 bl−1, gyda 69.6% o ardaloedd wedi croesi'r terfynau llwyth critigol. Er y rhagwelir y bydd dyddodion N yn gostwng, mae'n debygol o barhau i gronni mewn mawn, gan greu bygythiad parhaus i'r ecosystemau sensitif hyn[8]. Erbyn 2030, mae disgwyl i lystyfiant lled-naturiol y Deyrnas Unedig brofi newidiadau, a nodweddir gan llai o gennau, mwy o laswellt, a symudiad at rywogaethau o blanhigion sy'n goddef nitrogen mewn coetir, glaswelltir, rhostir a chorsydd[9].

6.2.4 Mae llygryddion lluosog, gan gynnwys sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, ac osôn, yn rhyngweithio i gael effaith ar lystyfiant, gyda'r effeithiau'n amrywio o ddifrod i gennau mewn ardaloedd trefol i ddirywiad fforestydd a newidiadau i gymunedau glaswelltir[10, 11]. Ac mewn glaswelltir calchgas, ymddengys mai asideiddio'r pridd yw'r prif sbardun o ran newid

[2] Stevens, C.J., David, T.I., & Storkey, J. (2018). Atmospheric nitrogen deposition in terrestrial ecosystems: Its impact on plant communities and consequences across trophic levels. *Functional Ecology*, 32, 1757-1769

[3] Vitt, D. H., Wieder, K., Halsey, L. A., & Turetsky, M. (2003). Response of Sphagnum fuscum to nitrogen deposition: a case study of ombrogenous peatlands in Alberta, Canada. *The Bryologist*, 106(2), 235-245.

[4] Armitage, H.F., Britton, A.J., van der Wal, R., Pearce, I.S.K., Thompson, D.B.A. and Woodin, S.J. (2012), Nitrogen deposition enhances moss growth, but leads to an overall decline in habitat condition of mountain moss-sedge heath. *Glob. Change Biol*., 18: 290-300. https://doi.org/10.1111/j.1365-2486.2011.02493.x

[5] Bragazza, L., Buttler, A., Habermacher, J., Brancaleoni, L., Gerdol, R., Fritze, H., … & Johnson, D. (2011). High nitrogen deposition alters the decomposition of bog plant litter and reduces carbon accumulation. Global Change Biology, 18(3), 1163-1172. https://doi.org/10.1111/j.1365-2486.2011.02585.x

[6] Bragazza, L., Freeman, C., Jones, T., Rydin, H., Limpens, J., Fenner, N., ... & Toberman, H. (2006). Atmospheric nitrogen deposition promotes carbon loss from peat bogs. Proceedings of the National Academy of Sciences, 103(51), 19386-19389

[7] Phoenix, G. K., Emmett, B. A., Britton, A. J., Caporn, S. J., Dise, N. B., Helliwell, R., ... & Power, S. A. (2012). Impacts of atmospheric nitrogen deposition: responses of multiple plant and soil parameters across contrasting ecosystems in long-term field experiments. *Global Change Biology*, 18(4), 1197-1215

[8] Payne, R. J. (2014). The exposure of British peatlands to nitrogen deposition, 1900–2030. *Mires and Peat*, *14*(04), 1-9.

[9] Stevens, C.J., David, T.I., & Storkey, J. (2018). Atmospheric nitrogen deposition in terrestrial ecosystems: Its impact on plant communities and consequences across trophic levels. *Functional Ecology*, 32, 1757-1769

[10] Stevens, C. J., Bell, J. N. B., Brimblecombe, P., Clark, C. M., Dise, N. B., Fowler, D., ... & Wolseley, P. A. (2020). The impact of air pollution on terrestrial managed and natural vegetation. *Philosophical Transactions of the Royal Society* A, 378(2183), 20190317.

[11] Payne, R. J., Stevens, C. J., Dise, N. B., Gowing, D. J., Pilkington, M. G., Phoenix, G. K., ... & Ashmore, M. R. (2011). Impacts of atmospheric pollution on the plant communities of British acid grasslands. *Environmental Pollution*, 159(10), 2602-2608.

cyfansoddiad rhywogaethau, yn hytrach nag ewtroffeiddio[12]. Gall llygryddion sylffwr lesteirio twf rhywogaethau migwyn (Sphagnum), gan gyfrannu at eu dirywiad mewn gorgorsydd[13]. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod gostyngiadau mewn allyriadau sylffwr ers y 1970au yn gyrru adferiad yn pH pridd a chymunedau planhigion ar draws Prydain Fawr. Mae'r adferiad hwn yn arbennig o amlwg mewn cynefinoedd lled-naturiol, lle gwelwyd cynnydd yn pH y pridd a newidiadau yng nghyfansoddiad y gymuned o blanhigion[14]. Fodd bynnag, er bod arwyddion adferiad mewn rhai cynefinoedd glaswelltir, ni welwyd gwelliant mewn eraill eto, megis glaswelltir asid a Lolium[15], ac o blith y cynefinoedd coetir, coedydd conifferaidd a reolir a choedydd heb eu rheoli ar bridd mawn yw'r rhai mwyaf bregus[16].

6.2.5 Cyfrannodd trafnidiaeth ar y ffyrdd 30% o'r holl allyriadau NOx yn 2022[17], fodd bynnag, y tu hwnt i 200m, bernir nad yw cyfraniad allyriadau cerbydau o ymyl y ffordd i lefelau llygredd lleol yn arwyddocaol[18]. O ganlyniad, dyma'r pellter a ddefnyddir yn yr ARhC hwn i nodi'r prif lwybrau cymudo ar hyd Safleoedd Ewropeaidd, y mae datblygiadau a gynlluniwyd yn debygol o effeithio'n sylweddol arnynt.

## 6.3 Pwysau hamdden

6.3.1 Mae datblygu tai yn agos at safleoedd a warchodir yn debygol o gynyddu pwysau hamdden yn sylweddol, yn arbennig o fewn 1.5km yn achos ymwelwyr sy'n cerdded a hyd at 15km yn achos y rhai sy'n defnyddio cyfleusterau parcio[19].

6.3.2 Gall gweithgareddau hamdden fel arfordira achosi difrod i gynefinoedd rhynglanwol sensitif [20], tra bod cyfraddau erydiad pridd uwch i'w gweld ar lwybrau troed ym mharciau cenedlaethol y Deyrnas Unedig oherwydd pwysau ymwelwyr, ar lwybrau sefydledig ac oddi arnynt [21]. Mae patrymau ymwelwyr ar rostiroedd yn dangos bod y rhan fwyaf o ymwelwyr â rhostir isel trefol a maestrefol yn drigolion lleol sy'n cyflawni gweithgareddau fel mynd â'r ci am dro, eu bod yn ymweld â safleoedd yn rheolaidd, a'u bod yn byw gerllaw (o fewn 5 km) [22]. Mae effaith cŵn ar safleoedd cadwraeth natur yn cynnwys amharu ar adar, mamaliaid ac anifeiliaid eraill, effaith gwrtheithiol wrin a baw cŵn, a materion cysylltiedig â rheoli safleoedd a da byw [23].

---

[12] Stevens, C.J., Stevens, C.J., Thompson, K.A., Grime, J.P., Long, C., & Gowing, D.J. (2010). Contribution of acidification and eutrophication to declines in species richness of calcifuge grasslands along a gradient of atmospheric nitrogen deposition. *Functional Ecology*, 24, 478-484.

[13] Ferguson, P., Lee, J. A., & Bell, J. N. B. (1978). Effects of sulphur pollutants on the growth of Sphagnum species. *Environmental Pollution* (1970), 16(2), 151-162.

[14] Seaton, F. M., Robinson, D. A., Monteith, D., Lebron, I., Bürkner, P., Tomlinson, S., ... & Smart, S. M. (2023). Fifty years of reduction in sulphur deposition drives recovery in soil pH and plant communities. *Journal of Ecology*, 111(2), 464-478.

[15] Mitchell, R. J., Hewison, R. L., Fielding, D. A., Fisher, J. M., Gilbert, D. J., Hurskainen, S., ... & Riach, D. (2018). Decline in atmospheric sulphur deposition and changes in climate are the major drivers of long-term change in grassland plant communities in Scotland. *Environmental Pollution*, 235, 956-964.

[16] Langan, S. J., Hall, J., Reynolds, B., Broadmeadow, M., Hornung, M., & Cresser, M. S. (2004). The development of an approach to assess critical loads of acidity for woodland habitats in Great Britain. *Hydrology and Earth System Sciences*, 8(3), 355-365.

[17] Department for Environment Food & Rural Affairs (2024). Emissions of air pollutants in the UK – Nitrogen oxides (NOx). [cyrchwyd ar-lein yn: https://www.gov.uk/government/statistics/emissions-of-air-pollutants/emissions-of-air-pollutants-in-the-uk- nitrogen-oxides-nox, cyrchwyd, 16/10/2024].

[18] Department for Transport (2014). Transport Analysis Guidance (TAG) Unit A3: Environmental Impact Appraisal (p15). [ar gael ar-lein yn: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20140322171117/https://www.gov.uk/government/publications/webtag-tag-unit-a3-environmental-impact-appraisal, accessed 16/10/2024).

[19] Weitowitz, D. C., Panter, C., Hoskin, R., & Liley, D. (2019). The effect of urban development on visitor numbers to nearby protected nature conservation sites. *Journal of Urban Ecology*, 5(1)

[20] Tyler-Walters, H. (2005). Assessment of the potential impacts of coasteering on rocky intertidal habitats in Wales. [cyrchwyd: 15/10/2024, ar gael ar-lein yn: https://plymsea.ac.uk/id/eprint/1001/1/Coasteering_Rpt05_Final.pdf]

[21] Rodway-Dyer, S., & Walling, D.E. (2010). The use of 137Cs to establish longer-term soil erosion rates on footpaths in the UK. *Journal of environmental management*, 91 10, 1952-62.

[22] Underhill-Day, J. C., & Liley, D. (2007). Visitor patterns on southern heaths: a review of visitor access patterns to heathlands in the UK and the relevance to Annex I bird species. *Ibis*, *149*, 112-119.

[23] Taylor, K., Taylor, R., Anderson, P., Longden, K. & Fisher, P. (2005). Dogs, Access and Nature Conservation. English Nature Research Report 649. [ar gael ar-lein: https://publications.naturalengland.org.uk/publication/65013, cyrchwyd: 15/10/24]

**Adar**

6.3.3 Yn sgîl amharu ar adar wrth iddynt sefydlu tiriogaeth, gostyngodd tiriogaethau adar a chyfoeth eu rhywogaethau ryw 15% [24]. Yn yr un modd, arweiniodd llwybrau hamdden mewn fforestydd yr ymwelir yn fynych â hwy at lai o ddwysedd adar a chyfoeth o rywogaethau ger y llwybrau, o gymharu ag ardaloedd pellach i ffwrdd[25]. Gall presenoldeb pobl yn ystod cyfnodau datblygiad critigol amharu ar dwf adar bach yn y nyth a chyflwr eu cyrff [26]. Fodd bynnag, gall creu parthau gofalus o ran ardaloedd a amddiffynnir helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng defnydd hamdden ac amcanion cadwraeth. Er enghraifft, gall cyfyngu mynediad cŵn at safleoedd penodol gynyddu'n sylweddol gynrychiolaeth adar y traethlin, heb amharu braidd dim ar y cyfleoedd hamdden [27]. Ymhlith y rhywogaethau sy'n teimlo effaith aflonyddu gan bobl fwyaf mae'r rhai sydd â nythod agored a'r rhai sy'n fforio ar lefel y ddaear [28]. Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu pwysigrwydd rheoli gweithgareddau dynol mewn ardaloedd gwarchodedig er mwyn lleiafu'r effeithiau negyddol ar boblogaethau adar.

**Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol (INNS)**

6.3.4 Gall cyflwyno rhywogaethau anfrodorol gael ei waethygu gan weithgareddau hamdden awyr agored[29]. Mae chwaraeon hamdden megis pysgota [30] a chanŵio [31] yn fectorau posibl ar gyfer ymlediad rhywogaethau ymledol acwatig, gan fod ymarferwyr y chwaraeon hyn yn aml yn teithio rhwng dalgylchoedd a hyd yn oed dramor. Mae'r rhain yn peryglu bioamrywiaeth yn y Deyrnas Unedig trwy gystadleuaeth, ysglyfaethu, a newid cynefinoedd, ac mae ymdrechion rheoli yn aml yn heriol ac yn ddrud [32].

## 6.4 Ystyriaethau hydrolegol: Swm, lefel, llif ac ansawdd Dŵr

6.4.1 Mae datblygu a'r seilwaith cysylltiedig yn newid prosesau hydrolegol yn sylweddol, gydag effaith ar argaeledd dŵr a iechyd ecosystemau. Ymhlith y prif addasiadau mae newid i gyfraddau dŵr ffo, ymdreiddiad ac anweddiad, sy'n amharu ar gylch naturiol y dŵr. Mae trefoli yn creu mwy o ddŵr ffo oherwydd arwynebau anhydraidd, tra bod yr ymdreiddiad yn lleihau wrth i adeiladau a ffyrdd ddisodli tirweddau naturiol[33]. Ar ben hynny, mae trefoli yn addasu hydroleg nentydd, gan wneud y gwelyau'n fwy symudol a lleihau'r cynefinoedd sy'n aros, a all leihau'r llifogydd ar orlifdiroedd [34]. Gall y newidiadau hyn arwain at lifogydd trefol sydyn a phrinder dŵr, gan amlygu'r angen am arferion cynllunio trefol cynaliadwy [35]. O fewn y Deyrnas Unedig, mae astudiaethau wedi dangos bod trefoli'n arwain at ryddhau mwy o ddŵr o

---

[24] Bötsch, Y., Tablado, Z., & Jenni, L. (2017). Experimental evidence of human recreational disturbance effects on bird-territory establishment. *Proceedings of the Royal Society B: Biological Sciences*, *284*(1858), 20170846.

[25] Bötsch, Y., Tablado, Z., Scherl, D., Kéry, M., Graf, R. F., & Jenni, L. (2018). Effect of recreational trails on forest birds: human presence matters. *Frontiers in Ecology and Evolution*, *6*, 175.

[26] Remacha, C., Delgado, J. A., Bulaic, M., & Perez-Tris, J. (2016). Human disturbance during early life impairs nestling growth in birds inhabiting a nature recreation area. *PloS one*, *11*(11), e0166748.

[27] Stigner, M. G., Beyer, H. L., Klein, C. J., & Fuller, R. A. (2016). Reconciling recreational use and conservation values in a coastal protected area. *Journal of Applied Ecology*, *53*(4), 1206-1214.

[28] Bötsch, Y., Tablado, Z., & Jenni, L. (2017). Experimental evidence of human recreational disturbance effects on bird-territory establishment. *Proceedings of the Royal Society B: Biological Sciences*, *284*(1858), 20170846.

[29] Anderson L.G., Rocliffe S., Haddaway N.R., Dunn A.M. (2015). The Role of Tourism and Recreation in the Spread of Non-Native Species: A Systematic Review and Meta-Analysis. PLoS ONE 10(10): e0140833. https://doi.org/10.1371/journal.pone.0140833.

[30] Smith, E.R.C., Bennion, H., Sayer, C.D. *et al.* Recreational angling as a pathway for invasive non-native species spread: awareness of biosecurity and the risk of long distance movement into Great Britain. *Biol Invasions* **22**, 1135–1159 (2020). https://doi.org/10.1007/s10530-019-02169-5.

[31] Anderson L.G., White P.C.L., Stebbing P.D., Stentiford G.D., Dunn A.M. (2014). Biosecurity and Vector Behaviour: Evaluating the Potential Threat Posed by Anglers and Canoeists as Pathways for the Spread of Invasive Non-Native Species and Pathogens.PLoSONE9(4):e92788.doi:10.1371/journal.pone.0092788

[32] Manchester, S.J., & Bullock, J.M. (2000). The impacts of non-native species on UK biodiversity and the effectiveness of control. *Journal of Applied Ecology, 37*, 845-864

[33] Yang, F., Zhao, C., Wang, J., Liu, C., Sun, Y., Soomro, S., Hu, C. (2022). Grid-quantification study on the effect of rapid urbanization on hydrological processes. Water Supply; 22 (6): 5853–5872. doi: https://doi.org/10.2166/ws.2022.202

[34] Anim, D. O., Fletcher, T. D., Vietz, G. J., Pasternack, G. B., & Burns, M. J. (2018). Effect of urbanization on stream hydraulics. *River Research and Applications*, *34*(7), 661-674

[35] Sheldon, F., Leigh, C., Neilan, W., Newham, M., Polson, C., Hadwen, W. Urbanization: Hydrology, Water Quality, and Influences on Ecosystem Health, Golygydd(ion): Ashok K. Sharma, Ted Gardner, Don Begbie, Approaches to Water Sensitive Urban

afonydd, gan effeithio'n arbennig ar lif isel a chanolig, gyda chynnydd o 1% yn y tir trefol a orchuddir, sy'n cyfateb i gynnydd o 1.9% yn y llif isel a ryddheir [36]. Ar ben hynny, mae rhyddhau dŵr gwastraff o weithfeydd trin carthffosiaeth yn gwaethygu'r llif isel, ond hefyd yn cynyddu amlder yr achosion o lif canolig ac uchel [37], swm y dŵr ffo a'r llif brig, gan ddiraddio ansawdd dŵr yn sgîl cludo llygryddion[38]. Ar ben hynny, gall datblygiadau tai newydd waethygu lefel y nitradau sy'n treiddio i ddŵr daear, yn enwedig pan fydd gwaith adeiladu'n aflonyddu ar y pridd ac yn newid defnydd tir [39]. Gall datblygiadau newydd gael effaith sylweddol hefyd ar ansawdd dŵr afonydd, gydag effeithiau ar orlif carthffosydd cyfunedig, carthffrydiau gweithfeydd trin, a'r dyfrgyrff sy'n eu derbyn [40].

Design, Woodhead Publishing (2019). Pages 229-248, ISBN 9780128128435. https://doi.org/10.1016/B978-0-12-812843-5.00011-3

[36] Han, S., Slater, L., Wilby, R. L., & Faulkner, D. (2022). Contribution of urbanisation to non-stationary river flow in the UK. *Journal of Hydrology*, *613*, 128417

[37] Gemma Coxon et al 2024 Environ. Res. Lett. **19** 084016. **DOI** 10.1088/1748-9326/ad5bf2

[38] Liu, A., Goonetilleke, A., Egodawatta, P. (2015). Urbanisation and Stormwater Quality. 1-14. doi: 10.1007/978-981-287-459-7_1

[39] Wakida, F. T., Lerner, D. N. (2006). Potential nitrate leaching to groundwater from house building. Hydrological Processes, 20(9):2077-2081. doi: 10.1002/HYP.6143

[40] Fu, G., Butler, D., Khu, S. (2009). The impact of new developments on river water quality from an integrated system modelling perspective. *Science of The Total Environment*, 407, 4, 1257-1267. ISSN 0048-9697, https://doi.org/10.1016/j.scitotenv.2008.10.033

# 7. Sgrinio'r Effeithiau Sylweddol Tebygol

## 7.1 Nodi Effeithiau Sylweddol Tebygol

7.1.1 Dosbarthir Effeithiau Sylweddol Tebygol (LSE) fel rhai a allai effeithio ar integriti nodweddion cymhwyso'r Safleoedd Ewropeaidd, ar eu pennau eu hunain neu o'u cyfuno â phrosiectau a chynlluniau eraill, yn wyneb eu hamcanion cadwraeth. Nodwyd llwybrau effaith posibl a allai arwain at LSE ar un neu fwy o Safleoedd Ewropeaidd trwy adolygu manylion a chynlluniau rheoli pob safle Ewropeaidd er mwyn nodi'r pwysau a'r bygythiadau penodol i'r safle yng nghyswllt y nodweddion cymhwyso, ac asesu yn erbyn y gweithgareddau posibl sy'n gysylltiedig â'r Polisïau Strategol a gynigir, fel y manylir yn **Adrannau 4** a **6**.

## 7.2 Effeithiau Sylweddol Tebygol Polisïau'r Cynllun

7.2.1 Gan fod y Cynllun hwn yn cynnwys 18 o Bolisïau Strategol (neu Opsiynau), cafodd pob Polisi Strategol ei ystyried ar gyfer asesu pellach. Mae **Tabl 7-1** isod yn amlinellu'r manylion o ran asesu a ragwelir y bydd y Polisi Strategol yn arwain at LSE ar Safleoedd Ewropeaidd ar sail y categorïau y manylir arnynt yn **Adran 2.5** uchod, gan y byddai'r rheiny'n destun sgrinio ychwanegol ar gyfer LSE.

7.2.2 Yn achos tri o'r Polisïau Strategol a gynigiwyd ar gyfer y CDLlA (PS1, PS4 a PS5), mae modd dweud na fydd LSE ar y sail eu bod yn ddatganiadau cyffredinol, a chofnodi na fyddant yn debygol o gael effaith sylweddol ar Safle Ewropeaidd, yn unol â chanllawiau ARhC DTA. O ganlyniad, nid oes gofyn cyflwyno'r Polisïau Strategol hyn ar gyfer asesiad pellach.

7.2.3 Yn achos tri o'r Polisïau Strategol a gynigiwyd ar gyfer y CDLlA (PS2, PS13 a PS14), mae modd dweud na fydd LSE ar y sail bod y polisïau wedi'u llunio fel cyfres o feini prawf ar gyfer profi derbynoldeb a/neu gynaliadwyedd cynigion yn unol â chanllawiau ARhC DTA. O ganlyniad, nid oes gofyn cyflwyno'r Polisïau Strategol hyn ar gyfer asesiad pellach.

7.2.4 Mae modd nodi nad oes angen asesiad pellach yn achos Chwe Pholisi Strategol (PS3, PS12, PS15, PS16, PS17 a PS18) ar y sail bod y polisïau yn rhai cyffredinol ar gyfer amddiffyn yr amgylchedd ar draws y cynllun, gyda'r bwriad o warchod yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth, neu gadw neu wella'r amgylchedd naturiol, adeiledig neu hanesyddol lle na fydd mesurau gwella yn debygol o achosi LSE, ac o ganlyniad nid ydynt yn cael eu cyflwyno ar gyfer asesiad pellach.

7.2.5 Mae pump o'r Polisïau Strategol yn sbardunau posibl ar gyfer effeithiau niweidiol ar Safleoedd Ewropeaidd oherwydd eu bod yn hybu newid ac yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer cyflawni'r Cynllun. Y polisïau hynny yw:

- PS6 Ardaloedd Strategaeth;
- PS8 Tai;
- PS9 Canolfannau Masnachol a Manwerthu;
- PS10 Twristiaeth; a
- PS11 Adferiad Economaidd

**Tabl 7-1. Crynodeb o'r asesiad o Effaith Sylweddol Debygol (LSE) pob Polisi Strategol a amlinellwyd yn CDLIA CNPT ar sail categorïau sgrinio llawlyfr ARhC DTA (gweler Tabl 2-1).**

| Polisi Strategol (PS) | Manylion y polisi | Canlyniad sgrinio |
|---|---|---|
| PS1 Creu Lleoedd Strategol | Bydd gofyn bod cynigion datblygu yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i leoedd cynaliadwy. Bydd cynaliadwyedd cymunedau yn cael ei wella, bydd manteision yr economi twf gwyrdd[1] yn cael eu dosbarthu, a diogelir yr amgylchedd naturiol trwy weithredu strategaethau twf a gofodol y CDLlA. Cyflawnir hynny trwy'r canlynol:<br><br>1. Mesurau dylunio, addasu a lliniaru priodol fydd yn helpu i ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd;<br>2. Darparu ar gyfer cydbwysedd priodol o gartrefi a swyddi;<br>3. Cyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy yn unol â'r strategaeth ofodol, yr hierarchaeth aneddiadau a therfynau diffiniedig aneddiadau er mwyn hybu iechyd a llesiant;<br>4. Creu lleoedd cynhwysol, diogel a chroesawgar, gan sicrhau cyfuniad priodol o dai fydd yn helpu i gefnogi anghenion tai yr Awdurdod a chefnogi creu cymunedau bywiog, amrywiol;<br>5. Cyfyngu ar yr angen am deithio, gan ddefnyddio a blaenoriaethu cysylltiadau teithio cynaliadwy, rhwydweithiau teithio llesol ac opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus sydd wedi'u cysylltu'n dda, yn hygyrch, ac yn lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat;<br>6. Hybu defnydd effeithlon o dir ac adnoddau;<br>7. Gwneud defnydd effeithlon o seilwaith presennol a lle bo angen, darparu ar gyfer seilwaith newydd, gwell sy'n briodol ar gyfer graddfa, math a lleoliad datblygiadau arfaethedig trwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio;<br>8. Dull gweithredu seiliedig ar Seilwaith Gwyrdd a budd net o ran bioamrywiaeth;<br>9. Dynodi a diogelu Lletemau Glas;<br>10. Hyrwyddo a diogelu ein treftadaeth adeiledig a naturiol, nodweddion unigryw a chymeriad lleoedd sydd eisoes yn bodoli, diwylliant a'r iaith Gymraeg. | Ni fydd Polisi PS1 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae hwn yn bolisi lefel uchel sy'n gofyn bod pob cynnig datblygu yn glynu wrth Egwyddorion Creu Lleoedd, gan sicrhau dylunio cynaliadwy o safon uchel, iechyd a llesiant, seilwaith gwyrdd, dwysedd datblygu a ffactorau eraill.<br><br>Dull eang o ymdrin â chanllawiau cynllunio ar ddatblygu cynaliadwy, ond nid yw'n arwain yn uniongyrchol at ddatblygu.<br><br>Ni nodir niferoedd na lleoliadau datblygiadau preswyl/cyflogaeth.<br><br>At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS1 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio A o'r canllawiau ARhC DTA. |
| PS2 Newid yn yr Hinsawdd | Bydd gofyn bod cynigion datblygu yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at liniaru, addasu a meithrin gwydnwch yn wyneb effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.<br>Dylai cynigion gymryd i ystyriaeth yr angen am y canlynol: | Ni fydd Polisi PS2 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd. |

| | | |
|---|---|---|
| | 1. Cael eu dylunio mewn modd sy'n ymgorffori mesurau effeithlonrwydd ynni, yn lleiafu defnydd o ynni, yn annog cadwraeth ynni ac yn cyfrannu at gyflawni targedau carbon isel/sero net;<br>2. Sicrhau defnydd cynaliadwy, effeithlon o ynni ac adnoddau fel tir, dŵr a mwynau;<br>3. Hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy, lle bo hynny'n briodol;<br>4. Cael eu lleoli mewn mannau priodol, cynaliadwy, sy'n cael eu cefnogi â dylunio da, cysylltedd digidol a chyfleoedd teithio cynaliadwy;<br>5. Osgoi datblygu mewn ardaloedd lle nodir bod perygl llifogydd neu lle mae hynny'n cynyddu perygl llifogydd ac erydiad arfordirol;<br>6. Mabwysiadu arferion adeiladu cynaliadwy;<br>7. Mwyafu cyfleoedd Seilwaith Gwyrdd (ac atebion seiliedig ar fyd natur) a helpu bywyd gwyllt a chynefinoedd i addasu i'r hinsawdd newidiol;<br>8. Diogelu a gwella'r holl asedau amgylcheddol sy'n ofynnol er mwyn addasu i'r hinsawdd a datblygu gwydnwch yn y cyswllt hwn. | Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â heriau'r newid yn yr hinsawdd. Ymhlith pethau eraill, bydd gofyn bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio, yn hybu egwyddorion economi gylchol, ac yn mwyafu effeithlonrwydd adnoddau.<br><br>Gallai rhai o'r dulliau a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd fod yn fuddiol i Safleoedd Ewropeaidd, gan gynnwys mwyafu effeithlonrwydd dŵr a lleiafu effeithiau ansawdd dŵr.<br><br>Nid yw'r polisi yn dyrannu symiau na lleoliadau datblygiadau preswyl a chyflogaeth.<br><br>At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS2 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio B o ganllawiau ARhC DTA. |
| PS3 Argyfwng Byd Natur, Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol | Bydd disgwyl i gynigion datblygu roi sylw i argyfwng byd natur trwy gyflawni budd net i fioamrywiaeth a gwella gwydnwch ecosystemau.<br>Bydd gofyn bod cynigion datblygu yn dangos:<br><br>1. Sut cyflawnir budd net cyffredinol i fioamrywiaeth trwy roi'r cynnig ar waith;<br>2. Y bydd yr holl rywogaethau gwarchodedig a chynefinoedd dynodedig a nodir sy'n bresennol yn cael eu diogelu a'u cadw yn unol â'r gofynion statudol;<br>3. Y bydd integriti safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol ar gyfer cadwraeth natur yn cael eu diogelu, gan gyfeirio datblygiadau oddi wrth safleoedd o'r fath lle bo modd; ac<br>4. Y bydd safleoedd eraill heb eu dynodi neu nodweddion sy'n gwella integriti a chysylltedd rhwydweithiau seilwaith gwyrdd ac ecolegol yn cael eu diogelu a'u gwella. | Ni fydd Polisi PS3 yn achosi unrhyw LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae'r polisi hwn yn amlinellu nodau lefel uchel i amddiffyn, gwella a lliniaru o safbwynt bioamrywiaeth ar draws ardal y cynllun.<br><br>Ni chyflwynir symiau na lleoliadau datblygiadau preswyl / cyflogaeth.<br><br>At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS5 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio D o ganllawiau ARhC DTA. |

| Polisi Strategol (PS) | Manylion y polisi | Canlyniad sgrinio |
|---|---|---|
| PS4 Iechyd | Dylai cynigion datblygu wneud cyfraniadau cadarnhaol i iechyd a llesiant cymunedau, gan gynnwys lleihau anghydraddoldeb iechyd trwy'r canlynol:<br>1. Datblygu a gwella cymunedau cynaliadwy, diogel a chydlynus trwy ddarparu gwasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth yn lleol;<br>2. Lleihau cysylltiad pobl ag effeithiau amgylcheddol niweidiol ar eu hiechyd trwy wella amgylcheddau lleol a rhoi sylw i bob math o lygredd, lle bo modd;<br>3. Bydd gwella hygyrchedd o fewn a rhwng cymunedau yn annog ffyrdd iachach a mwy actif o fyw trwy wella'r amgylchedd adeiledig a ffisegol, gan gynnwys cynnal a/neu wella cwmpas, ansawdd a chysylltedd y canlynol:<br>A. Rhwydwaith Teithio Llesol;<br>B. Rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd;<br>C. Mannau adloniant; a<br>D. Darparu tai ynni effeithlon, o safon dda. | Ni fydd Polisi PS4 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae hwn yn bolisi sy'n ymwneud â iechyd a llesiant cymunedau, a chreu tai ynni-effeithlon o safon dda.<br><br>Ni phennwyd nifer na lleoliad datblygiadau preswyl/cyflogaeth.<br><br>At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS4 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio A o ganllawiau ARhC DTA. |
| PS5 Creu Lleoedd ar Waith | Mae creu lleoedd yn ceisio sicrhau cyfuniad priodol o ddefnyddiau i gynnal creu cymunedau hyfyw, cynaliadwy.<br>Rhaid i gynigion datblygu ddangos sut maent yn:<br>1. Ymateb yn gadarnhaol i nodweddion a chyfleoedd unigryw y cyd-destun lleol trwy sicrhau dylunio cynhwysol o safon uchel, gan gymryd i ystyriaeth egwyddorion diogel trwy ddyluniad er mwyn lleihau troseddu ac ofn trosedd;<br>2. Ymgorffori Seilwaith Gwyrdd;<br>3. Ceisio cadw a diogelu mannau hamdden a chyfleusterau cymunedol sydd eisoes yn bodoli, a datblygu rhai newydd;<br>4. Sicrhau bod gan leoedd fynediad at opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy;<br>5. Diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a'r dreftadaeth ieithyddol;<br>6. Diogelu, cadw a gwella'r dreftadaeth adeiledig, diwylliant a'r amgylchedd naturiol;<br>7. Diogelu'r prif byrth mynediad; a<br>8. Chyflwyno lefel briodol o seilwaith ategol. | Ni fydd Polisi PS5 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae hwn yn bolisi lefel uchel sy'n gofyn bod pob cynnig datblygu yn glynu at Egwyddorion Creu Lleoedd, o ran dylunio cynaliadwy o safon uchel, iechyd a llesiant, seilwaith gwyrdd, dwysedd datblygu a ffactorau eraill, gyda'r manylion i'w darparu mewn polisïau rheoli datblygu dilynol.<br><br>Ni chyflwynir nifer na lleoliad ar gyfer datblygiadau preswyl/cyflogaeth.<br><br>At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS5 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio A o ganllawiau ARhC DTA. |

| Polisi Strategol (PS) | Manylion y polisi | Canlyniad sgrinio |
|---|---|---|
| PS6 Ardaloedd Strategaeth | Nodir dwy Ardal Strategaeth yn CNPT (ac fe'u gwelir ar y Diagram Allweddol): Coridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol (CCNGA) ac Ardal Cyfle'r Cymoedd (VOA).<br>Lleolir y rhan fwyaf o boblogaeth, cyflogaeth, gwasanaethau allweddol a chyfleusterau'r Fwrdeistref Sirol yn y CCNGA, a dyna lle cyfeirir y rhan fwyaf o ddatblygu.<br>Yn y CCNGA, mae'r strategaeth yn:<br>1. Gwneud yn fawr o dwf cyflogaeth o amgylch y Porthladd Rhydd, y Porthladd, a Pharc Ynni Baglan er mwyn adeiladu ar ddiddordeb y farchnad ar hyd yr Ardal Dwf Genedlaethol a Gwaith Dur Port Talbot er mwyn helpu gydag adferiad economaidd;<br>2. Nodi safleoedd tai allweddol er mwyn helpu i gyflwyno tai fforddiadwy yn yr ardaloedd lle nodwyd yr angen mwyaf;<br>3. Cydleoli cartrefi a swyddi i leihau cymudo;<br>4. Mwyafu cyfleoedd trafnidiaeth gynaliadwy a chysylltedd yn rhanbarth Bae Abertawe ac yn hybu dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.<br><br>Ardal Cyfle'r Cymoedd (VOA) yw lle caiff y prif gyfleoedd twristiaeth, cyflogaeth a threftadaeth eu hyrwyddo, er mwyn gweithredu fel catalydd ar gyfer gwelliannau tymor hir.<br>O fewn y VOA, mae'r strategaeth yn:<br>1. Nodi cyfleoedd cyflogaeth a thwristiaeth allweddol, fel Canolfan Antur Cwm Afan a'r Ganolfan Rhagoriaeth Rheilffyrdd Ranbarthol;<br>2. Mwyafu lleoliadau twristiaeth a threftadaeth sydd eisoes yn bodoli fel Parc Beicio Afan, Gwlad y Sgydau a Dyffryn Treftadaeth Castell-nedd;<br>3. Nodi Pontardawe a'r ardal o amgylch a Glyn-nedd fel hybiau twf;<br>4. Cydnabod y bydd twf tai yn gymedrol, ac yn gymesur â maint, rôl a swyddogaeth aneddiadau presennol;<br>5. Annog twristiaeth a mentrau ar raddfa lai trwy'r strategaeth gyflogaeth i fwyafu'r cyfleoedd cyflogaeth posibl er mwyn diwallu anghenion y gymuned leol;<br>6. Darparu cyfleoedd i gynhyrchu Ynni Adnewyddadwy; a<br>7. Chefnogi darparu seilwaith band eang o safon uchel. | Nid oes modd dweud na fydd Polisi PS6 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae PS6 yn hybu adferiad economaidd, lleoliad strategol tai a swyddi, seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a darparu seilwaith band eang.<br><br>Gellid dweud bod Polisi PS6 yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**At ei gilydd, oherwydd ei botensial i gael effaith, caiff Polisi PS6 ei sgrinio i mewn ar gyfer AP, yn unol â chategori sgrinio I o ganllawiau ARhC DTA.** |

| Polisi Strategol (PS) | Manylion y polisi | Canlyniad sgrinio |
|---|---|---|
| PS7 Trafnidiaeth Gynaliadwy | Rhaid i ddatblygu gyd-fynd â'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a chael ei gefnogi gan seilwaith trafnidiaeth priodol. Bydd angen i gynigion wneud y canlynol:<br>1. Galluogi cyfleoedd i wella'r rhwydwaith teithio llesol;<br>2. Diogelu a chefnogi cyfleoedd i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus;<br>3. Darparu lefel briodol o ddarpariaeth barcio ar gyfer ystod o anghenion parcio, yn cynnwys seilwaith sy'n darparu ar gyfer datblygiadau technolegol yn y dyfodol megis pwyntiau gwefru i gerbydau allyriadau isel a/neu drydan;<br>4. Sicrhau bod dewisiadau heblaw cludo nwyddau ar y ffordd yn cael eu gwarchod a/neu eu gwella trwy ddiogelu darpariaethau Porthladd, Harbwr, Dociau, Afonydd a Rheilffyrdd. | Ni fydd Polisi PS7 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae'r polisi hwn yn cyflwyno egwyddorion cyffredinol ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy ac yn cynnwys meini prawf ansoddol.<br><br>I bob pwrpas, mae hwn yn bolisi cadarnhaol ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd sy'n sensitif i lygredd atmosfferig, gan ei fod yn ceisio lleihau swm y traffig sy'n gymudwyr mewn ceir.<br><br>At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS7 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio D o ganllawiau ARhC DTA. |
| PS8 Tai | Rhoddir sylw i ystod o anghenion llety trwy'r mesurau canlynol:<br>1. Nodi bod Galw am Dai:<br>Cyflawnir anghenion tai y strategaeth adferiad economaidd, sef 3,480 o anheddau, trwy ddarparu 4,176 o anheddau rhwng 2023 a 2038, gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 20%.<br>2. Nodi Targed Tai Fforddiadwy:<br>Cyflwyno cartrefi fforddiadwy trwy wneud y canlynol:<br>i. Pennu trothwyon a thargedau sy'n gofyn bod datblygiadau tai yn cyfrannu at ddarpariaeth tai fforddiadwy; a<br>ii. Darparu fframwaith ar gyfer ystyried cynigion am safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy<br>3. Diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr trwy wneud y canlynol:<br>Dyrannu safle(oedd); a<br>Darparu fframwaith ar gyfer ystyried cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. | Nid oes modd dweud na fydd Polisi PS8 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae PS8 yn cyflwyno'r datblygu sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion yn awr ac yn y dyfodol.<br><br>Gellid dweud bod Polisi PS8 yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**At ei gilydd, oherwydd ei botensial i gael effaith, caiff Polisi PS8 ei sgrinio i mewn ar gyfer AP, yn unol â chategori sgrinio I o ganllawiau ARhC DTA.** |

| Polisi Strategol (PS) | Manylion y polisi | Canlyniad sgrinio |
|---|---|---|
| PS9 Canolfannau Masnachol a Manwerthu | Cefnogir hyfywedd, dichonoldeb ac atyniad canolfannau masnachol a manwerthu trwy wneud y canlynol:<br>1. Nodi hierarchaeth fanwerthu a masnachol lle bydd defnyddiau manwerthu a defnyddiau cydnaws priodol yn cael eu diogelu a'u hannog;<br>2. Sicrhau bod cynigion datblygu yn cyd-fynd â'r rôl a ddiffiniwyd ar gyfer pob canolfan yn yr hierarchaeth fanwerthu a masnachol; a<br>3. Rheoli defnyddiau amhriodol newydd o ganolfannau masnachol a/neu fanwerthu, y tu allan i'r hierarchaeth fanwerthu a masnachol a nodwyd. | Nid oes modd dweud na fydd Polisi PS9 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae PS9 yn nodi sut bydd y cyngor yn cadw ac yn darparu cyfleusterau cymunedol, cyflogaeth, manwerthu a hamdden ar draws y fwrdeistref sirol.<br><br>Gellid dweud bod Polisi PS9 yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**At ei gilydd, oherwydd ei botensial i gael effaith, caiff Polisi PS9 ei sgrinio i mewn ar gyfer AP, yn unol â chategori sgrinio I o ganllawiau ARhC DTA.** |
| PS10 Twristiaeth | Gall twristiaeth fod yn gatalydd ar gyfer adfywio, a bydd cynigion datblygu sy'n ymwneud â'r economi ymwelwyr yn cael eu cefnogi trwy'r canlynol:<br>1. Annog datblygiad twristiaeth gynaliadwy o safon uchel sy'n cyfrannu at amrywiaeth ac ansawdd llety ac atyniadau; Cefnogi cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o ddatblygiadau twristiaeth nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, na threftadaeth diwylliannol a ieithyddol;<br>2. Cefnogi datblygiadau sydd mewn lleoliad priodol mewn perthynas â'u defnydd arfaethedig o ran twristiaeth; a<br>3. Gwrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth. | Nid oes modd dweud na fydd Polisi PS10 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae PS10 yn cyflwyno'r egwyddorion y dylai datblygiadau twristiaeth fod yn y lleoliad priodol.<br><br>Gellid dweud bod Polisi PS10 yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**At ei gilydd, oherwydd ei botensial i gael effaith, caiff Polisi PS10 ei sgrinio i mewn ar gyfer AP, yn unol â chategori sgrinio L o ganllawiau ARhC DTA.** |

| Polisi Strategol (PS) | Manylion y polisi | Canlyniad Sgrinio |
|---|---|---|
| PS11 Adferiad Economaidd | Cefnogir adferiad economaidd trwy wneud y canlynol:<br>1. Dyrannu 57 Hectar (ha) o dir cyflogaeth;<br>2. Diogelu ardaloedd cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli;<br>3. Gwrthsefyll colli defnyddiau cyflogaeth o fewn a'r tu allan i'r ardaloedd dynodedig;<br>4. Meithrin datblygiad cyfleoedd economaidd allweddol, gan gynnwys y Porthladd Rhydd Celtaidd;<br>5. Hwyluso cyfleoedd newydd sy'n codi o ddatgarboneiddio diwydiannol, gan gynnwys twf yn yr economi werdd;<br>6. Cofleidio cyfleoedd adfywio gwledig, ac ymdrin yn hyblyg â chyfleoedd cyflogaeth yn y Cymoedd; a<br>7. Chefnogi cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau sy'n cyd-fynd â nhw, gan gynnwys hybiau hyfforddiant a gweithio. | Nid oes modd dweud na fydd Polisi PS11 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae PS11 yn cyflwyno'r ddarpariaeth ar gyfer 57 hectar o dir cyflogaeth. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r angen am adferiad economaidd trwy gefnogi cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau ategol, gan gynnwys hybiau hyfforddiant a gweithio, ar sail yr egwyddor bod datblygu twristiaeth yn digwydd mewn lleoliadau priodol.<br><br>Gellid dweud bod Polisi PS11 yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**At ei gilydd, oherwydd ei botensial i gael effaith, caiff Polisi PS11 ei sgrinio i mewn ar gyfer AP, yn unol â chategori sgrinio I o ganllawiau ARhC DTA.** |
| PS12 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | Bydd cyfleoedd ar gyfer datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a seilwaith cysylltiedig yn cael eu cefnogi lle bo hynny'n briodol. Cyflawnir hynny drwy'r canlynol:<br>1 Gwneud cyfraniad cymesur at gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol a thargedau effeithlonrwydd ynni;<br>2 Pennu targedau cynhyrchu ynni adnewyddadwy, polisïau seiliedig ar feini prawf, ardaloedd chwilio lleol a/neu ddyraniadau ar gyfer y Fwrdeistref Sirol;<br>3 Hyrwyddo optimeiddio opsiynau cyflenwi a dosbarthu ynni adnewyddadwy a charbon isel ar gyfer cymunedau lleol;<br>4 Sicrhau na fydd datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar amgylchedd ac amwynder trigolion lleol, a'i fod yn cymryd i ystyriaeth unrhyw effeithiau cronnol. | Ni fydd Polisi PS12 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Er bod y polisi hwn yn amlinellu datblygiad cyfleoedd a seilwaith cysylltiedig, mae'n pennu na fydd y datblygiad yn cael effaith ar yr amgylchedd, gan gymryd effeithiau cronnol i ystyriaeth.<br><br>Ni chyflwynir nifer na lleoliad ar gyfer datblygiadau preswyl/cyflogaeth.<br><br>At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS12 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio D o ganllawiau ARhC DTA. |
| **Polisi Strategol (PS)** | **Manylion y polisi** | **Canlyniad sgrinio** |

| | | |
|---|---|---|
| PS13 Mwynau | Cyflawnir cyfraniad cymesur at ymateb i'r galw cenedlaethol, rhanbarthol a lleol am gyflenwad parhaus o fwynau trwy wneud y canlynol:<br>1. Cynnal cyflenwad priodol o agregau ar hyd cyfnod y Cynllun;<br>2. Diogelu adnoddau cerrig caled a thywod a gro mân a nodwyd;<br>3. Cyfyngu cymaint â phosibl ar y gwrthdaro rhwng defnyddiau tir sensitif a gweithrediadau mwynau trwy nodi parthau clustogi o amgylch safleoedd mwynau;<br>4. Hybu defnydd effeithlon o agregau ac annog cymaint o ddefnydd â phosibl o ddeunyddiau amgen cyn troi at agregau crai;<br>5. Sicrhau na fydd datblygiadau mwynau yn cael effaith annerbyniol ar yr amgylchedd ac amwynder trigolion lleol.<br>1. | Ni fydd Polisi PS13 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae'r polisi hwn yn darparu egwyddorion lefel uchel ynghylch rheoli adnoddau mwynau yn gynaliadwy, a gallai olygu bod angen darparu cyfleusterau trin, ailgylchu a gwaredu gwastraff.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r polisi yn dyrannu unrhyw gynigion mwynau penodol y byddai gofyn eu hasesu.<br>At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS13 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio B o ganllawiau ARhC DTA. |
| PS14 Rheoli Gwastrafff yn Gynaliadwy | Hwylusir rheoli gwastraff yn gynaliadwy trwy wneud y canlynol:<br>1. Hyrwyddo a chefnogi cyfleusterau, mesurau a strategaethau ychwanegol ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy, yn unol â'r hierarchaeth wastraff ac egwyddorion y gosodiad agosaf priodol a hunan-ddigonolrwydd.<br>2. Cefnogi'r economi gylchol trwy annog cynhyrchu cyn lleied â phosibl o wastraff a defnydd deunyddiau eildro ac wedi'u hailgylchu yng nghyfnodau dylunio, adeiladu a dymchwel datblygiadau.<br>3. Sicrhau bod darpariaeth ym mhob datblygiad newydd ar gyfer rheoli, didoli, storio a chasglu gwastraff yn gynaliadwy. | Ni fydd Polisi PS14 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae'r polisi hwn yn amlinellu egwyddorion lefel uchel mewn perthynas â rheoli gwastraff yn gynaliadwy, gan gynnwys hybu a chefnogi cyfleusterau ychwanegol ar gyfer gwneud hynny.<br><br>Er y nodir lleoliadau a allai fod yn addas ar gyfer rheoli gwastraff mewn adeiladau, ni chânt eu dyrannu'n ffurfiol.<br><br>Nid yw'r polisi'n dyrannu symiau na lleoliadau ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. |

| Polisi Strategol (PS) | Manylion y polisi | Canlyniad sgrinio |
|---|---|---|
| | | At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS14 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio B o ganllawiau ARhC DTA. |
| PS15 Yr Amgylchedd Hanesyddol | Bydd yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys trefluniau, adeiladau pwysig ac asedau treftadaeth a'u cyd-destunau yn cael eu cadw a'u gwella trwy'r mesurau canlynol:<br>1. Sicrhau bod cynigion yn hybu dylunio o safon uchel a chreu lleoedd sy'n parchu cymeriad lleol, diwylliant a nodweddion hanesyddol yr ardal, gan gymryd i ystyriaeth asedau treftadaeth;<br>2. Diogelu nodweddion sy'n bwysig yn hanesyddol, yn bensaernïol ac yn ddiwylliannol;<br>3. Nodi'r safleoedd a'r ardaloedd dynodedig canlynol, fel bod modd eu gwarchod, a'u gwella lle bo hynny'n briodol:<br>a. Asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig (Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol);<br>b. Ardaloedd Cadwraeth; a'r<br>c. Rhwydwaith camlesi a'i strwythurau. | Ni fydd Polisi PS15 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae'r polisi hwn yn amlinellu mesurau cadwraeth a gwella ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn lleol. Rhagwelir y bydd y polisi hwn yn cael effaith net gadarnhaol ar asedau hanesyddol, ardaloedd cadwraeth a'r rhwydwaith camlesi a'i strwythurau. At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS15 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio D o ganllawiau ARhC DTA. |
| PS16 Seilwaith gwyrdd | Bydd gofyn bod cynigion datblygu yn creu, yn diogelu ac yn gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd, ac yn mwyafu ei ymarferoldeb. Rhaid i gynigion datblygu wneud y canlynol:<br>1. Ymgorffori ardaloedd seilwaith gwyrdd arwyddocaol sydd eisoes yn bodoli yn nyluniad cyffredinol y datblygiad, gan fanteisio ar gyfleoedd a ddaw yn sgîl asedau presennol a phosibl, gan ddilyn egwyddorion creu lleoedd;<br>2. Mwyafu'r cysylltedd rhwng asedau seilwaith gwyrdd ac atynt; a<br>3. Chreu seilwaith gwyrdd newydd a defnyddio atebion seiliedig ar fyd natur lle bynnag y bo modd. | Ni fydd Polisi PS16 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae'r polisi hwn yn amlinellu creu, diogelu a gwella seilwaith gwyrdd yn lleol. Rhagwelir y bydd y polisi hwn yn cael effaith net gadarnhaol ar fioamrywiaeth.<br><br>At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS16 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio D o ganllawiau ARhC DTA. |
| PS17 Cefn Gwlad, Tirluniau a'r Arfordir heb ei Ddatblygu | Bydd cefn gwlad a'r arfordir sydd heb ei ddatblygu, gan gynnwys tirluniau, morluniau a geoamrywiaeth, yn cael eu diogelu, a lle bo hynny'n ymarferol, eu gwella trwy'r mesurau canlynol:<br>1. Diogelu cefn gwlad agored y tu allan i derfynau aneddiadau trwy reoli datblygu amhriodol a fyddai'n cael effaith niweidiol ar ei gymeriad gwledig, gwerth ecolegol, tirlun, diwylliannol neu amaethyddol, neu adnoddau naturiol;<br>2. Diogelu'r arfordir sydd heb ei ddatblygu a morluniau trwy reoli datblygu amhriodol ar yr arfordir;<br>3. Amddiffyn nodweddion, priodweddau a rhinweddau pwysig tirluniau | Ni fydd Polisi PS17 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Mae'r polisi hwn yn amlinellu nodau lefel uchel er mwyn diogelu a gwella cynefinoedd/ardaloedd mewn perthynas â chefn gwlad a thirluniau arfordirol sydd heb eu datblygu.<br><br>At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS17 ei sgrinio allan |

| | | |
|---|---|---|
| | a morluniau;<br>4. Dynodi a diogelu Ardaloedd Tirlun Arbennig; a<br>5. Nodi a diogelu ardaloedd sydd â phwysigrwydd geoamrywiaeth. | o'r AP yn unol â chategori sgrinio D o ganllawiau ARhC DTA. |
| **Polisi Strategol (PS)** | **Manylion y polisi** | **Canlyniad sgrinio** |
| PS18 Amddiffyn yr Amgylchedd | Caiff ansawdd yr amgylchedd ei ddiogelu a'i wella, a rhoddir sylw i effeithiau niweidiol posibl problemau amgylcheddol presennol neu rai a ragwelir (gan gynnwys dull gweithredu sy'n dileu risgiau) mewn perthynas â'r canlynol:<br>1. Ansawdd aer;<br>2. Halogiad tir, ansefydlogrwydd tir a rhywogaethau anfrodorol ymledol;<br>3. Perygl llifogydd ac erydiad arfordirol;<br>4. Goleuo;<br>5. Sainluniau;<br>6. Ansawdd dŵr; ac<br>7. Argaeledd adnoddau dŵr. | Ni fydd Polisi PS18 yn achosi LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Polisi ansoddol yw hwn, gyda'r nod o gynyddu gwydnwch yn wyneb materion amgylcheddol a newidiadau i'r dyfodol. Gallai'r polisi arwain at ddatblygu er mwyn gwrthweithio materion amgylcheddol megis perygl llifogydd ac erydu arfordirol; fodd bynnag, dylai'r polisi gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.<br><br>At ei gilydd, felly, caiff Polisi PS18 ei sgrinio allan o'r AP yn unol â chategori sgrinio D o ganllawiau ARhC DTA. |

## 7.3 Effeithiau Sylweddol Tebygol y Llwybrau Effaith

**Manylion y Llwybrau Effaith mewn Perthynas â Phob Safle Ewropeaidd**

7.3.1 Fel y crynhoir yn **Adran 3** ac y manylir ymhellach yn **Atodiad C** mae Ffurflenni Data Safonol Natura 2000 wedi nodi nifer o fygythiadau, ffactorau pwysau ac amcanion cadwraeth sy'n berthnasol i bob un o'r Safleoedd Ewropeaidd a'r Nodweddion Cymhwyso cysylltiedig. Er bod nifer o fygythiadau/ffactorau pwysau yn amherthnasol i'r Cynllun (h.y. maent yn waith neu'n weithgareddau sydd naill ai'n gysylltiedig â'r Safle Ewropeaidd ei hun a/neu wedi'u lleoli o'i fewn neu'n union yn ei ymyl, megis pori, trin y tir, rheoli coedwig a phrosesau naturiol abiotig), manylir ar y gweithgareddau hynny y gellid sôn amdanynt yn rhesymol yng nghyd-destun y Cynllun yn **Adran 6** uchod.

7.3.2 Bu'r Safleoedd Ewropeaidd yn destun asesu pellach i ganfod a allai llwybrau effaith y Cynllun, a nodwyd yn **Adran 6**, gael LSE ar eu Nodweddion Cymhwyso, gan gymryd i ystyriaeth y bygythiadau/pwysau a nodwyd a allai godi'n ymarferol, fel y manylwyd uchod.

7.3.3 Yn dilyn dyfarniad *People over Wind* (fel yr amlinellwyd yn **Adran 2**), dim ond mesurau lliniaru sy'n rhan annatod o'r Cynllun, a heb fod yn ymwneud yn benodol â lliniaru ecolegol, sy'n cael eu hystyried yn y cyfnod sgrinio. Ni chaiff unrhyw effeithiau lle mae angen lliniaru ecolegol penodol eu hystyried yn y cyfnod yma, hyd yn oed os yw'r dull lliniaru a gynigir yn hysbys ac wedi'i nodi.

7.3.4 Cyflwynir yr asesiad hwn yn **0**, lle caiff pob un o'r safleoedd eu hasesu, ynghyd â'r pwysau hysbys sydd arnynt a llwybrau effaith posibl y Cynllun. Cafodd llwybrau effaith eu hystyried ar eu pen eu hunain ac wedi'u cyfuno â'r prosiectau a'r cynlluniau y manylir arnynt yn **Adran 8**.

7.3.5 Caiff y rhai a allai achosi LSE, neu'r rhai lle na ellir dweud yn bendant na fyddai hynny'n digwydd, sylw pellach yn **Adran 9** o'r AP.

## 7.4 Casgliadau'r Cyfnod Sgrinio

7.4.1 Canfu Cyfnod Sgrinio'r ARhC hwn na ellid dweud na fyddai LSE ar nodweddion o ddiddordeb pedwar Safle Ewropeaidd yng nghyswllt y llwybrau effaith a nodwyd ym Mholisïau Strategol y CDLlA ar eu pen eu hunain, neu wedi'u cyfuno â Phrosiectau neu Gynlluniau eraill. Mae'r Safleoedd Ewropeaidd hynny fel a ganlyn:

- ACA Cynffig
- ACA Cors Crymlyn
- Ramsar Cors Crymlyn
- ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr

7.4.2 O ganlyniad, argymhellir bod y Cynllun hwn yn destun AP er mwyn penderfynu a fyddai effaith niweidiol ar integriti'r Safleoedd Ewropeaidd, yng ngoleuni eu hamcanion cadwraeth, yn achos pum Polisi Strategol (PS6, PS8, PS9, PS10, a PS11) ar eu pennau eu hunain, wedi'u cyfuno (h.y. o ganlyniad i'r Cynllun), a/neu gyda Phrosiectau a Chynlluniau eraill, trwy AP.

7.4.3 Rhagwelir y bydd y dull o ddatblygu'r polisïau uchod ymhellach yn digwydd yn unol â'r strategaeth gyffredinol ar gyfer y CDLlA (h.y. bod safleoedd datblygu wedi'u lleoli bellter o Safleoedd Ewropeaidd ac yn cael eu crynhoi mewn ardaloedd sydd eisoes yn drefol).

7.4.4 Ceir disgrifiad llawn o'r sgrinio yma yn **0**. O fewn yr adran hon cyfeirir at Safleoedd Allweddol a Safleoedd Ymgeisiol, gan roi sylw i'r pellter o bob Safle Ewropeaidd. Barnwyd bod pellter penodol o 5km ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol yn briodol mewn perthynas â llwybrau effaith. Caiff y dull gweithredu hwn ei adolygu yng nghyfnod y Cynllun Adnau.

# 8. Asesiad Cyfunol

8.1.1 O dan Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, ystyrir asesu effeithiau cyfunol y CDLlA a chynlluniau a phrosiectau eraill. Rhoddwyd ystyriaeth, yn y cyfnod hwn o'r ARhC, i gynlluniau eraill perthnasol ar lefel debyg yn strategol, sydd â photensial clir o ran effaith gyfunol ar Safleoedd Ewropeaidd. Os bydd cynlluniau newydd perthnasol yn codi, bydd y rheiny'n cael eu cynnwys yn yr AP yn ôl y galw. Hefyd bydd prosiectau perthnasol yn cael eu cynnwys ar gyfer asesiad cyfunol.

8.1.2 Caiff ceisiadau cynllunio unigol eu hystyried yn yr asesiad cyfunol dim ond lle mae iddynt arwyddocâd cenedlaethol, neu lle maen nhw'n arbennig o helaeth. Er enghraifft, byddai angen i ddatblygiad oedd yn cyflwyno 500 neu fwy o anheddau gael ei ystyried, wrth arfarnu'r effeithiau cronnol o ran pwysau hamdden. Mae'r cynlluniau a restrir isod yn cael eu hystyried a'u hasesu ar hyn o bryd:

**Cynlluniau**

- Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2023 – 2026
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Castell-nedd Port Talbot 2023 – 2028
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2024 – 2027
- Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy Castell-nedd Port Talbot
- Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040
- Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033
- Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin
- Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Pen-y-bont ar Ogwr 2018 – 2033
- Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Rhondda Cynon Taf 2022 – 2037
- Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010 – 2025
- Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2023 – 2038
- Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Powys 2011 – 2026
- Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Powys 2022 – 2037
- Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 – 2026
- Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Bro Morgannwg 2021 – 2036

**Prosiectau**

- Rhaglen y Porthladd Rhydd
- Safle Tirlenwi'r Morfa
- Canolfan Antur Cwm Afan – Canolfannau Wildfox
- Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE)
- TATA Steel UK
- Glofa Aberpergwm
- Parc Pelena
- Mynydd Fforch Dwm
- Fferm Wynt y Bryn
- Fferm Solar Ystâd Penllergaer

- Pwll y Dwyrain
- Rheola
- Fferm Wynt Foel Trawsnant
- Fferm Wynt Hirfynydd
- Purfa Olew Llandarcy gynt, Castell-nedd

8.1.3 **Tabl 8-1.** Crynodeb o’r Cynlluniau a’r Prosiectau (rhif cais cynllunio, fel sy’n briodol) a ystyriwyd yn yr asesiad cyfunol wrth i’r ARhC sgrinio CDLlA CNPT. Mae’r tabl isod yn crynhoi’r manylion ynghylch pob un o’r Cynlluniau a’r Prosiectau y cyfeiriwyd atynt uchod sydd i gael eu hystyried yn yr asesiad cyfunol.

*Tabl 8-1. Crynodeb o'r Cynlluniau a'r Prosiectau (rhif y cais cynllunio, fel sy'n briodol) a ystyriwyd fel rhan o'r asesiad cyfunol wrth i'r ARhC sgrinio CDLlA CNPT*

| Prosiect/Cynllun | Crynodeb o'r Wybodaeth | Llwybrau Effaith Posibl |
|---|---|---|
| Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2023 – 2026 | Mae'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth yn amlinellu'r dreftadaeth naturiol sy'n bodoli yng Nghastell-nedd Port Talbot, pam mae mor arbennig, sut mae dan fygythiad, a pha weithgareddau sydd eisoes ar waith i'w hamddiffyn. Mae hefyd yn cyflwyno'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni, ynghyd â chamau gweithredu manwl i'w cyflawni a cherrig milltir ar gyfer adrodd. | Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu nodau lefel uchel i warchod, gwella a lliniaru o blaid bioamrywiaeth ar draws ardal y cynllun.<br><br>Ni ragwelir LSE o ganlyniad i'r Cynllun hwn, wedi'i gyfuno â CDLlA CNPT. |
| Cynllun Rheoli Cyrchfan Castell-nedd Port Talbot (CRhC) 2023 – 2028 | Mae'r CRhC yn cyflwyno'r glasbrint ar gyfer sut mae'r sir yn bwriadu cynnal, tyfu a rheoli ei heconomi ymwelwyr rhwng 2023 a 2028. Mae'r CRhC yn ddatganiad a rennir o fwriad i ddatblygu twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot er mwyn cyflwyno profiadau neilltuol a thrawsffurfio canfyddiad pobl o'n hardal amrywiol, sy'n wahanol mewn ffordd unigryw. Mae'r CRhC yn cydnabod gwerth economaidd a chymdeithasol twristiaeth, gan fynegi rôl gwahanol randdeiliaid a nodi camau blaenoriaeth sy'n adlewyrchu'r adnoddau. | Mae'r Cynllun hwn yn canolbwyntio ar dwristiaeth a thwf trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau a datblygu. Mae'r prosiectau blaengar yn cynnwys Canolfan Antur Wildfox yng Nghwm Afan (manylion isod), datblygiad Parc Coedwig Afan yn y dyfodol, a Fframwaith Coridor Treftadaeth Bro Nedd.<br><br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**O ganlyniad, ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT.** |
| Cynllun Corfforaethol Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2024 – 2027 | Mae Cynllun Corfforaethol 2024 – 2027, a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 26 Gorffennaf 2024, yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer symud ymlaen ac yn cyflwyno 9 rhaglen drawsffurfio ar draws y pedwar amcan llesiant i'w cyflawni erbyn 2027, ac yn cymryd i ystyriaeth farn pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y sir. Y pedwar amcan llesiant yw:<br>▪ Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;<br>▪ Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy;<br>▪ Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth; a<br>▪ Bod pobl leol yn fedrus ac yn gallu cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon uchel | Mae'r Cynllun yn amlinellu nodau lefel uchel, yn ogystal â nodau penodol sy'n cynnwys gwella cyfleusterau, sicrhau gwasanaethau chwarae a hamdden gwell i blant a phobl ifanc, gwarchod eiddo rhag llifogydd trwy adeiladu amddiffynfeydd newydd a chynnal rhai sydd eisoes yn bodoli; rhoi strategaethau diwylliant, hamdden a threftadaeth ar waith ochr yn ochr â'r CRhC (gweler uchod); codi proffil CNPT fel cyrchfan i ymwelwyr, a sefydlu'r Porthladd Rhydd Celtaidd ar draws CNPT (gweler isod).<br><br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg |

| Prosiect/Cynllun | Crynodeb o'r wybodaeth | Llwybrau Effaith Posibl |
|---|---|---|
| | | ▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT.** |
| Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy Castell-nedd Port Talbot | Strategaeth sy'n ceisio mwyafu manteision economaidd, cymdeithasol, iechyd ac amgylcheddol datgarboneiddio trwy ganolbwyntio ar ynni adnewyddadwy. Mae amcanion y strategaeth yn cynnwys:<br>▪ Lleihau'r allyriadau carbon sy'n deillio o gyflwyno rhaglen waith y cyngor. Gostwng y defnydd o ynni a newid i ffynonellau ynni sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd.<br>▪ Goresgyn rhwystrau i ynni adnewyddadwy ac annog defnydd o adnoddau cynaliadwy ac adnewyddadwy.<br>▪ Rheoli ein hadnoddau naturiol fel bod atafaelu carbon yn cael ei fwyafu, a rhyddhau carbon yn cael ei leiafu.<br>▪ Gweithio gyda phartneriaid a busnes, rhannu arfer da, asedau ac adnoddau.<br>▪ Hyrwyddo manteision ynni glanach a gostwng allyriadau gweithwyr y cyngor a phobl Castell-nedd Port Talbot.<br>▪ Denu cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ac o ffynonellau eraill perthnasol. | Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu nodau lefel uchel i ganolbwyntio ar y defnydd o ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau carbon ar draws ardal y cynllun.<br><br>Ni ragwelir LSE o ganlyniad i gyfuno'r Cynllun hwn â CDLlA CNPT. |
| Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 | Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 yw fframwaith datblygu cenedlaethol Cymru, sy'n pennu cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu sydd â strategaeth ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi hyfyw, cyflawni datgarboneiddio a gwydnwch o ran yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant cymunedau Cymru. | Mae'r Cynllun yn amlinellu polisïau lefel uchel, gan gynnwys strategaethau twf cynaliadwy yn rhanbarth de-orllewin Cymru, gyda ffocws ar ddatblygu trefi penodol er mwyn parhau i ddarparu swyddi, hamdden, manwerthu a chyfleoedd diwylliannol, addysg a gwasanaethau iechyd a seilwaith cysylltedd a ddefnyddir gan y cymunedau eu hunain a'r cymunedau o'u hamgylch, gan ddibynnu arnynt.<br><br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |

| Prosiect/Cynllun | Crynodeb o'r wybodaeth | Llwybrau Effaith Posibl |
|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033 | Mae CDLl Sir Gaerfyrddin yn nodi cynigion a pholisïau ar gyfer defnydd o'r holl dir yn y Sir yn y dyfodol (ac eithrio'r rhan sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ac mae'n rhan o fframwaith cynllun datblygu Cymru. Mae'r CDLl yn cwmpasu cyfnod o 15 mlynedd, a dylai adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. | Mae'r Cynllun yn amlinellu polisïau lefel uchel, y mae rhai ohonynt yn sbardunau datblygu. Amlygodd ARhC y Cynllun effeithiau posibl yn benodol, gan gynnwys llygru dŵr arwyneb a gwaredu dŵr gwastraff o ddatblygiad<br><br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin | Mae'r CDLl Diwygiedig yn amlinellu strategaeth, gweledigaeth, polisïau strategol a phenodol, cynigion, a dyraniadau datblygu. Mae'n nodi ac yn dyrannu tir at ddibenion cyflogaeth ac ar gyfer tai, ac yn pennu ble caniateir y rhain a defnyddiau eraill. Ar ben hynny, mae'n amlygu ardaloedd lle defnyddir polisïau i warchod a gwella'r amgylchedd rhag datblygiadau amhriodol. | Mae'r CDLlA hwn yn dal ar ffurf drafft, ond mae'n darparu strategaeth drosfwaol i'r Fwrdeistref Sirol ar gyfer defnydd tir a datblygu, ynghyd â fframwaith polisi a dyraniadau safle-benodol ar gyfer ystod o fathau o ddatblygiad. Mae'r CDLl diwygiedig hefyd yn manylu ar bolisïau i warchod a chadw'r amgylchedd naturiol. O ganlyniad, gallai LSE ddigwydd o gyfuno hyn â CDLlA CNPT oherwydd bod sbardunau datblygu yn debygol o gael eu cynnwys yn y cynllun.<br><br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Pen-y-bont ar Ogwr 2018 – 2033 | Strategaeth lefel uchel yw Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Pen-y-bont ar Ogwr (CDLl), y mae'n rhaid i'r cyngor ei baratoi. Mae'r CDLl yn cyflwyno blaenoriaethau ac amcanion y Cynllun Corfforaethol ar ffurf defnydd tir. Bydd angen i'r CDLl Amnewid yn y dyfodol fynegi amcanion a blaenoriaethau llesiant Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar ffurf defnydd tir. | Mae'r Cynllun yn amlinellu polisïau lefel uchel, y mae rhai ohonynt yn sbardunau datblygu, gan gynnwys darparu datblygu cynaliadwy, gyda ffocws ar symud ymlaen.<br><br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr |

| Prosiect/Cynllun | Crynodeb o'r Wybodaeth | Llwybrau Effaith Posibl |
|---|---|---|
| | | ▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Rhondda Cynon Taf 2022 – 2037 | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2022 - 2037. Cychwynnodd y broses hon yn ffurfiol ym mis Ebrill 2022, a bydd yn disodli CDLl cyfredol Rhondda Cynon Taf (2006 – 2021). Bydd y CDLl cyfredol yn parhau mewn grym hyd nes i'r CDLl Diwygiedig gael ei fabwysiadu. Mae CDLl yn darparu strategaeth datblygu a defnydd tir drosfwaol i'r Fwrdeistref Sirol, ynghyd â fframwaith polisi a dyraniadau safle-benodol ar gyfer ystod o fathau o ddatblygiad. Y CDLl, ochr yn ochr â Chynlluniau a Pholisi Cenedlaethol, sy'n llywio penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio yn Rhondda Cynon Taf. | Mae'r CDLlA hwn yn dal ar ffurf drafft, ond mae'r Cynllun yn darparu strategaeth datblygu a defnydd tir drosfwaol i'r Fwrdeistref Sirol, ynghyd â fframwaith polisi a dyraniadau safle-benodol ar gyfer ystod o fathau o ddatblygiad.<br>O ganlyniad, gallai fod LSE o gyfuno â CDLlA CNPT oherwydd bod sbardunau datblygu yn debygol o gael eu cynnwys yn y cynllun.<br><br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010 – 2025 | Mae CDLl Abertawe yn Gynllun arloesol ac uchelgeisiol sy'n hybu agenda gref o ran creu lleoedd, sy'n cyd-fynd ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun yn cyflwyno dull cadarnhaol o reoli a hybu twf, ac o gyflwyno'r seilwaith cefnogi sy'n ofynnol i gynnal y newid trawsffurfiannol y disgwylir i Abertawe ei brofi gan mai hi yw'r ddinas yng nghanol Rhanbarth Bae Abertawe. | Mae'r Cynllun yn amlinellu polisïau lefel uchel, y mae rhai ohonynt yn gweithredu fel sbardunau datblygu, gan gynnwys gwella cymunedau, cyfleusterau a seilwaith; darparu twf a ffyniant economaidd; a meithrin amgylchedd o safon uchel.<br><br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2023 – 2038 | Bydd y Cynllun yn nodi sut ac ymhle dylai datblygu ddigwydd i gyfateb i'r uchelgeisiau twf a nodwyd. Bydd yn ceisio sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y man cywir ar yr adeg gywir, fel bod budd i gymunedau a'r economi leol, a chan amddiffyn yr amgylchedd naturiol yn ddigonol. | Mae'r CDLlA hwn yn dal ar ffurf drafft, ond mae'r Cynllun yn darparu strategaethau gofodol a thwf trosfwaol i'r Cyngor.<br>O ganlyniad, gallai LSE ddigwydd o gyfuno â CDLlA CNPT oherwydd bod sbardunau datblygu yn debygol o gael eu cynnwys yn y cynllun. |

| Prosiect/Cynllun | Crynodeb o'r wybodaeth | Llwybrau Effaith Posibl |
|---|---|---|
| | Bydd y cynllun yn nodi nifer y cartrefi newydd a'r swyddi mae angen i ni gynllunio ar eu cyfer, a bydd yn nodi'r lleoliadau yn Abertawe lle bydd safleoedd cyflogaeth a thai newydd. Bydd hefyd yn darparu fframwaith i sicrhau tai fforddiadwy a seilwaith newydd trwy'r broses ddatblygu, gan gynnwys ysgolion newydd, mannau chwarae, llwybrau beicio a hyd yn oed seilwaith gwyrdd. | Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Powys 2011 – 2026 | Mae CDLl Powys yn cynnwys polisïau'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir ym Mhowys. Ar y cyd â pholisi cynllunio cenedlaethol, bydd yn llywio penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer pob datblygiad yn y dyfodol, a chynllunio defnydd tir yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod y Cynllun. | Mae'r Cynllun yn amlinellu sawl amcan sy'n canolbwyntio ar ddwy brif strategaeth, sef (a) strategaeth twf sy'n disgrifio'r prif anghenion datblygu a'r lefelau datblygu sy'n ofynnol i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion, a<br>(b) strategaeth ofodol sy'n disgrifio dosbarthiad cynaliadwy, lleoliad a phatrwm datblygiad a thwf a gynllunnir er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a diogelu adnoddau ac asedau strategol.<br><br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Powys 2022 – 2037 | Mae CDLlA Powys yn ceisio rhoi sylw i anghenion Ardal Cynllun Powys trwy gynnig lefelau twf cyflogaeth a thai a nodi eu dosbarthiad yn gyffredinol. Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn cynnwys Hierarchaeth arfaethedig ar gyfer Aneddiadau Cynaliadwy, ynghyd â chyfres o bolisïau cynllunio lefel strategol, yr ymhelaethir arnynt ar ffurf polisïau manwl a dyraniadau tir arfaethedig (ar gyfer datblygiadau newydd) yng nghyfnodau dilynol proses y CDLl Amnewid. | Mae'r CDLlA hwn yn dal ar ffurf drafft, ond mae'r Cynllun yn cynnig polisïau sy'n ymwneud â graddfa a lleoliad twf cyflogaeth a thai yn y dyfodol. O ganlyniad, gallai LSE ddigwydd o gyfuno hyn â CDLlA CNPT oherwydd bod sbardunau datblygu yn debygol o gael eu cynnwys yn y cynllun.<br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr |

| Prosiect / Cynllun | Crynodeb o'r wybodaeth | Llwybrau Effaith Posibl |
|---|---|---|
| | | ▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 – 2026 | Mae'r Cynllun yn cyflwyno'r weledigaeth, yr amcanion, y strategaeth a'r polisïau ar gyfer rheoli datblygu ym Mro Morgannwg, ac mae'n cynnwys nifer o bolisïau cynllunio lleol, ac yn darparu ar gyfer defnyddio tir at ddibenion tai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden, trafnidiaeth, twristiaeth, mwynau, gwastraff a defnyddiau cymunedol. Mae hefyd yn ceisio nodi'r seilwaith a fydd yn ofynnol ar gyfer y twf a ragwelir ym Mro Morgannwg hyd at 2026, ac mae'n darparu fframwaith monitro ar gyfer asesu effeithiolrwydd y Cynllun. | Nodau'r Cynllun yw hybu datblygu, canolbwyntio ar fuddsoddi mewn trafnidiaeth a chyflogaeth, a hybu aneddiadau cynaliadwy, er mwyn darparu ar gyfer rhagor o dai a datblygiadau cysylltiedig.<br><br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Bro Morgannwg 2021 – 2036 | Mae'r Cyngor yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd i ddisodli'r CDLl presennol a fabwysiadwyd. Bydd y Cynllun newydd yn cael ei alw'n Gynllun Datblygu Lleol Amnewid.<br><br>Mae Gweledigaeth y CDLl yn adlewyrchu gweledigaeth drosfwaol Strategaeth Gymunedol y Cyngor (2011 i 2021) ar gyfer Bro Morgannwg:<br>"Ein Gweledigaeth ar gyfer Bro Morgannwg yw rhywle:<br>• Sy'n ddiogel, yn lân ac yn ddeniadol, lle mae unigolion a chymunedau yn cael cyfleoedd cynaliadwy i wella'u hiechyd, eu dysgu a'u sgiliau, eu ffyniant, a'u llesiant; a<br>• Rhywle ag ymdeimlad cryf o gymuned lle mae gan grwpiau lleol ac unigolion gapasiti a chymhelliad i wneud cyfraniad effeithiol i gynaliadwyedd yr ardal yn y dyfodol." | Mae'r CDLlA hwn yn dal ar ffurf drafft, ond mae'r Cynllun yn cynnig polisïau mewn perthynas â'r dyraniadau tai a safleoedd eraill strategol bwysig. O ganlyniad, gallai LSE ddigwydd o gyfuno â CDLlA CNPT oherwydd bod sbardunau datblygu yn debygol o gael eu cynnwys yn y cynllun.<br><br>Gellid dweud bod y Cynllun yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Rhaglen y Porthladd Rhydd Celtaidd | Mae'r Rhaglen Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru yn gyfle i harneisio potensial economaidd helaeth Cymru. Dyma'r tri phrif amcan:<br>▪ Hybu adfywio a chreu swyddi o safon uchel;<br>▪ Sefydlu'r porthladdoedd rhydd yn hybiau cenedlaethol ar gyfer masnach a buddsoddi byd-eang ar draws yr economi; a<br>▪ Meithrin amgylchedd arloesol. | Bydd y Porthladd Rhydd Celtaidd yn cefnogi cyfleusterau gweithgynhyrchu newydd ac uwchraddio sylweddol i seilwaith y porthladd er mwyn cefnogi estyn y safle gwynt sy'n arnofio oddi ar y lan (FLOW) yn y Môr Celtaidd. Mae'r Prosiect hwn yn ymwneud â Safle Allweddol – y Porthladd. |

| Prosiect/Cynllun | Crynodeb o'r Wybodaeth | Llwybrau Effaith Posibl |
| --- | --- | --- |
| | | Gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Safle Tirlenwi'r Morfa | Cais datblygu gan Tata Steel UK Ltd i rannu'r ardaloedd echdynnu mwynau ar safle tirlenwi'r Morfa yn ddwy ardal ar wahân er mwyn hwyluso gwaith adeiladu a chapio cell newydd ar gyfer tirlenwi. Ar hyn o bryd mae'r caniatâd yn cyfeirio at ran o gell dirlenwi newydd i'r gogledd-ddwyrain o'r safle tirlenwi, ac ardal pwll benthyg i'r gorllewin o'r safle tirlenwi.<br><br>Cymeradwywyd y cais. | Mae potensial i'r Prosiect effeithio ar amgylcheddau gerllaw yn y dŵr ac ar y tir yn ystod y gwaith adeiladu.<br><br>Gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Canolfan Antur Cwm Afan (P2018/0493) | Cynnig datblygu a gyflwynwyd gan ganolfan antur Wildfox Resorts sy'n cynnwys 600 o gabanau/randai, gwesty 100-gwely gyda sba cysylltiedig, sgwâr ganolog gyda bwytai, gweithgareddau hamdden a siopau, gweithgareddau antur ac adeiladau cysylltiedig (yn cynnwys chwaraeon-X, mynydda/sgïo, gweithgareddau coedwig a Trax & Trail), bwytai a gweinyddiaeth gysylltiedig ac adeiladau cynnal a chadw a pharcio ar gyfer rhyw 850 o geir, plws tirlunio cysylltiedig, draenio a gweithrediadau peirianneg, gan gynnwys ailbroffilio tir, trin ffiniau, strwythurau cynnal, goleuo allanol a CCTV, a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus.<br><br>Cymeradwywyd y cais cynllunio. | Mae'r Prosiect yn cynnwys datblygu sy'n ceisio ychwanegu at y diwydiant twristiaeth yn yr ardal. Mae'r Prosiect hwn yn ymwneud â Safle Allweddol – Canolfan Antur Cwm Afan. Yn absenoldeb mesurau lliniaru yn ystod yr adeiladu, ac oherwydd bod disgwyl i'r defnydd o'r ardal gynyddu yn ystod gweithrediad, gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |

| | | |
|---|---|---|
| Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd (P2024/0347) | Datblygu Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE), fydd yn cynnwys dau drac profi cyfluniad lŵp, gan gynnwys trac profi cerbydau rheilffordd cyflymdra uchel wedi'i drydaneiddio, 6.9km o hyd, a thrac profi seilwaith cyflymdra isel wedi'i drydaneiddio, 4.5km o hyd, gyda chyfarpar llinell uwchben (OLE) ac amgylchedd profi gorsaf gyda dau blatfform; ynghyd â swyddfeydd rheoli a gweithrediadau (yn cynnwys llety a chyfleusterau lles i'r staff), cabanau siyntio (2 ohonynt), ymchwil a datblygu, addysg a hyfforddiant, seidinau i storio cerbydau rheilffordd a chyfleusterau cynnal a chadw/glanhau/dadgomisiynu; a draenio cysylltiedig, mynediad mewnol i gerbydau, cysylltiad rheilffordd â'r llinell gangen, lle parcio ceir i staff ac ymwelwyr, goleuadau, seilwaith trydanol (yn cynnwys is-orsafoedd a cyflenwadau a thrawsgludyddion wrth ochr y lein), ffensys (i ddiogelu ymyl y safle, at ddibenion acwstig ac sy'n gallu gwrthsefyll da byw), ailffurfio'r tir a thirlunio caled a meddal, ynghyd â dymchwel adeiladau/strwythurau presennol (cais ar draws y ffin – gweler cais Cyngor Sir Powys cyf. 21/0559/OUT).<br><br>Disgwylir penderfyniad cynllunio. | Roedd y Prosiect hwn yn galw am ddatblygu sylweddol mewn ardaloedd allweddol o ardal CNPT a'r tu hwnt. Mae'r Prosiect hwn yn ymwneud â Safle Allweddol – GCRE. Yn absenoldeb mesurau lliniaru priodol, yn ystod cyfnod adeiladu'r GCRE, gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>Daeth ARhC y prosiect, a gwblhawyd ar gyfer y cais cynllunio hwn, i'r casgliad nad oedd LSE ar unrhyw Safleoedd Ewropeaidd o fewn 10m.<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| **Prosiect / Cynllun** | **Crynodeb o'r Wybodaeth** | **Llwybrau Effaith Posibl** |
| TATA Steel UK | Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys y bwriad i uwchraddio'r cyfleuster cynhyrchu pŵer mewnol (yr orsaf bŵer newydd) ar safle Gwaith Dur Port Talbot. Bydd yr orsaf bŵer newydd yn cynnwys dau foeler newydd a osodir (a allai fod hyd at 164 MWth yr un) a setiau tyrbin ager cysylltiedig, gyda chyfanswm allbwn pŵer trydan gros o hyd at 150 MWe. Bydd y boeleri newydd yn disodli pedwar o foeleri presennol y safle, a fydd yn cael eu dadgomisiynu fel rhan o'r bwriad i uwchraddio'r cyfleuster cynhyrchu pŵer mewnol (yr orsaf bŵer newydd) ar safle Gwaith Dur Port Talbot. Ni fydd y peiriannau a ddadgomisiynwyd yn cael eu symud o'r safle. Ar ôl comisiynu, caiff defnyddio'r peiriannau a ddadgomisiynwyd ei atal gan amodau fydd yn rhan o'r hawlen yn sgîl yr amrywiad hwn. | Mae'r Prosiect yn cynnwys datblygiad ynni adnewyddadwy. Bydd gweithgareddau'r cyfnod adeiladu yn amrywiol ac mae angen rhagor o fanylion ynghylch mesurau lliniaru/llygredd er mwyn cynnal asesiad cadarn o'r LSE cyfunol. Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r egwyddor ragofalus, gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Glofa Aberpergwm (P2014/0729 a P2023/0770) | Cais am estyn ac ailgyflunio'r gweithfeydd glo o dan ddaear; Creu storfa ar gyfer gwastraff o'r pwll gan gadw a gwella'r ffordd halio gysylltiedig (er mwyn gwaredu gwastraff mwynol a deunydd a waredwyd yn sgîl paratoi glo yn y pwll) a chyflawni gwaith lliniaru pellach ar y cynefin mawn; datblygu Wyneb y Pwll, gan gynnwys – rheoleiddio ac estyn amser gweithrediadau presennol cysylltiedig â'r pwll a datblygu wyneb y pwll, cadarnhau'r caniatâd cynllunio a'r mesurau rheoli cynllunio sydd eisoes yn bodoli, creu seilwaith/adeiladau, ffurfio lle i storio deunyddiau ac ardaloedd stocio, gwaith draenio, a thirlunio.<br><br>Disgwylir penderfyniad cynllunio. | Mae'r Prosiect yn manylu ar adferiad y Storfa Gwastraff Mwynol (MWR). Mae'r Prosiect yn ymgorffori mesurau ar gyfer amddiffyn yr amgylchedd, sy'n galw am eithrio LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.<br><br>Ni ragwelir LSE o ganlyniad i gyfuno'r Cynllun hwn â CDLlA CNPT. |

| | | |
|---|---|---|
| Parc Pelenna<br>(P2024/0186) | Datblygu cabanau gwyliau preifat o'r radd flaenaf ar dir rhwng aneddiadau Tonna a Resolfen, ym Mhlwyf Clun a Melin-cwrt a Ward Resolfen. Bydd y prosiect yn creu datblygiad hamdden o safon a fyddai'n cynnwys cabanau gwyliau a chyfleusterau hamdden eraill ategol, gan gydweddu â chynnig hamdden naturiol ehangach Bro Nedd, yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gerllaw a thirlun Cymoedd De Cymru. Mae'r datblygiad a gynigir yn debyg i bentref gwyliau y tu allan i ardal drefol, a chan fod y safle'n fwy na 0.5 ha, mae'r datblygiad arfaethedig yn dod o dan Gategori 12(c) o Atodlen 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017.<br><br>Datblygiad AEA. | Mae'r Prosiect yn cynnwys datblygiad sy'n ceisio ychwanegu at y diwydiant twristiaeth yn yr ardal. Yn absenoldeb mesurau lliniaru yn ystod adeiladu, ac oherwydd y cynnydd a ragwelir yn y defnydd o'r ardal yn ystod gweithrediad, gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| **Prosiect/Cynllun** | **Crynodeb o'r Wybodaeth** | **Llwybrau Effaith Posibl** |
| Fferm Wynt ac Arâu Solar Mynydd Fforch Dwm (MFD)<br>(P2023/0638) | Mae Naturalis Energy Developments Ltd ('yr Ymgeisydd') wedi cyflwyno cais cynllunio am Ddatblygiad ag Arwyddocâd Cenedlaethol ('DNS') i PEDW (Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru). Enw'r prosiect yw Fferm Wynt ac Arâu Solar Mynydd Fforch Dwm (MFD) ac mae'n cynnwys adeiladu a gweithredu chwe thyrbin gwynt sy'n cynhyrchu trydan, arâu solar ffotofoltaig a seilwaith cysylltiedig a fyddai wedi'u lleoli ryw 6 km i'r dwyrain o Gastell-nedd ac 1km i'r gogledd-ddwyrain o Donmawr, yn ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT).<br><br>Yn disgwyl penderfyniad cynllunio. Datblygiad AEA. | Mae asesiad y Prosiect yn amlygu'r effaith bosibl ar Safleoedd Ewropeaidd gerllaw, gan gynnwys ACA a Ramsar Cors Crymlyn.<br><br>Gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Fferm Wynt Y Bryn<br>(P2024/0029) | Gosod hyd at 18 o dyrbinau gwynt gydag uchafswm taldra sy'n amrywio o hyd at 206m, hyd at 230m, a hyd at 250m i frig y llafn. Pob un gyda sylfeini, cynhwysydd i'r trawsffurfiwr allanol, tir caled i'r craen sefyll ac ardal godi; ynghyd â seilwaith ategol a gwaith i alluogi adeiladu, gan gynnwys is-orsaf, adeilad rheoli ac ardal amgaeedig; cyfleuster storio ynni; dau leoliad parhaol i fonitro'r gwynt; traciau mynediad newydd ac wedi'u huwchraddio a chyffyrdd priffyrdd; rhediadau ceblau tanddaear; arwyddion safle; pyllau benthyg; ardaloedd amgaeedig dros dro ar gyfer adeiladu a storio, ac ardaloedd gosod i lawr.<br><br>Datblygiad AEA – yn disgwyl penderfyniad cynllunio. | Mae'r Prosiect yn cynnwys Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) ac mae sawl elfen i'r datblygiad hwnnw. Bydd gweithgareddau'r cyfnod adeiladu yn amrywiol, ac mae angen manylion pellach ynghylch mesurau lliniaru / llygredd i gynnal asesiad cadarn o LSE cyfunol. Fodd bynnag, o ddefnyddio'r egwyddor ragofalus, gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |

| | | |
|---|---|---|
| Fferm Solar Ystâd Penllergaer (2024/0988/DNS) | Mae'r cynnig yn ceisio gosod fferm solar 40MW gyda seilwaith cysylltiedig ar draws 250 hectar o feysydd amaethyddol. Bydd y datblygiad yn cynnwys ceblau tanddaear o dan SoDdGA Nant y Crimp. Mae'r safle'n cynnwys 14 ha o'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV), yn ogystal â chyrsiau dŵr bychain yn croesi.<br><br>Datblygiad AEA. | Mae'r Prosiect yn cynnwys Datblygiad posibl o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Er bod ymgynghoriad y cyngor wedi nodi y gallai gweithredu Cynllun Rheoli Adeiladu yn Amgylcheddol (CEMP) liniaru risg bosibl llygredd, sŵn ac aflonyddu, ni chynhyrchwyd hynny eto, ac o ganlyniad gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| **Prosiect/Cynllun** | **Crynodeb o'r wybodaeth** | **Llwybrau Effaith Posibl** |
| Pwll y Dwyrain (P2012/1073) | Cais cynllunio ar y safle a adwaenir ar hyn o bryd fel Pwll y Dwyrain - East Pit East Revised OCCS, Gwaun-cae-Gurwen, SA18 1UP, ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys: Materion Amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u neilltuo: cyfleusterau hamdden i gynnwys: gwesty 120 ystafell wely (Dosbarth Defnydd C1); 78 o gabanau gwyliau (Dosbarth C3) gydag unedau 2, 3 a 4 gwely; gwersyllfan (Sui Generis) 6.35ha. gyda bloc cyfleusterau 210m2 a Chanolfan Ymwelwyr (Dosbarth D1) 300m2; canolfan blymio gyda siop canolfan blymio ategol (Dosbarth D2) 1630m2; bydd y cyfan yn cynnwys darpariaeth briodol ar gyfer parcio, mannau agored ar gyfer hamdden, llwybrau mynediad mewnol, gwasanaethau a draenio; a gwaith cysylltiedig yn cynnwys mynediad, llwybrau troed, llwybrau beicio a llwybrau ceffyl, manylion cynllun a thirlunio; Materion Manwl (fel y nodwyd yn y cais yn Anecs 1: Echdynnu a Phrosesu Mwynau) yr estyniad arfaethedig i'r gogledd-ddwyrain ar gyfer Pwll y Dwyrain - Diwygiedig (East Pit East Revised) at ddibenion echdynnu glo, ynghyd â chwblhau tynnu'r glo ar y safle presennol a chadw datblygiad ategol cysylltiedig â Phen y Lein yng Ngwaun-Cae-Gurwen, a datblygu Parc Gwledig a llyn ar gyfer adloniant. | Mae'r Prosiect yn cynnwys datblygu sy'n ceisio ychwanegu at y diwydiant twristiaeth yn yr ardal. Yn absenoldeb mesurau lliniaru yn ystod y gwaith adeiladu, ac oherwydd y rhagwelir cynnydd yn y defnydd o'r ardal yn ystod gweithrediad, gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Rheola (P2023/0919) | Mae'r cais hwn yn cynnwys bwriad i ailddatblygu adeiladau presennol a chodi adeiladau newydd i ddarparu ar gyfer defnyddiau hamdden, gan gynnwys hyd at 295 o unedau llety gwyliau, safleoedd manwerthu a chyfadeilad hamdden, ynghyd â mynediad cysylltiedig, llwybrau troed, gwelliannau ecolegol a thirlunio, trin ffiniau, gwasanaethau, parcio a symud o gwmpas ar y safle, a gweithrediadau peirianneg cysylltiedig. | Mae'r Prosiect yn cynnwys datblygu sy'n ceisio ychwanegu at y diwydiant twristiaeth yn yr ardal. Yn absenoldeb mesurau lliniaru yn ystod y gwaith adeiladu ac oherwydd y rhagwelir cynnydd yn y defnydd o'r ardal yn ystod gweithrediad, gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |

| | | |
|---|---|---|
| Fferm wynt Foel Trawsnant (P2014/0825) | Mae'r cynnig yn cynnwys gosod 11 o dyrbinau gwynt gydag uchafswm o 145m i hyd y llafn, ynghyd â datblygiad ategol sy'n cynnwys adeilad rheoli ac is-orsaf, ceblau trydan o dan y ddaear ar y safle, traciau mynediad carreg i'r safle, ardaloedd wedi'u hamgau dros dro ar gyfer y gwaith adeiladu, sylfeini'r tyrbinau a phadiau dros dro i graeniau. (Cais diwygiedig sy'n gofyn am ostyngiad yn nifer y tyrbinau o 13 i 11, a chynnydd yn uchafswm uchder hyd llafnau'r tyrbinau, o 120m i 145m). | Datblygiad ynni adnewyddadwy yw'r Prosiect. Bydd gweithgareddau'r cyfnod adeiladu yn amrywiol, ac mae angen manylion pellach ynghylch mesurau lliniaru/llygredd i fedru cynnal asesiad cydnerth o'r LSE cyfunol.<br><br>Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r egwyddor ragofalus, gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| **Prosiect/Cynllun** | **Crynodeb o'r Wybodaeth** | **Llwybrau Effaith Posibl** |
| Fferm Wynt Hirfynydd (P2022/0904) | Mae'r cais a gynigiwyd yn cynnwys Datblygiad ag Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) ar ffurf Parc Ynni Adnewyddadwy sy'n cynnwys capasiti cynhyrchu gwynt, capasiti cynhyrchu solar ffotofoltaig, a storfa batrïoedd. | Mae'r Prosiect yn Ddatblygiad ag Arwyddocâd Cenedlaethol, ac mae sawl elfen i'r datblygu.<br><br>Gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT** |
| Purfa Olew Llandarcy Gynt, Castell-nedd (P2005/0393) | Mae'r cynnig yn cynnwys pentref trefol o ryw 4,000 o breswylfeydd, 41,200msg o ddefnyddiau busnes B1, hyd at 3,800 msg (gros) o fanwerthu, ac 8,000 msg o elfennau masnachol eraill, addysg, cyfleusterau cymunedol, priffyrdd, draenio, gwasanaethau, seilwaith, lle parcio i geir a thirlunio. | Mae'r Prosiect yn cynnwys datblygiad sy'n ceisio ychwanegu at y diwydiannau manwerthu a masnachol yn yr ardal, yn ogystal â diwallu anghenion addysg, cyfleusterau cymunedol a seilwaith. Cyfeiriwyd at gynllun rheoli amgylcheddol fel un o amodau'r caniatâd cynllunio, sef rheoli dŵr arwyneb yn ystod cyfnod adeiladu'r datblygiad. Yn absenoldeb manylion pellach ynghylch mesurau lliniaru yn ystod y gwaith adeiladu, ac oherwydd y rhagwelir y bydd cynnydd yn y defnydd o'r ardal yn ystod ei weithrediad, gellid dweud bod y Prosiect yn achosi'r llwybrau effaith canlynol:<br>▪ Pwysau Hamdden<br>▪ Ansawdd Dŵr<br>▪ Hydroleg<br>▪ Llygredd Atmosfferig<br><br>**Ni ellir dweud na fyddai LSE o gyfuno â CDLlA CNPT.** |

# 9. Asesiad Priodol

## 9.1 Pwysau Hamdden

### ACA Cynffig

9.1.1 Fel y nodwyd yn **0**, mae ACA Cynffig yn safle bioamrywiol gyda chynefinoedd arfordirol a dŵr croyw, gan gynnwys tri math o gynefin twyni a phoblogaeth tegeirian y ffen, sydd i gyd yn sensitif i bwysau hamdden cysylltiedig ag amrywiaeth o weithgareddau, yn cynnwys cerddwyr a rhai sy'n marchogaeth. Mae'r Cynllun Rheoli Craidd yn nodi sathru, cywasgu pridd, a gweithgareddau anghyfreithlon fel bygythiadau allweddol. Mae sathru gan geffylau wedi effeithio'n sylweddol ar forfa heli Iwerydd, gyda cholli cynefin yn cael ei nodi rhwng 1991 a 2000. Defnyddiwyd wardeniaid a chyfyngiadau, gan gynnwys Cynllun Hawlenni Marchogaeth, i reoli'r pwysau hyn.

9.1.2 Gallai datblygiadau preswyl yn awdurdod CNPT waethygu'r materion hyn, gan arwain at ddiraddio cynefinoedd ymhellach a cholli bioamrywiaeth. Mae mesurau rheoli a lliniaru effeithiol yn hanfodol, yn ogystal â darparu ardaloedd eraill sydd â lle addas ar gyfer hamddena.

9.1.3 Mae un safle allweddol yn y CDLlA, fel y dangosir yn Nhabl 9-1, sydd o fewn 5km i'r ACA, sy'n fwy tebygol o gyfrannu at nifer yr ymwelwyr.

**Tabl 9-1. Y Safleoedd Allweddol a gynigir ar gyfer datblygu tai, gan ddangos y pellter o ACA Cynffig, ac a allai fod angen lliniaru neu beidio.**

| Safle Allweddol | Nifer Arfaethedig o Anheddau | Pellter | Angen lliniaru? (Oes/ Nac oes) |
|---|---|---|---|
| Coed Hirwaun | 400 | 2km | Oes |
| Tir i'r Dwyrain o'r Rhos | 400 | >15km | Nac oes |
| Tir yn ymyl Blaenbaglan | 341 | 9.5km | Nac oes |
| Fferm Fforest | 300 | >15km | Nac oes |

9.1.4 O ystyried graddfa gyfredol twf datblygu a amlinellwyd yn y Strategaeth a Ffafrir a'r safleoedd a ddyrannwyd sy'n agos at yr ACA, mae'n debygol mai persbectif rheoli safle yw'r ffordd orau o reoli pwysau hamdden, fel yr amlinellwyd eisoes yng Nghynllun Rheoli Craidd y safleoedd. Fodd bynnag, dylid adolygu hynny yng nghyfnod y Cynllun Adnau, ac ystyried yr angen am fesurau lliniaru ychwanegol megis strategaethau addas i osgoi effaith neu greu mannau gwyrdd amgen.

9.1.5 Ar adeg ysgrifennu, ni ellir dweud yn bendant na fydd CDLlA CNPT yn cael effeithiau niweidiol ar ACA Cynffig o ran pwysau hamdden. Bydd y casgliad hwn yn cael ei ailasesu yn ARhC y Cynllun Adnau pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

### Effeithiau cyfunol

9.1.6 Aseswyd y gallai fod gan yr holl Gynlluniau a dau o'r Prosiectau (Canolfan Antur Cwm Afan a Pharc Pelena) a gynhwyswyd yn yr asesiad cyfunol effeithiau o ran pwysau hamdden. Mae'r llwybr effaith hwn wedi cael ei nodi yn achos pob un o'r Cynlluniau/Prosiectau hyn oherwydd y ffocws ar hybu twristiaeth yn y rhanbarth(au) a/neu'r sbardun(au) ar gyfer ailgysylltu pobl â'r ardal(oedd) lleol sydd wedi'u gwreiddio yn y Cynllun(iau). Ceir rhagor o fanylion ynghylch pob un o'r Cynlluniau a'r Prosiectau a aseswyd yn **Nhabl 8-1**.

9.1.7 Dylid ailasesu'r effeithiau cyfunol yng nghyfnod y Cynllun Adnau, os ychwanegir prosiectau a chynlluniau newydd yn y cyfnod interim.

## 9.2 Ansawdd Dŵr

### ACA Cynffig

9.2.1 Mae’r ACA yn cwrdd â ffin awdurdod CNPT yn y de ac mae wedi’i lleoli’n llwyr yn awdurdod Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gan rai o nodweddion cymhwyso’r ACA ddibyniaeth gritigol ar fewnbwn hydrolegol, gan gynnwys y llaciau twyni llaith a’r twyni sy’n cynnwys Salix repens, dyfroedd oligo-fesotrophig caled gyda llystyfiant dyfnforol, morfa heli Iwerydd, a thegeirian y ffen.

9.2.2 Mae system twyni Cynffig a’r cyfuniadau nodweddiadol o blanhigion yn dibynnu’n uniongyrchol ar y prif batrymau hydrocemegol. Nodwyd mai’r prif fygythiad i ansawdd dŵr yn yr ACA yw crynodiadau uwch o facrofaetholion, megis y rhai sy’n deillio o ryddhau carthffrwd ar ôl trin carthion. Mesurwyd crynodiadau nitrogen uwch yn Ffynnon Burrows (tarddell garstig) ar y rhan o’r safle sydd ym Merthyr Mawr, a nodwyd bod y llaciau’n dod yn fwyfwy ewtroffig. Mae’r ffaith bod yr acwiffer calchfaen gwaelodol mor hydraidd yn awgrymu y gallai ffynonellau pendant sy’n gymharol bell a ffynonellau llygredd gwasgaredig effeithio ar ansawdd dŵr yn yr ACA.

9.2.3 Mae Pwll Cynffig, enghraifft o system dŵr croyw caled oligo-fesotroffig, hefyd yn sensitif i gyfoethogiad maetholion. Gan mai ecosystem dŵr croyw yw hon, bernir mai’r prif faetholyn sy’n cyfyngu ar dwf yw ffosfforws (sydd ar lefel o 20 µg/L ar hyn o bryd). Fodd bynnag, mae cyfanswm cymedrig y crynodiadau nitrogen blynyddol yn debygol o gyflawni rôl ategol bwysig, gan fod modd defnyddio nitrogen ar amrywiol adegau yn y cylch twf. Mae Cynllun Rheoli Craidd yr ACA yn pennu na ddylai fod tystiolaeth o waddodi na thwf gormodol o ran cyanobacteria ac algâu gwyrdd.

9.2.4 Mae adolygiad o byrth mapio ar-lein Dŵr Cymru yn nodi lleoliad gorlifoedd stormydd a gweithiau trin yng nghyffiniau’r ACA. Mae gwaith trin dŵr gwastraff mawr (WwTW) yn gwasanaethu poblogaeth o fwy na 2,000, sy’n gollwng carthffrwd o garthion a driniwyd yng nghyffiniau’r ACA (Pen-y-Bont, Merthyr Mawr). Gallai cyfraniadau i ddatblygiadau preswyl yng nghyffiniau’r ACA arwain at effeithiau cyfunol ar integriti safle’r ACA.

9.2.5 Mae WwTW Merthyr Mawr a gweithiau trin dŵr gwastraff eraill i fyny’r afon yn cyfrannu at y crynodiadau uwch o faetholion yn Afon Ogwr, a allai hefyd effeithio ar ACA Cynffig. Mae’r cysylltiad hydrolegol rhwng Afon Ogwr a’r ACA yn debygol oherwydd bod yr acwiffer calchfaen gwaelodol yn hydraidd iawn, sy’n golygu bod effeithiau ar ansawdd dŵr o ffynonellau pell yn gallu effeithio ar yr ACA. Mae lefelau nitrogen uwch a ddarganfuwyd yn ddiweddar yn Ffynnon Burrows (tarddell garstig) ac ewtroffeiddio cynyddol yn y llaciau twyni wedi arwain at graffu ar effeithiau negyddol posibl carthffrwd carthion a gafodd eu trin.

9.2.6 Nodwyd un Safle Allweddol ar gyfer datblygiad preswyl 2km o’r ACA (Coed Hirwaun), ac ar adeg ysgrifennu’r asesiad hwn nid yw’n eglur sut bydd rheoli dŵr yn y datblygiad arfaethedig hwn yn cael ei gefnogi. Mae’r mapio GIS yn dangos bod cysylltiad hydrolegol rhwng y Safle Allweddol hwn a’r ACA.

9.2.7 Mae Dŵr Cymru wedi cyflwyno sylwadau ar yr holl Safleoedd Ymgeisiol, ac wedi awgrymu y bydd angen Asesiadau Modelu Hydrolig ar yr holl safleoedd a ddyrannwyd sydd â mwy na 50 o anheddau. Mae modelu, ochr yn ochr â dadansoddiad hydrolegol, yn golygu bod modd pennu hyd a lled llifogydd, lefelau, dyfnder, cyflymder, a llwybr y llifogydd dros y tir. Gellir defnyddio modelu hefyd i bennu sgwrfa, gwaddod a gwasgariad llygredd.

9.2.8 Yn dibynnu ar y dosbarthiad a gadarnhawyd ar gyfer datblygu yn y CDLlA Adnau a’r WwTWs sy’n darparu ar gyfer y carthion a gynhyrchir, mae posibilrwydd y gallai’r CDLlA effeithio ar brif ansawdd dŵr yn ACA Cynffig.

9.2.9 Ar adeg ysgrifennu, ni ellir dweud yn bendant na fydd CDLlA CNPT yn cael effaith niweidiol ar ACA Cynffig o ran ansawdd dŵr. Y rheswm am hynny yw ansicrwydd ynghylch yr ardal a wasanaethir gan WwTW Merthyr Mawr Pen-y-Bont (WwTW sy’n agos iawn at yr ACA) a’r gyfres olaf o ddyraniadau a symudir ymlaen yn y CDLlA Adnau. O ganlyniad, bydd angen edrych eto ar y llwybr effaith hwn yn ARhC y Cynllun Adnau.

### ACA Cors Crymlyn / Ramsar Cors Crymlyn

9.2.10 Fel y manylwyd yn y cyfnod sgrinio, mae'r ACA a'r safle Ramsar yn dibynnu ar argaeledd dŵr i gefnogi'r nodweddion cymhwyso. Gall unrhyw gynllun neu brosiect a allai arwain at ddirywiad yn ansawdd y dŵr sy'n cefnogi'r nodweddion cymhwyso arwain at effaith niweidiol ar integriti'r safle.

9.2.11 Mae'r ffen calchaidd, y fignen bontio, a'r goedwig lifwaddodol yng Nghors Crymlyn yn dibynnu ar lefelau isel o faetholion. Ar hyn o bryd, mae'r lefelau nitrogen yn uwch na'r llwyth critigol, dan ddylanwad ansawdd dŵr nentydd a Chamlas Tenant, yn ogystal â dŵr ffo o ffermdir gerllaw. Mae dyddodiad atmosfferig hefyd yn cael effaith sylweddol ar lefelau maetholion, fel y nodwyd yn Nhaflen Wybodaeth Gwlyptir Ramsar (RIS).

9.2.12 Gallai datblygiadau yn ardal dalgylch dŵr yr ACA effeithio ar ansawdd dŵr os ydynt yn newid y dŵr ffo arwyneb sy'n bwydo nentydd lleol. Fodd bynnag, mae systemau draenio safle, gan gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), ar gael i liniaru'r effeithiau hyn, a disgwylir i fesurau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) atal lefelau llygredd uwch. Bydd yr Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel Prosiect (ARhC) yn sicrhau bod mesurau angenrheidiol yn eu lle i atal effeithiau.

9.2.13 Bernir bod effeithiau datblygu tir ffermio ar ddŵr ffo a gwrtaith o safleoedd yn cyrraedd yr ACA yn fach iach. Rhoddir sylw i effeithiau dyddodion atmosfferig isod.

9.2.14 Cynigir un Safle Allweddol yn nalgylch hydrolegol yr ACA; bwriedir defnyddio tir i'r Dwyrain o'r Rhos ar gyfer 400 o anheddau, fydd wedi'u lleoli 7.6km i'r gogledd o'r ACA. O ystyried y pellter a'r polisïau amddiffyn yr amgylchedd, mae'n annhebygol y byddai'r CDLlA yn arwain at effeithiau niweidiol i ansawdd dŵr yn yr ACA, naill ai'n unigol neu o'i gyfuno â chynlluniau a phrosiectau eraill.

9.2.15 At ei gilydd, felly, gellir barnu na fyddai CDLlA CNPT yn cael effeithiau niweidiol ar yr ACA o ran effeithiau ar ansawdd dŵr yn sgîl datblygu'r Cynllun.

### ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr

9.2.16 Fel y trafodwyd yn **0** mae'r ACA yn dibynnu ar y sefyllfa o ran ansawdd dŵr, a gallai galwadau datblygu ychwanegol ar y gwaith trin sy'n ei dderbyn arwain at effeithiau cyfunol ar yr ACA.

9.2.17 Fel y trafodwyd yng nghyswllt ACA Cynffig, cynigiwyd un Safle Allweddol ar gyfer datblygiad preswyl 3.4km o'r ACA (Coed Hirwaun), ar adeg ysgrifennu nid yw'n eglur sut cefnogir rheoli dŵr ar y datblygiad arfaethedig hwn. Mae'r mapio GIS yn dangos nad oes cysylltiad hydrolegol rhwng y Safle Allweddol hwn a'r ACA.

9.2.18 Yn dibynnu ar gadarnhau dosbarthiad datblygu yn y CDLlA Adnau a'r WwTWs sy'n darparu ar gyfer y carthion a gynhyrchir, mae posibilrwydd y gallai'r CDLlA effeithio ar ansawdd dŵr cyffredinol ACA Cynffig.

9.2.19 Ar adeg ysgrifennu, ni ellir dweud na fyddai CDLlA CNPT yn cael effaith niweidiol ar ACA Glaswelltir Cefn Cribwr o ran ansawdd dŵr. Y rheswm am hynny yw ansicrwydd ynghylch yr ardal a wasanaethir gan WwTW Merthyr Mawr Pen-y-bont (WwTW sy'n agos iawn at yr ACA), a'r gyfres derfynol o ddyraniadau a gyflwynir yn y CDLlA Adnau. O ganlyniad, bydd angen edrych eto ar y llwybr effaith hwn yn ARhC y Cynllun Adnau, pan fydd y sylfaen ofynnol o dystiolaeth ar gael.

### Effeithiau cyfunol

9.2.20 Aseswyd y gallai pob un o'r Cynlluniau a'r Prosiectau sy'n rhan o'r asesiad cyfunol gael effeithiau cyfunol o ran ansawdd dŵr. Nodwyd y llwybr effaith hwn ar gyfer pob un o'r Cynlluniau/Prosiectau hyn oherwydd yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer datblygu a/neu'r sbardun datblygu cynhenid a wreiddiwyd yn y Cynllun(iau), a allai effeithio ar ansawdd dŵr trwy lygru dŵr arwyneb, dŵr daear a/neu ddŵr morol yn y safleoedd/yn yr ardaloedd dan sylw o ganlyniad i weithgaredd adeiladu. Ceir rhagor o fanylion ynghylch pob un o'r Cynlluniau a'r Prosiectau a aseswyd yn **Nhabl 8-1**. Dylid adolygu'r effeithiau cyfunol hyn yng Nghyfnod y Cynllun Adnau.

9.2.21 Dylid ailasesu'r effeithiau cyfunol yng nghyfnod y Cynllun Adnau, os ychwanegir prosiectau a chynlluniau newydd yn y cyfnod interim.

## 9.3 Swm y Dŵr

### ACA Cynffig

9.3.1 Fel y manylwyd yn y cyfnod sgrinio, mae'r ACA yn dibynnu ar argaeledd dŵr i gefnogi'r nodweddion cymhwyso. Gallai unrhyw gynllun neu brosiect sy'n cynyddu'r galw am ddŵr neu'n amharu ar lif naturiol dŵr trwy dir hydraidd effeithio ar amcanion cadwraeth y safle.

9.3.2 Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am y cyflenwad dŵr cyhoeddus ar draws rhannau helaeth o Gymru. Mae'n gyfreithiol ofynnol bod pob cyflenwr dŵr yn cyhoeddi Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMPs) bob pum mlynedd. Mae'r cynlluniau hynny'n amlinellu sut byddant yn diwallu'r galw am ddŵr a ragwelir yn eu parthau cyflenwi heb achosi effeithiau niweidiol i'r amgylchedd. Mae WRMPs yn ystyried amrywiol ffactorau pwysig, gan gynnwys newidiadau yn argaeledd dŵr oherwydd y newid yn yr hinsawdd, anghenion amgylcheddol, a newidiadau ymddygiad ar lefel y boblogaeth. O ganlyniad, lluniwyd y dogfennau hynny i fod mor rhagofalus â phosibl, ar sail y data sydd ar gael.

9.3.3 Ar hyn o bryd, mae Dŵr Cymru wrthi'n datblygu ei Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP)[41] ac mae'n dal ar ffurf drafft, gan ymgorffori'r rhagamcanion diweddaraf o ran twf a'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer yr ardal gyflenwi. Mae'r cwmni'n gwasanaethu rhyw 1.3 miliwn o aelwydydd a busnesau ar draws Cymru, Swydd Henffordd a rhannau o Ddyfrdwy. Yn ystod y 25 mlynedd diwethaf, mae'r cyflenwad dŵr i gwsmeriaid Dŵr Cymru wedi gostwng o fwy na 1,000 miliwn o litrau y dydd (Ml/d) i ryw 850 Ml/d. Y rheswm am y gostyngiad hwn yw llai o ollyngiadau, llai o alw gan ddiwydiannau trwm, a defnydd mwy effeithlon o ddŵr gan gwsmeriaid unigol. Mae'r pwysau mwyaf ar adnoddau dŵr yn y prif ddinasoedd, trefi a'r ardaloedd o'u hamgylch yn Ne Cymru.

9.3.4 Er mwyn cyflawni'r cynllun adnoddau dŵr, mae ymrwymiad cyffredinol, o ran rheoli dŵr, yn cynnwys:

- Cydymffurfio â deddfwriaeth ac alinio â strategaeth dŵr Llywodraeth Cymru.
- Ffocws ar ddarparu gwerth i gwsmeriaid, i'r gymdeithas, ac i'r amgylchedd.
- Gwreiddio egwyddorion rheoli adnoddau cynaliadwy.
- Rhoi blaenoriaeth i reoli'r galw a lleihau gollyngiadau 10% erbyn 2030.
- Gwella gwydnwch yn wyneb sychder a'r newid yn yr hinsawdd.
- Sicrhau cydymffurfiaeth statudol a chynnal asesiadau amgylcheddol.
- Alinio cynlluniau adnoddau dŵr rhanbarthol a rhai cwmnïau.

41 https://www.dwrcymru.com/en/our-services/water/water-resources/draft-water-resources-management-plan-2024

- Archwilio cyfleoedd buddiol i fasnachu adnoddau dŵr.

9.3.5 Mae Dŵr Cymru yn rheoli ei gyflenwadau dŵr a'r galw amdanynt ar draws 23 o barthau adnoddau dŵr (WRZs). Mae'n darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i ryw 3 miliwn o gwsmeriaid mewn llawer rhan o Gymru a rhannau bychain o Swydd Gaer a Swydd Henffordd yn Lloegr. Ar ben hynny, mae'n gwasanaethu dros 100,000 o gwsmeriaid busnes, trwy gyflwyno mwy nag 800 miliwn litr o ddŵr yfed bob dydd, swm sy'n gallu cynyddu hyd at 20% yn ystod hafau poeth. Mae'r rhan fwyaf o'r dŵr yn dod o gronfeydd cronni, gyda swm sylweddol hefyd yn cael ei echdynnu o afonydd iseldir megis Gwy, Wysg, Tywi a Dyfrdwy. Mae dŵr daear yn cyfrif am lai na 5% o gyfanswm y cyflenwad, ond gall fod yn unig ffynhonnell mewn rhai ardaloedd lleol. Mae echdynnu o afonydd yn amlwg mewn parthau megis Tywyn Aberdyfi, Llyswen, CUS Henffordd, Whitbourne, Ross on Wye, a Threfynwy, tra bod cyflenwadau cronfa amlycaf yng ngweddill ardal wasanaeth Dŵr Cymru, gan gynnwys parth Tywi Gŵyr, sy'n berthnasol i'r CDLlA, lle defnyddir cronfeydd Crai ac Ystradfellte yn ffynonellau. Mae ffynonellau dŵr daear hefyd yn bresennol ym mharthau Pilleth, Aberhonddu, Arfordir Clwyd, Sir Benfro, Henffordd a Vowchurch.

9.3.6 At ddiben cynnal cyflenwad ym mharth adnodd dŵr Tywi Gŵyr cyflwynwyd nifer o opsiynau yn yr WRMP, gan gynnwys mesurau i reoli'r galw a phedwar opsiwn o ran yr ochr gyflenwi.

9.3.7 Ar sail y galw tebygol am adnoddau dŵr yn sgîl y CDLlA, bydd angen i'r rhain weithio ochr yn ochr ag opsiynau ochr gyflenwi Dŵr Cymru. Fodd bynnag, fyddai dim disgwyl i hynny effeithio ar yr ACA, gan nad oes cysylltiadau hydrolegol rhwng gofynion y Safle Allweddol a'r ACA at ddibenion cyflenwi dŵr.

9.3.8 At ei gilydd, felly, mae modd dweud na fyddai CDLlA CNPT yng nghyfnod y strategaeth a ffafrir yn cael effeithiau niweidiol ar ACA Cynffig o ran effeithiau ar swm y dŵr yn sgîl y galw am adnoddau dŵr. Dylai hyn gael ei adolygu a'i ddiweddaru yng nghyfnod y Cynllun Adnau, a ddylai gynnwys adolygiad o echdyniadau dŵr eraill a allai gyfrannu at yr effeithiau.

### ACA a Ramsar Cors Crymlyn

9.3.9 Fel y trafodwyd yn **0** mae'r ACA yn dibynnu ar gynnal lefelau uchel o ddŵr o'r dŵr daear, ac o ganlyniad, gallai fod mewn perygl yn sgîl effeithiau galw cynyddol am ddŵr.

9.3.10 Fel y trafodwyd yng nghyswllt ACA Cynffig, Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am gyflenwi a rheoli'r adnodd dŵr ar draws rhannau helaeth o Gymru. Mae parth adnodd dŵr Tywi Gŵyr o dan bwysau, ond mae'r WRMP drafft ar hyn o bryd yn awgrymu bod modd posibl i reoli'r galw am y cyflenwad yn y dyfodol. Mae'r adnodd dŵr yn y parth hwn yn dibynnu ar gyflenwad cronfeydd, ac o ganlyniad ni ddisgwylir y bydd unrhyw gysylltedd hydrolegol rhwng yr ACA a'r CDLlA trwy gynnydd yn y boblogaeth.

9.3.11 At ei gilydd, felly, gellir diystyru effeithiau negyddol CDLlA CNPT o ran swm y dŵr yn ACA a Ramsar Cors Crymlyn. Fodd bynnag, dylid adolygu hynny yng nghyfnod y Cynllun Adnau, lle dylid cwblhau adolygiad o unrhyw ddiweddariadau i WRMP Dŵr Cymru, ynghyd â manylion unrhyw echdyniadau dŵr eraill.

### ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr

9.3.12 Fel y trafodwyd yn **0** mae'r ACA yn dibynnu ar gynnal lefelau uchel o ddŵr o'r dŵr daear, ac o ganlyniad, gallai fod mewn perygl yn sgîl effeithiau galw cynyddol am ddŵr.

9.3.13 Fel y trafodwyd o ran ACA Cynffig ac ACA a Ramsar Cors Crymlyn, Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am gyflenwi a rheoli adnoddau dŵr ar draws rhannau helaeth o Gymru. Mae parth adnodd dŵr Tywi Gŵyr o dan bwysau, ond mae'r WRMP drafft ar hyn o bryd yn awgrymu bod modd posibl i reoli'r galw am y cyflenwad yn y dyfodol. Mae'r adnodd dŵr yn y parth hwn yn dibynnu ar gyflenwad cronfeydd, ac o ganlyniad ni ddisgwylir unrhyw gysylltedd hydrolegol rhwng yr ACA a'r CDLlA trwy gynnydd yn y boblogaeth.

9.3.14 At ei gilydd, felly, mae modd diystyru effeithiau niweidiol CDLlA CNPT ar swm dŵr ACA Glaswelltir Cefn Cribwr yn sgîl y galw am yr adnodd dŵr.

### Effeithiau cyfunol

9.3.15 Mae pob un o'r Cynlluniau a phedwar o'r Prosiectau (y Porthladd Rhydd Celtaidd, Canolfan Antur Cwm Afan, Parc Pelena a Fferm Solar Ystâd Penllergaer) sy'n rhan o'r asesiad cyfunol wedi cael eu hasesu fel rhai a allai fod ag effeithiau cyfunol o ran swm y dŵr/hydroleg. Nodwyd y llwybr effaith hwn ar gyfer pob un o'r Cynlluniau/Prosiectau hyn oherwydd yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer datblygu a/neu'r sbardun datblygu cynhenid a wreiddiwyd yn y Cynllun(iau), a allai effeithio ar swm, lefel a/neu lif dŵr ar y safleoedd/yn yr ardaloedd dan sylw. Ceir rhagor o fanylion ynghylch pob un o'r Cynlluniau a'r Prosiectau a aseswyd yn **Nhabl 8-1**.

9.3.16 Dylid ailasesu'r effeithiau cyfunol yng nghyfnod y Cynllun Adnau, os ychwanegir prosiectau a chynlluniau newydd yn y cyfnod interim.

## 9.4 Llygredd Atmosfferig

### ACA Cynffig

9.4.1 Mae holl nodweddion yr ACA yn sensitif i lefelau maetholion y dylanwadir arnynt gan ansawdd dŵr a dyddodiad maetholion atmosfferig. Mae llaciau twyni llaith, twyni sefydlog gyda llystyfiant sy'n blodeuo, ac L. loeselii hefyd yn sensitif i asid. Mae ansawdd dŵr yn effeithio ar lefelau maetholion, a gall dyddodiad nitrogen atmosfferig ddylanwadu ar hynny. Gall dyddodion asid ddeillio o lefelau llygredd atmosfferig sydd wedi codi, gan effeithio ar gemeg dŵr naill ai'n uniongyrchol trwy lefelau uchel o ethylen/ethan, neu'n anuniongyrchol. Mae ffynonellau llygredd aer gerllaw, megis gosodiadau diwydiannol, gweithgareddau amaethyddol, hen safleoedd tirlenwi, allyriadau trafnidiaeth a gronynnau sy'n cael eu chwythu gan y gwynt o domenni gerllaw, yn destun pryder.

9.4.2 Ar hyn o bryd, nid yw lefelau nitrogen atmosfferig (NOx) yn gritigol[42], ond mae perygl y gallai hynny newid oherwydd agosrwydd ffynonellau llygredd ac effeithiau cronnol. Mae canllawiau CNC ar gyfer Rheoli Llygredd Integredig (IPC) a chaniatâd Atal a Rheoli Llygredd (PPC) o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yn pennu lefelau meincnod ar gyfer dyddodion atmosfferig. Petai unrhyw ddatblygiad yn creu mwy nag 1% o'r ffigur meincnod perthnasol, byddai gofyn cynnal Asesiad Priodol (AP) llawn, ac os ceir hyd i effeithiau niweidiol, ni fydd y datblygiad yn dderbyniol.

9.4.3 Nododd y broses sgrinio Safleoedd Allweddol a allai gyfrannu at lygredd atmosfferig yr ACA. Mae'r rhain yn cynnwys y datblygiadau ym Mhort Talbot sy'n gysylltiedig â chyfleoedd cyflogaeth, yn ogystal â thir a ddyrannwyd ar gyfer datblygiad preswyl, o fewn 5km i'r ACA.

9.4.4 Safleoedd y CDLlA a allai gyfrannu at lygredd atmosfferig; gallai prosiectau ychwanegol fel y nodwyd yn yr asesiad cyfunol waethygu effaith llygredd aer.

9.4.5 Mae'r geiriad ym Mholisi PS18 Amddiffyn yr Amgylchedd yn cyfeirio'n arbennig at ddiogelu rhag effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, a nodir ansawdd aer yn benodol.

9.4.6 Yn y cyfnod hwn o'r CDLlA, felly, byddai'n briodol dod i'r casgliad na fyddai'r Cynllun yn arwain at effaith niweidiol ar integriti safle ACA, fodd bynnag dylid adolygu hynny yng nghyfnod y Cynllun Adnau er mwyn adolygu manylion ychwanegol a ddarparwyd ynghylch y

[42] Data yn APIS APIS app | Air Pollution Information System a gyrchwyd ar 15/10/24

safleoedd a ddyrannwyd ac a gawsant eu sgrinio'n briodol o ran y polisïau gwarchod yr amgylchedd sy'n rhan o'r Cynllun.

### ACA Cors Crymlyn / Ramsar Cors Crymlyn

9.4.7 Mae llygredd aer yn cael effaith sylweddol ar Gors Crymlyn, yn bennaf trwy ddyddodiad nitrogen atmosfferig a llygryddion eraill. Gall lefelau nitrogen uwch arwain at gyfoethogi maetholion, sy'n amharu ar gydbwysedd bregus ecosystem y gors hon. Mae'r cyfoethogi hwn yn hybu twf rhywogaethau mwy cystadleuol o blanhigion, fel glaswellt, sy'n gallu cystadlu'n well na'r fflora arbenigol sy'n nodweddu cynefinoedd cors, a'u disodli. Ar ben hynny, gall llygryddion fel sylffwr deuocsid ac amonia asideiddio'r pridd a'r dŵr, gan newid cemeg y cynefin ymhellach ac effeithio ar y rhywogaethau sy'n dibynnu arno. Gall effeithiau cronnol y llygryddion hyn ddiraddio integriti ecolegol Cors Crymlyn, gan arwain at golli bioamrywiaeth, a newidiadau yn strwythur a swyddogaeth cynefinoedd dyraniadau CDLlA a allai gyfrannu at lygredd atmosfferig.

9.4.8 Mae dyddodiadau nitrogen yn fygythiad sylweddol i ecosystemau cors yn y Deyrnas Unedig, gan effeithio ar fioamrywiaeth a storio carbon. Gall hyd yn oed lefelau isel o ddyddodiad N (7.7-10 kg $ha^{-1}$ $yr^{-1}$) gael effaith negyddol ar fryoffytau, cennau, a phlanhigion sy'n blodeuo (Phoenix et al., 2012). Mae ychwanegu N yn y tymor hir yn newid cemeg y pridd, yn cynyddu biomas bacteraidd, ac yn hybu gweithgarwch ensymau mewn mawn, fel bod sbwriel yn dadelfennu'n gynt, a llai o garbon yn cronni (Bragazza et al., 2012). Mae dyddodiad N uchel yn lleihau twf migwyn ac yn newid ei gydbwysedd cystadleuol â phlanhigion fasgwlaidd, a allai herio goroesiad y gors (Limpens, 2003). Mae mawndiroedd Prydain yn derbyn, ar gyfartaledd, 14.1 kg N $ha^{-1}$ $yr^{-1}$, gyda 69.6% o ardaloedd y tu hwnt i'r terfynau llwyth critigol (Payne, 2014). Er y rhagwelir y bydd dyddodiad N yn gostwng, mae'n debygol o barhau i gronni mewn mawn, gan achosi bygythiad parhaus i'r ecosystemau sensitif hyn (Payne, 2014).[43]

9.4.9 Fel y trafodwyd, yng nghyswllt ACA Cynffig, mae'r polisïau Gwarchod yr Amgylchedd yn cefnogi'r galw am ganiatáu datblygu a thwf yn awdurdod CNPT, o ran cefnogi'r gofyniad i warchod ansawdd aer.

9.4.10 Byddai rhagor o fanylion yn y polisi yng nghyfnod y Cynllun Adnau ynghylch sicrhau na fyddai effeithiau niweidiol ar Safleoedd Ewropeaidd o ran llygredd aer yn cryfhau'r Cynllun.

9.4.11 Yn y cyfnod hwn o'r CDLlA, felly, byddai'n briodol dod i'r casgliad na fyddai'r Cynllun yn arwain at effaith niweidiol ar integriti'r safle ACA, fodd bynnag, dylid adolygu hyn yng nghyfnod y Cynllun Adnau i adolygu manylion ychwanegol a ddarparwyd ar y safleoedd a ddyrannwyd, ac a ydynt wedi cael eu sgrinio'n briodol o ran y polisïau a geir yn y Cynllun ar gyfer gwarchod yr amgylchedd.

### ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr

9.4.12 Mae'r ACA yn un o brif gadarnleoedd y Deyrnas Unedig ar gyfer dolydd *Molinia* (Gwellt y bwla: H6410); mae'n un o bedwar safle sy'n cynrychioli'r math yma o gynefin yn ne a chanolbarth Cymru.

9.4.13 Nodweddir y safle hwn gan ddolydd ffen helaeth o M24 *Molinia – Cirsium dissectum*, gyda math is o ros croesddail *Erica tetralix* (Rhostir gwlyb gyda rhos croesddail; H4010). Ceir hefyd ffurfiau eraill o'r gymuned hon ar y safle, sy'n cynnwys cynrychiolaeth gryfach o laswellt, brwyn a hesg bychan, ynghyd â phontio i borfa *Molinia* a *Juncus* mwy asidig, gyda chynrychiolaeth dda o laswelltir niwtral sych a llystyfiant prysgwydd gwlyb. Mae'r rhywogaethau anghyffredin ac sy'n colli tir a gysylltir â dolydd *Molinia* y safle hwn yn cynnwys gwellt y wiber *Scorzonera humilis,* sy'n brin yn genedlaethol, a'r hesg meddalddail cenedlaethol prin, *Carex montana*.[44]

9.4.14 Mae effaith cynnydd yn y llwythi nitrogen ar gynefinoedd glaswelltir yn effeithio'n bennaf ar dwf rhywogaethau trwy lwybrau cymathu/metaboleiddio ffotosynthetig a nitrogen. Nid yw'r symptomau gweladwy yn amlwg, er y gall dail golli eu lliw os bydd crynodiadau uchel iawn (> 400 ug $m^3$) a gall cymhareb twf egin: gwreiddiau gynyddu. Mae newidiadau yng nghyfansoddiad rhywogaethau i gyfeiriad rhywogaethau sy'n goddef nitrogen, niwed i

fwsoglau, llysiau'r afu a chennau, a gostyngiad yn amrywiaeth rhywogaethau yn ddangosydd diagnostig mwy amlwg o effeithiau nitrogen[45].

9.4.15 Mae'r polisïau presennol ar gyfer gwarchod yr amgylchedd yn cefnogi'r angen am gydbwyso datblygu a thwf yn awdurdod CNPT, ochr yn ochr â sicrhau bod ansawdd aer yn cael ei ddiogelu. Byddai ychwanegu mwy o fanylion yng nghyfnod y Cynllun Adnau am atal effeithiau niweidiol ar Safleoedd Ewropeaidd oherwydd llygredd aer yn gwella'r Cynllun. Yn y cyfnod hwn o'r CDLlA, mae'n briodol dod i'r casgliad na fyddai'r Cynllun yn cael effaith niweidiol ar integriti safleoedd ACA. Fodd bynnag, dylid ailasesu hyn yng nghyfnod y Cynllun Adnau i adolygu manylion ychwanegol ar y safleoedd a ddyrannwyd a sicrhau eu bod wedi'u sgrinio'n briodol, yn unol â pholisïau'r Cynllun ar gyfer gwarchod yr amgylchedd.

### Effeithiau cyfunol

9.4.16 Aseswyd yr holl Gynlluniau a Phrosiectau sy'n rhan o'r asesiad cyfunol fel rhai ag effeithiau cyfunol posibl o ran llygredd atmosfferig. Nodwyd y llwybr effaith hwn ar gyfer pob un o'r Cynlluniau/Prosiectau hyn oherwydd yr hyn sy'n ofynnol er mwyn datblygu a/neu'r sbardun datblygu sydd wedi'i wreiddio yn y Cynllun(iau) a'r llygredd aer a phridd posibl o ganlyniad i weithgareddau adeiladu. Ceir manylion pellach ynghylch pob un o'r Cynlluniau a'r Prosiectau a aseswyd yn **Nhabl 8-1.**

9.4.17 Dylid ailasesu'r effeithiau cyfunol yng nghyfnod y Cynllun Adnau, os ychwanegir prosiectau a chynlluniau newydd yn y cyfnod interim.

[45] APIS https://www.apis.ac.uk/nitrogen-oxides-grasslands

# 10. Casgliadau

10.1.1 Mae'r cynllun yn cynnwys 18 o Bolisïau Strategol, y cafodd pob un ohonynt eu hystyried ar gyfer asesu pellach i bennu a allent arwain at LSE ar Safleoedd Ewropeaidd.

10.1.2 Aseswyd yr LSE yn unol â chanllawiau TAN5, sy'n golygu bod y polisïau a amlinellwyd yn y CDLlA oedd yn dod i'r amlwg yn cael eu gwirio'n systematig a'u rhoi mewn categori o A-M, a amlinellir yn llawlyfr ARhC DTA.

10.1.3 Eithriwyd 13 o'r polisïau hyn o asesu pellach ar sail canllawiau sgrinio DTA, a chyflwynwyd 5 ar gyfer asesu pellach o ganlyniad i'w potensial o ran effeithiau niweidiol ar Safleoedd Ewropeaidd. Mae'r polisïau hyn yn cynnwys:

- PS6 Ardaloedd Strategaeth;
- PS8 Tai;
- PS9 Manwerthu a Chanolfannau Masnachol;
- PS10 Twristiaeth; a
- PS11 Adferiad Economaidd

10.1.4 Cafodd PS6, PS8, PS9 a PS11 eu sgrinio i mewn ar gyfer AP yn unol â chategori sgrinio I yng nghanllawiau ARhC DTA, a chafodd PS10 ei sgrinio i mewn ar gyfer AP yn unol â chategori sgrinio L. Gellid egluro'r llwybrau effaith canlynol yn sgîl y polisïau hyn: pwysau hamdden, ansawdd dŵr, hydroleg a llygredd atmosfferig.

10.1.5 Ystyriwyd amrywiaeth o lwybrau effaith posibl yn ystod yr asesiad hwn. Mae pedwar o'r Polisïau Strategol yn y CDLlA yn gwarchod rhag effaith niweidiol, felly cafodd y llwybrau effaith canlynol eu sgrinio allan o asesu pellach: aflonyddu uniongyrchol ar rywogaethau a chynefinoedd, addasu cynefinoedd Safleoedd Ewropeaidd yn uniongyrchol, colli cynefin a gysylltir â swyddogaeth, ac effeithiau sŵn a dirgryniad. Nodwyd pedwar llwybr effaith yn y CDLlA, gan gynnwys llygredd atmosfferig, pwysau hamdden, ansawdd dŵr, a swm, lefel a llif dŵr.

10.1.6 Ystyriwyd yr effeithiau cyfunol gyda Chynlluniau a Phrosiectau eraill, ac ni ellir eithrio LSE ar y sail bod llawer o'r Cynlluniau a'r Prosiectau a aseswyd yn rhannu llwybrau effaith posibl gyda'r CDLlA.

10.1.7 Daeth yr AP i'r casgliad na ellid eithrio effeithiau niweidiol ar integriti safleoedd yn achos rhai llwybrau effaith yn y cyfnod hwn:

- ACA Cynffig: Pwysau hamdden ac ansawdd dŵr.
- ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr: Ansawdd dŵr.
- Bydd angen i lwybrau effaith eraill, megis llygredd atmosfferig a hydroleg, gael eu hailasesu yng nghyfnod y Cynllun Adnau i sicrhau nad oes effeithiau niweidiol ar integriti safleoedd.

10.1.8 Mae'r ARhC yn amlygu'r angen am asesu a mireinio polisïau ymhellach yng nghyfnod y Cynllun Adnau er mwyn ymdrin ag effeithiau niweidiol posibl ar Safleoedd Ewropeaidd. Mae hynny'n cynnwys edrych eto ar y llwybrau effaith sy'n gysylltiedig â phwysau hamdden, ansawdd dŵr, llygredd atmosfferig, a hydroleg, i sicrhau nad yw'r CDLlA yn peryglu integriti'r ardaloedd hyn a warchodir. Bydd mesurau lliniaru ac addasiadau polisi yn allweddol i gyflawni'r nod hwn.

# Cyfeiriadau

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC bellach) (2008a) Cynllun rheoli craidd – gan gynnwys Amcanion Cadwraeth: Ardal Cadwraeth Arbennig Coetir Blackmill

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC bellach) (2008b) Cynllun rheoli craidd – gan gynnwys Amcanion Cadwraeth: Ardal Cadwraeth Arbennig Blaen Cynon

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC bellach) (2008c) Cynllun rheoli craidd – gan gynnwys Amcanion Cadwraeth: Ardal Cadwraeth Arbennig Bannau Brycheiniog

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC bellach) (2008d) Cynllun rheoli craidd – gan gynnwys Amcanion Cadwraeth: Ardal Cadwraeth Arbennig Coedydd Nedd a Mellte

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC bellach) (2008e) Cynllun rheoli craidd – gan gynnwys Amcanion Cadwraeth: Ardal Cadwraeth Arbennig Cors Crymlyn

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC bellach) (2008f) Cynllun rheoli craidd – gan gynnwys Amcanion Cadwraeth: Ardal Cadwraeth Arbennig Cwm Cadlan

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC bellach) (2008g) Cynllun rheoli craidd – gan gynnwys Amcanion Cadwraeth: Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Dunraven

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC bellach) (2012) Cynllun rheoli craidd – gan gynnwys Amcanion Cadwraeth: Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC bellach) (2013a) Cynllun rheoli craidd – gan gynnwys Amcanion Cadwraeth: Ardal Cadwraeth Arbennig Cynffig

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CNC bellach) (2013b) Cynllun rheoli craidd – gan gynnwys Amcanion Cadwraeth: Ardal Cadwraeth Arbennig Glaswelltiroedd Cefn Cribwr

GOV.WALES (2009) Nodyn cyngor technegol (TAN) 5: cadwraeth natur a chynllunio

GOV.WALES (2020) Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LlCD) Argraffiad 3

GOV.WALES (2021) Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040

HM Government (1981). Wildlife and Countryside Act, HMSO, London.

HM Government (2006). Natural Environment and Rural Communities Act.

HM Government (2017). The Conservation of Habitats and Species Regulations 2017 (as amended), HMSO, London.

HM Government (2019). The Conservation of Habitats and Species (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019.

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2005) Taflen Wybodaeth ar Wlyptiroedd Ramsar: Moryd y Burry (UK14001) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2008) Taflen Wybodaeth ar Wlyptiroedd Ramsar: Cors Crymlyn (UK14006) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015a) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Coetir Blackmill (UK0030090) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015b) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Blaen Cynon (UK0030092) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015c) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Bannau Brycheiniog (UK0030096) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015d) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Moryd y Burry (UK9015011) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015e) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Caeau Mynydd Mawr (UK0030113) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015f) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Coedydd Nedd a Mellte (UK0030141) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015g) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Cors Crymlyn (UK0012885) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015h) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Cwm Cadlan (UK0013585) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015i) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Bae Dunraven (UK0030139) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015j) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Glaswelltiroedd Cefn Cribwr (UK0030105) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)(2015k) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Cynffig (UK0012566) *JNCC*

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015l) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: Afon Wysg (UK0013007) *JNCC*

Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2023): Fframwaith y Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Cyfoeth Naturiol Cymru (2018) Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. *Cyngor a roddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni Rheoliad 37 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017*.

Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) Cynllun rheoli craidd – Yn cynnwys Amcanion Cadwraeth: Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg *CNC*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (2016) Cynllun Datblygu Lleol (2011-2026). *Datganiad Mabwysiadu CDLl Castell-nedd Port Talbot* Ionawr 2016.

Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2020a) *CDLl Castell-nedd Port Talbot 2011-2026* Gorffennaf 2020.

Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2020b) Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2022) Cynllun Rheoli Cyrchfan Castell-nedd Port Talbot 2023 – 2028

Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2023) Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2023 – 2026


Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2023) Strategaeth Treftadaeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2024 – 2039

Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2024) Cynllun Corfforaethol Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2024 – 2027

Tyldesley, D., a Chapman C. (2013) The Habitats Regulations Assessment Handbook October 2013 edition UK: DTA Publications Limited

Llywodraeth Cymru (2021) Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040. Ebrill 2021


# Atodiad A Map o'r Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig o fewn 15km i Ardal y CDLlA




| Stantec | Client<br>Neath & Port Talbot Council | **Replacement Local Dev Plan**<br>European Designations within 15km of the Site Boundary | Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023<br>Contains data from OS Zoomstack<br>© Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024. | 1:250,000 @ A3<br>Drawn: SJ<br>Figure: 01 | Date: 21/10/2024<br>Checked: AC<br>Rev: A |
|---|---|---|---|---|---|

Document Path: C:\Users\sanjasper\OneDrive - Stantec\Documents\Projects\332611859\332611859.aprx

# Atodiad B Map o’r Safleoedd Allweddol a’r Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig o fewn 15km i Ardal y CDLlA




Client

Neath & Port Talbot Council

**Replacement Local Dev Plan**

European Designations within 15km of Considered Sites

0 10 20 km

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023
Contains data from OS Zoomstack
© Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024.

| | |
|---|---|
| 1:220,000 @ A3 | Date: 21/10/2024 |
| Drawn: SJ | Checked: AC |
| Figure: 02 | Rev: A |

Document Path: C:\Users\sanjasper\OneDrive - Stantec\Documents\Projects\332611859\332611859.aprx

# Atodiad C Bygythiadau a phwysau ar Safleoedd Ewropeaidd

**Safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'u cynnwys yn y sgrinio bras y manylir arno yn Adran 3 ynghyd â'r bygythiadau a'r pwysau a nodwyd.**

| Côd bygythiad | Disgrifiad o'r bygythiad / pwysau | ACA Cynffig | ACA Coedydd Nedd a Mellte | ACA a Safle Ramsar Cors Crymlyn | ACA Caeau Mynydd Mawr | ACA Glaswelltir Cefn Cribwr | ACA Coetir Blackmill | ACA Bae Dunraven | ACA Afon Wysg | ACA Bannau Brycheiniog | ACA Cwm Cadlan | ACA Blaen Cynon | ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin | ACA a Safle Ramsar Moryd y Burry |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A02 | Addasu arferion trin y tir | | X | | | | | | | | | | | |
| A03 | Torri glaswelltir | X | | | X | | | | | | | | | |
| A04 | Pori | X | X | X | X | X | X | | X | X | X | X | X | |
| A07 | Defnyddio bioladdwyr, hormonau a chemegion | X | | | | | | | | | | | | |
| A08 | Ffrwythloni | | | | | | | | | | X | | | |
| B02 | Rheoli a defnyddio Coedwigoedd a Phlanigfeydd | | | | | | | | X | | | | | |
| B07 | Gweithgareddau coedwigaeth (heb gynnwys: plannu coedwigoedd ar dir agored; rheoli a defnyddio coedwigoedd a phlanigfyedd; torri coedwigoedd heb ailblannu neu aildyfu naturiol; defnyddio bioladdwyr, hormonau a chemegion; a/neu bori mewn coedwigoedd/coetiroedd) | | | | | X | X | | X | | | | | |
| D03 | Môr-lwybrau, porthladdoedd, adeileddau ar y môr | | | | | | | | | | | | X | |
| E06 | Gweithgareddau trefoli, diwydiannol a gweithgareddau eraill tebyg | | | | | | | | | | | | X | |
| F01 | Dyframaethu Morol a Dŵr Croyw | | | | | | | | | | | | | |

| Côd bygythiad | Disgrifiad o'r bygythiad / pwysau | ACA Cynffig | ACA Coedydd Nedd a Mellte | ACA a Safle Ramsar Cors Crymlyn | ACA Caeau Mynydd Mawr | ACA Glaswelltir Cefn Cribwr | ACA Coetir Blackmill | ACA Bae Dunraven | ACA Afon Wysg | ACA Bannau Brycheiniog | ACA Cwm Cadlan | ACA Blaen Cynon | ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin | ACA a Safle Ramsar Moryd y Burry |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| F02 | Pysgota a chynaeafu adnoddau dŵr | X | | | | | | | | | | | X | X |
| F03 | Hela a chasglu anifeiliaid gwyllt (ar y tir), gan gynnwys difrod a achosir gan anifeiliaid hela (dwysedd gormodol), a chymryd/symud anifeiliaid y tir (gan gynnwys casglu trychfilod, ymlusgiaid, amffibiaid, adar ysglyfaethus ac ati, maglu, gwenwyno, potsio, rheoli ysglyfaethwyr, dal anifail yn ddamweiniol (e.e. yn sgîl gêr pysgota) ac ati | X | | | | | | | | | | | | |
| F04 | Cymryd / Symud planhigion y tir, yn gyffredinol | | | | | | | | | | | | X | |
| G01 | Gweithgareddau hamdden a chwaraeon awyr agored | X | X | | | | | | | | | | X | X |
| G04 | Defnydd milwrol ac aflonyddwch sifil | | | | | | | | | | | | | X |
| H01 | Llygru dyfroedd wyneb (llynnol a daearol, morol a lled hallt) | X | | X | | | | | X | | | | X | |
| H02 | Llygru dŵr daear (tarddleoedd penodol a gwasgaredig) | | | | | | | | | | | X | | |
| H03 | Llygru dŵr y môr | | | | | | | | | | | | X | X |
| H04 | Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr aer | X | X | X | X | X | X | | | X | X | X | X | X |
| H05 | Llygredd pridd a gwastraff solid (heb gynnwys gollyngiadau) | X | | X | X | | | | X | | | | X | |
| I01 | Rhywogaethau estron ymledol (INNS) | X | | | | X | X | | X | | | X | X | |

| Côd bygythiad | Disgrifiad o'r bygythiad / pwysau | ACA Cynffig | ACA Coedydd Nedd a Mellte | ACA a Safle Ramsar Cors Crymlyn | ACA Caeau Mynydd Mawr | ACA Glaswelltir Cefn Cribwr | ACA Coetir Blackmill | ACA Bae Dunraven | ACA Afon Wysg | ACA Bannau Brycheiniog | ACA Cwm Cadlan | ACA Blaen Cynon | ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin | ACA a Safle Ramsar Moryd y Burry |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I02 | Rhywogaethau brodorol sy'n achosi problemau | X | X | | | | X | | X | | X | | | |
| J01 | Tân ac atal tân | | | | | | | | | X | | | | |
| J02 | Newidiadau mewn amodau hydrolig a achosir gan weithgarwch dynol | X | | X | | X | | | | | X | X | X | |
| J03 | Addasiadau eraill i ecosystemau | X | | | X | X | | | X | | | X | | |
| K01 | Prosesau naturiol anfiotig (araf) | | | | | | | X | | | | | | |
| K02 | Esblygiad, olyniaeth biosenotig | X | | X | X | X | | | | X | X | X | | |
| K04 | Cysylltiadau fflurol rhyngrywogaethol | | X | | | | | | | | | | | |
| M01 | Newidiadau mewn amodau anfiotig | X | | | | | | | | | | X | X | X |

# Atodiad D Lleoliad y Safleoedd Allweddol mewn perthynas â Safleoedd Ewropeaidd

**Tabl crynodeb o'r Safleoedd Ewropeaidd sydd o fewn 15km i Safleoedd Allweddol y CDLIA (Darperir y pellter mewn cilometrau (km)).**

| Safle Allweddol y Strategaeth a Ffafrir | ACA Cynffig | ACA Coedydd Nedd a Mellte | ACA Cors Crymlyn | Safle Ramsar Cors Crymlyn | ACA Caeau Mynydd Mawr | ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr | ACA Coetir Blackmill | ACA Bae Dunraven | ACA Afon Wysg | ACA Bannau Brycheiniog | ACA Cwm Cadlan | ACA Blaen Cynon | ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin SAC | ACA Moryd y Burry | Safle Ramsar Moryd y Burry |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coed Hirwaun | 2km | >15km | 14km | 14km | >15km | 3.2km | 10km | 13.3km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km |
| Tir i'r Dwyrain o Rhos | >15km | >15km | 7.6km | 7.6km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km |
| Tir ger Blaenbaglan | 9.5km | >15km | 4.2km | 4.2km | >15km | 13.4km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km |
| Fferm y Fforest | >15km | 7km | 8.2km | 8.2km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km |
| Porthladd Port Talbot | 5km | >15km | 7.2km | 7.2km | >15km | 10.8km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km |
| Gwaith Dur Port Talbot | 1.4km | >15km | 10.1km | 10.1km | >15km | 7.2km | 14.5km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km |
| Parc Ynni Baglan | 9.4km | >15km | 2.9km | 2.9km | >15km | 14.7km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km |
| Y Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd | >15km | 4.1km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | >15km | 12.2km | 14.1km | 10.3km | 10km | >15km | >15km | >15km |
| Canolfan Antur Cwm Afan | 13.5km | 12.8km | 14.7km | 14.7km | >15km | 12.1km | 11.6km | >15km | >15km | >15km | >15km | 13.8km | >15km | >15km | >15km |

# Atodiad E Sgrinio Safleoedd Ewropeaidd yn seiliedig ar lwybrau effaith posib

**Crynodeb Sgrinio ARhC o'r llwybrau effaith rhwng y CDLlA a Safleoedd Ewropeaidd.**

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| ACA Cynffig | Cynefinoedd Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>1. Twyni sefydlog gyda llystyfiant blodeuog ("twyni llwyd")<br>2. Twyni sydd â *Salix repens* ssp. *Argentea* (*Salicion arenariae*)<br>3. Llaciau twyni llaith<br>*4.* Dyfroedd caled oligo-mesotroffig gyda llystyfiant dyfnforol *Chara* spp.<br><br>Cynefinoedd Anecs I sy'n cyflwyno fel nodwedd gymhwyso, ond nid fel prif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>5. Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-Puccinietalia maritimae*) | • Dirywio/darnio cynefinoedd trwy weithgareddau hamdden a gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored<br>• Llygru dyfroedd wyneb (dŵr llynnol a daearol, morol a lled hallt)<br>• Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr aer<br>• Llygredd pridd a gwastraff solid (heb gynnwys gollyngiadau)<br>• Lledaeniad rhywogaethau estron ymledol<br>• Lledaeniad rhywogaethau brodorol sy'n achosi problemau<br>• Addasiadau eraill i ecosystemau | Lleolir ACA Cynffig ar ffin ddeheuol ardal awdurdod CNPT. Gallai'r llwybrau effaith a nodwyd o ganlyniad i'r Cynllun ac effeithiau cyfunol, arwain at effaith sylweddol debygol (LSE).<br><br>Pwysau hamdden<br>Mae ACA Cynffig, ger Castell-nedd a Phort Talbot, yn safle bioamrywiol â chynefinoedd arfordirol a dŵr croyw, sy'n cynnwys tri math o gynefinoedd twyni a phoblogaeth tegeirian y fign galchog, sydd i gyd yn sensitif i ymwelwyr hamdden. Mae'r Cynllun Rheoli Craidd yn nodi bod sathru, cywasgu pridd, a gweithgareddau anghyfreithlon yn fygythiadau allweddol. Mae sathru gan geffylau wedi cael effaith sylweddol ar forfa heli yr Iwerydd, gyda cholli cynefinoedd yn cael ei nodi rhwng 1991 a 2000. Cyflwynwyd wardeiniaid a chyfyngiadau, gan gynnwys Cynllun Hawlenni Marchogaeth, er mwyn rheoli'r pwysau hyn. Gallai datblygu yn ardal Awdurdod Castell-nedd Port Talbot waethygu'r problemau hyn, gan arwain at ddirywiad pellach cynefinoedd a cholli bioamrywiaeth. Mae mesurau rheoli a lliniaru effeithiol yn hanfodol.<br><br>Ansawdd Dŵr<br>Mae cynefinoedd amrywiol ACA Cynffig yn dibynnu ar ddŵr croyw a dŵr daear hallt. Mae cynnal lefelau priodol o ddŵr yn hanfodol ar gyfer iechyd ei systemau twyni sy'n dibynnu ar gyfundrefn hydrolegol benodol. Mae'r ddyfrhaen galchfaen o dan y safle yn golygu bod gweithgareddau ymhell o'r safle yn gallu effeithio ar ei hydroleg.<br>Mae angen cyfundrefn hydrolegol sefydlog hefyd ar y dyfroedd oligo-mesotroffig caled gydag isrywogaeth Chara ar y safle.<br>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori bod tynnu dŵr yn nalgylch yr ACA yn cael ei reoli er mwyn amddiffyn y nodweddion sensitif hyn a chynnal integredd ecolegol y safle. | **Ni ellir diystyru LSE unigol neu gyfunol ar gyfer y llwybrau effaith canlynol:**<br>▪ **Pwysau Hamdden**<br>▪ **Ansawdd Dŵr**<br>▪ **Swm Dŵr**<br>▪ **Llygredd Atmosfferig** |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>6. Petal-lys (*Petalophyllum ralfsii*)<br>7. Tegeirian y Ffen (*Liparis loeselii*) | | Mae'r cynllun i ddatblygu 4,176 o anheddau newydd a 54 hectar o leoedd cyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn golygu y bydd mwy o alw am ddŵr yfed. Os yw'r caniatâd presennol ar gyfer tynnu dŵr yn annigonol, gall fod angen tynnu dŵr ychwanegol neu chwilio am darddleoedd newydd, gan olygu, o bosib, y bydd llai o ddŵr ar gael ar gyfer nodweddion dynodedig yr ACA.<br><br>Ansawdd Dŵr<br>Mae ACA Cynffig yn sensitif iawn i ansawdd dŵr oherwydd ei dibyniaeth ar dderbyn dŵr croyw a dŵr daear hallt. Mae lleithder ac amrywiaeth eithriadol system dwyni Cynffig yn uniongyrchol ddibynnol ar y gyfundrefn hydrolegol a hydrogemegol. Mae llystyfiant y llac o dan ddylanwad lefel uchel o drwythiad ynghyd ag ansawdd dŵr addas ac yn cael eu cynnal ganddynt. Mae pryderon sylweddol ynghylch ansawdd dŵr yn ymwneud â lefelau uwch o facrofaethynnau. Canfuwyd lefelau uwch o nitrogen yn Ffynnon Burrows (ffynnon garstig) yn elfen Merthyr Mawr, ac mae rhai arwyddion hefyd bod y llaciau twyni yn dod yn fwy a mwy ewtroffig. Mae natur y ddyfrhaen galchfaen waelodol yn golygu y gallai gweithgareddau oddi ar y safle, gryn bellter i ffwrdd hyd yn oed, effeithio ar yr ACA o ran lle ac amser. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn pwysleisio bod angen rheoli gwaith tynnu dŵr yn nalgylch yr ACA er mwyn amddiffyn y nodweddion sensitif hyn a chynnal integredd ecolegol y safle.<br><br>Llygredd Atmosfferig<br>Gallai nifer o nodweddion ACA Cynffig fod yn sensitif i effeithiau ansawdd aer. Roedd cynllun rheoli craidd yr ACA yn nodi y gallai'r effeithiau hyn ddeillio'n uniongyrchol o lefelau uchel o ethylen ac ethan neu ddeillio'n anuniongyrchol trwy newidiadau i gemeg y dŵr yn sgîl dyddodiadau nitrogen o'r | |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | | | atmosffer. Gall lefelau nitrogen ocsid (Nox) fod yn uwch na'r hyn a ganiateir oherwydd ffynonellau cyfagos, gan gynnwys gweithgareddau diwydiannol (megis y gwaith dur, ffatrïoedd cemegion, a gorsafoedd pŵer), gwaith amaethyddol (megis ffermydd ieir sy'n cynhyrchu amonia), hen safleoedd tirlenwi (allyriadau methan), trafnidiaeth (yr M4 yn fwyaf amlwg) a gronynnau a gludir ar y gwynt o domenni ailgylchu cyfagos.<br><br>Mae Coed Hirwaun, sy'n Safle Allweddol posib ar gyfer datblygiad preswyl, 2km o'r ACA.<br><br>Gallai Safleoedd Allweddol ar gyfer cyflogaeth ym Mhort Talbot a Gwaith Dur Port Talbot, ynghyd â'r prosiectau a gynllunnir yn yr asesiad cyfunol, arwain at effeithiau llygredd aer.<br><br>Mae gan y Safleoedd Ymgeisiol canlynol sydd o fewn 5km lwybrau effaith posibl ar gyfer yr ACA:<br>▪ Tir Ger Coed Hirwaun<br>▪ Tir gyferbyn â Coed Hirwaun<br>▪ Stryd y Dŵr, Margam<br>▪ Tir ger Afan Landscapes<br>▪ Tir yng Nghoed Hirwaun, Margam<br><br>**<u>Ni ellir diystyru EAD yn seiliedig ar holl lwybrau effaith posibl y Cynllun a'r effeithiau cyfunol posib, ac mae angen AP.</u>** | |
| ACA Coedydd Nedd a Mellte | <u>Cynefinoedd Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>1. Fforestydd *Tilio-Acerion* o lethrau, mariandir a hafnau | • Dirywio/darnio cynefinoedd trwy weithgareddau hamdden a gweithgareddau chwaraeon a hamdden awyr agored<br>• Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr aer | Lleolir yr ACA ar y ffin ogledd-ddwyreiniol, gyda rhan ohoni yn ardal CNPT, a'r rhan fwyaf ohoni yn ardaloedd awdurdod Powys ac awdurdod Rhondda Cynon Taf.<br><br><u>Pwysau Hamdden</u><br>Mae pwysau gweithgareddau hamdden ar ACA Coedydd Nedd a Mellte wedi arwain at erydu llwybrau troed a chynefinoedd cyfagos yn sylweddol a difrodi planhigion daear yn sgîl sathru. | Dim – Wedi'u sgrinio allan o'r AP. Nid oes LSE unigol neu gyfunol â phrosiectau a chynlluniau eraill. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | 2. Hen goetir derw digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain | • Lledaeniad rhywogaethau brodorol sy'n achosi problemau | Mae'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn gwaethygu'r problemau hyn, gan fod mwy o draed ar y ddaear yn treulio'r arwynebau naturiol, gan arwain at gywasgu'r pridd a cholli llystyfiant. Mae hyn yn effeithio nid yn unig ar werth esthetig ac ecolegol y safle ond hefyd yn aflonyddu ar gynefinoedd gwahanol rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid sy'n dibynnu ar yr ardaloedd hyn.<br><br>Mae Cynllun Rheoli Craidd yr ACA yn amlygu'r pryderon hyn ac yn amlinellu strategaethau rheoli parhaus i liniaru eu heffaith. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys cynnal a chadw a chryfhau'r llwybrau troed i atal erydu pellach, gosod arwyddion i arwain ymwelwyr i ffwrdd o ardaloedd sensitif, a hyrwyddo arferion twristiaeth cynaliadwy.<br>Ar ben hynny, mae ymdrechion ar waith i ddysgu ymwelwyr am bwysigrwydd cadw at y llwybrau dynodedig a lleihau hyd yr eithaf ar eu heffaith ar yr amgylchedd.<br><br>Er gwaetha'r camau hyn, mae'r mewnlifiad parhaus o ymwelwyr yn herio'r ymdrechion cadwraeth ar y safle. I reoli'r sefyllfa yn effeithiol, mae angen cadw'r ddysgl yn wastad rhwng caniatáu mynediad i'r cyhoedd a diogelu integredd naturiol y safle. Gall hyn olygu defnyddio camau rheoli llymach ar yr adegau prysuraf, cynyddu presenoldeb wardeiniaid i fonitro a rheoli ymddygiad ymwelwyr, a'r posibilrwydd o gyflwyno cwotâu ymwelwyr i gyfyngu ar nifer y bobl sy'n cael mynediad i'r ardaloedd mwyaf bregus.<br>Yn gyffredinol, er bod y cynlluniau rheoli yn allweddol i ymdrin â phwysau gweithgareddau hamdden, mae gwaith monitro parhaus a dulliau rheoli addasol yn hanfodol er mwyn gallu amddiffyn ACA Coedydd Nedd a Mellte yn y tymor hir.<br><br>Yn seiliedig ar y mesurau hyn a'r ffaith fod y Safle Allweddol agosaf 7km o'r ACA, mae'n annhebygol y bydd y CDLlA yn gwaethygu'r pwysau hamdden ac felly nid oes angen cynnwys | |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | | | LSE unigol neu gyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill. Fodd bynnag, dylai hyn gael ei ailasesu yn ystod cyfnod y Cynllun Adnau.<br><br>Llygredd Atmosfferig<br>Yn y gorffennol, bu llygredd atmosfferig yn yr ACA o dan ddylanwad gweithgareddau lleol, megis creu golosg a llosgi glo, ynghyd â'i hagosrwydd at ardaloedd diwydiannol Castell-nedd ac Abertawe, a achosodd ddyddodiadau sylweddol o sylffwr deuocsid fwy na thebyg. Er bod llawer llai o ddiwydiannau sy'n achosi llygredd mawr ac er bod lefelau sylffwr deuocsid cyfredol yn llawer is na lefelau'r gorffennol, mae'n bosib bod y llygryddion hyn o'r gorffennol yn dal i effeithio ar y safle. Mae gwell ansawdd aer yn ystod y degawdau diwethaf wedi bod yn fanteisiol i rai rhywogaethau bryoffytau a chen, sydd bellach yn ymledu i ardaloedd lle na chafwyd epiffytau o'r blaen (Blockeel et al. 2014). Ar ben hynny, mae rhai epiffytau gorgefnforol, megis Colura calyptrifolia ac Ulota calvescens, yn ymledu i Brydain o'r gorllewin, sy'n arwydd o ymateb cadarnhaol i'r aer glanach ac o bosib i'r newidiadau yn yr hinsawdd. Daw'r wybodaeth hon o "A bryophyte assessment of Coedydd Nedd a Mellte SAC and associated SSSIs, 2006 to 2017" gan G. Motley, 2017.<br><br>Deellir i raddau helaeth fod llygredd aer yn effeithio ar gymunedau'r bryoffytau yn yr ACA sy'n ffurfio rhan o'r nodwedd Tilio-Acerion, ond o ystyried lleoliad yr ACA, mae'r effaith bosib yn debygol o ymwneud â dylanwad llygredd gwasgaredig yn unig.<br><br>Mae dau Safle Allweddol o fewn 10km o'r ACA, sef Fferm y Fforest (datblygiad preswyl) sydd 7km i ffwrdd a'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (datblygiad trafnidiaeth) sydd 4.2km i ffwrdd. | |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | | | <u>Yn seiliedig ar leoliad y Safleoedd Allweddol a'r llwybrau effaith, gellir dod i'r casgliad fod y CDLlA yn annhebygol o waethygu effaith llygredd atmosfferig ar yr ACA ac o ganlyniad, nid oes angen cynnwys y llwybr effaith hwn yn yr</u> AP.<br><br><u>Ansawdd Dŵr</u><br>Gall newidiadau i ansawdd dŵr arwain at effeithiau negyddol ar y cynefinoedd dyfrol a glannau afon a gefnogir gan yr ACA. Er nad yw'r cynefinoedd hyn yn nodweddion cymwys penodol, bydd ansawdd dŵr yn cefnogi gweithrediad ehangach yr ACA.<br><br>Mae Safleoedd Allweddol y Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd wedi'u lleoli 4.2km i fyny'r afon o'r ACA a gallai gwaith adeiladu neu weithrediad y datblygiad hwnnw gael effaith niweidiol ar yr ACA.<br><br>Fel y gwelir yn Adran 8, daeth ARhC a gwblhawyd ar gyfer datblygiad y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd i'r casgliad na fyddai LSE oherwydd y byddai'r pellter yn cyweirio unrhyw broblemau llygredd lleol '*byddai unrhyw lygru / gwaddoli mewn cyrsiau dŵr cysylltiedig wedi cael eu gwanedu ac ni fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol ar yr ACA.'*<br><br>Nid oes unrhyw Safleoedd Allweddol na Safleoedd ymgeisiol i fyny'r afon o'r ACA. Yn seiliedig ar leoliad y Safleoedd Allweddol a'r llwybrau effaith, gellir dod i'r casgliad fod y CDLlA yn annhebygol o waethygu'r effaith ar ansawdd dŵr yr ACA ac o ganlyniad, nid oes angen cynnwys y llwybr effaith hwn yn yr AP. | |
| ACA Cors Crymlyn | <u>Cynefinoedd Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>Ffeniau Calchaidd sy'n cynnwys *Cladium mariscus* a rhywogaethau o *Caricion* | • Llygru dyfroedd wyneb (dŵr llynnol a daearol, morol a lled hallt) | Wedi'i leoli ar ochr orllewinol yr awdurdod, mae'r safle'n gorgyffwrdd ag ardaloedd awdurdodau CNPT ac Abertawe.<br><br><u>Ansawdd Dŵr, Swm Dŵr a Llygredd Atmosfferig</u> | **Ni ellir diystyru LSE unigol neu gyfunol ar gyfer y llwybrau effaith canlynol:** |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o’r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o’r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi’u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | *davallianae*<br>Siglenni pontio a chorsydd crynedig<br>Mae cynefinoedd Anecs I yn cyflwyno fel nodwedd gymhwyso, ond nid fel prif reswm dros ddethol y safle:<br>Fforestydd llifwaddodol sy’n cynnwys *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior* (*Alno-Padion, Alnion incane, Salicion albae*) | • Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr aer<br>• Llygredd pridd a gwastraff solid (heb gynnwys gollyngiadau) | Mae Cynllun Rheoli Craidd yr ACA yn sôn am bwysigrwydd rheoli’r safle yn barhaus er mwyn cynnal nodweddion yr ACA a’r safle Ramsar, gan gynnwys *‘Bydd mesurau amddiffyn ehangach yn diogelu lefelau dŵr, ansawdd y dŵr ac effeithiau llygredd atmosfferig ar y safle; bydd hyn yn cynnwys mesurau i leihau hyd yr eithaf ar effaith tarddleoedd hysbys cyfagos sy’n cynnwys safle tirlenwi Tir John, safle purfa olew Llandarcy gynt (sydd bellach yn cael ei ailddatblygu yn bentref trefol Coed  Darcy) a chyrsiau dŵr megis Nant Crymlyn.’*<br><br>Gallai pwysau hamdden, megis erydu, sathru a mathau eraill o aflonyddu ar gynefinoedd yn sgîl gweithgareddau hamdden, ynghyd â phwysau trefol megis sbwriel, tipio anghyfreithlon a thanau, effeithio ar Gors Crymlyn. Gallai’r problemau hyn ddwysáu yn sgîl datblygiadau tai newydd ger yr ACA, sy’n arwain at fwy o bobl yn cael mynediad i’r safle ac yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, ni sonnir am y llwybr effaith hwn yn amcanion cadwraeth y safle.<br><br>Mae’r Safleoedd Ymgeisiol canlynol sydd â llwybrau effaith posibl i’r ACA wedi’u lleoli o fewn 5km:<br>▪ Tir ger Bryn Teg<br>▪ Compton Mews, Cefn 11- 19 Stryd y Castell Sgiwen<br>▪ Tir i’r dwyrain o Fferm Tyla Morris, Heol Pant Howell Ddu, Ynysmaerdy, Llansawel, SA11 2TU<br>▪ Tir i’r de-orllewin o Gimla (Cynnig 2)<br>▪ Tir yn Heol Tir Morfa, Sandfields (Cynnig 2)<br>▪ Tir ym Mlaenbaglan<br>▪ Tir Blaen Baglan Safle 2<br>▪ Tir Blaen Baglan Safle 1 | ▪ **Ansawdd Dŵr**<br>▪ **Swm Dŵr**<br>▪ **Llygredd Atmosfferig** |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | | | **<u>Ni ellir diystyru LSE yn seiliedig ar holl lwybrau effaith posibl y Cynllun a'r effeithiau cyfunol posibl, ac mae gofyn cynnal AP.</u>** | |
| Safle Ramsar Cors Crymlyn | 1. Ffen topogenaidd<br>2. Plu'r gweunydd main<br>3. Cynulliad infertebratau mawndir | • Llygru dyfroedd wyneb (dŵr llynnol a daearol, morol a lled hallt)<br>• Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr aer<br>• Llygredd pridd a gwastraff solid (heb gynnwys gollyngiadau) | Gweler uchod | Gweler uchod |
| ACA Caeau Mynydd Mawr | <u>Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>Pili pala britheg y gors (*Euphydryas* (*Eurodryas*, *Hypodryas*) *aurinia*)<br><u>Cynefinoedd Anecs I sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond heb fod yn brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>Dolydd *Molinia* ar bridd calchaidd, mawnog neu sy'n llawn clai a gwaddod (*Molinion caeruleae*) | • Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr aer<br>• Llygredd pridd a gwastraff solid (heb gynnwys gollyngiadau)<br>• Addasiadau eraill i ecosystemau | Wedi'i leoli 8.2km i'r gorllewin o ffin orllewinol ardal awdurdod CNPT.<br><br>Mae Cynllun Rheoli Craidd yr ACA yn sôn bod '*ansawdd a statws sylfaen y dŵr daear yn dylanwadu'n gryf ar gymunedau'r glaswelltir corsiog. Gall dirywiad yn ansawdd a swm y dŵr yn y ffynhonnau a'r cyrsiau dŵr sy'n bwydo'r safle arwain at golli glaswelltir corsiog neu newidiadau yng nghyfansoddiad y rhywogaethau. I'r gwrthwyneb, gallai llai o ddraenio/rhwystro draenio arwain at ferddyfroedd daear a newid gwahanol yng nghyfansoddiad y rhywogaethau, e.e. bod brwyn yn dod yn fwy toreithiog.*'<br><br>Nid yw britheg y gors, sef nodwedd gymhwyso'r ACA, yn gallu symud yn bell. Credir yn gyffredinol ei bod yn rhywogaeth tra lleol a llonydd, y mae ei larfâu yn bwydo ar damaid y cythraul o fewn ffin ddynodedig y safle. Fel oedolion fodd bynnag gall y gwryw a'r benyw wasgaru o'u llecynnau porthiant blaenorol. Dengys gwaith ymchwil bod britheg y gors, gwryw a benyw, ar gyfartaledd yn teithio 1.5km a 510m yn y drefn honno[46]. Gan | Dim – Wedi'i sgrinio allan o'r AP. Nid oes LSE unigol neu gyfunol â phrosiectau a chynlluniau eraill. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | | | Hynny, gallai unrhyw laswelltir gwlyb lle mae tamaid y cythraul yn tyfu ac sydd o fewn 1.5km i ffin yr ACA fod yn gynefin â chysylltiad swyddogaethol ar gyfer y boblogaeth breswyl o bili palod.<br><br>Mae'r bygythiadau allweddol i amcanion cadwraeth y safle yn gysylltiedig â'r effeithiau uniongyrchol a'r rhai y soniwyd amdanynt uchod. Yn seiliedig ar y diffyg cysylltiad hydrolegol rhwng y CDLlA a'r safle a'r ffaith nad oes yr un Safle Allweddol wedi'i leoli o fewn 15km i'r ACA, mae'r safle wedi'i sgrinio allan o'r AP mewn perthynas â'r holl lwybrau effaith posibl. | |

[46] Wahlberg, N., Klemtti, T., Selonen, V. & Hanski, I. (2002). Metapopulation structure and movements in five species of checkerspot butterflies. Oecologia 130: 2074-2091

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr | <u>Cynefinoedd Anecs I sy'n brif reswm dros dethol y safle hwn:</u><br>1. Dolydd *Molinia* ar bridd calchaidd, mawnog neu glaeog, llawn gwaddod (*Molinion caeruleae*)<br><u>Rhywogaethau Anecs II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond heb fod yn brif rheswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>1. Britheg y gors (*Euphydryas (Eurodryas, Hypodryas)* *aurinia*) | • Llygredd aer, llygryddion a gludir yn yr aer<br>• Lledaeniad rhywogaethau estron ymledol<br>• Addasiadau eraill i ecosystemau | Wedi'i leoli 400m i'r de-orllewin o ffin ddeheuol ardal awdurdod CNPT.<br><br>Dywed Cynllun Rheoli Craidd yr ACA bod '*ansawdd a statws sylfaen y dŵr daear yn dylanwadu'n gryf ar gymunedau'r glaswelltir corsiog. Gall dirywiad yn ansawdd a swm y dŵr yn y ffynhonnau a'r cyrsiau dŵr sy'n bwydo'r safle arwain at golli glaswelltir corsiog neu newidiadau yng nghyfansoddiad y rhywogaethau. I'r gwrthwyneb, gallai llai o ddraenio/rhwystro draenio arwain at ferddyfroedd daear a newid gwahanol yng nghyfansoddiad y rhywogaethau, e.e. bod brwyn yn dod yn fwy toreithiog.*<br><br>Nid yw britheg y gors, sef nodwedd gymhwyso'r ACA, yn gallu symud yn bell. Credir yn gyffredinol ei bod yn rhywogaeth tra lleol a llonydd, y mae'i larfau yn bwydo ar damaid y cythraul o fewn ffin ddynodedig y safle. Fel oedolion fodd bynnag gall y gwryw a'r benyw ymwasgaru o'u llecynnau porthiant blaenorol. Dengys gwaith ymchwil bod britheg y gors, gwryw a benyw, ar gyfartaledd yn teithio 1.5km a 510m yn y drefn honno[47] . Gan | **Ni ellir diystyru LSE unigol neu gyfunol ar gyfer y llwybrau effaith canlynol:**<br>▪ **<u>Ansawdd Dŵr</u>**<br>▪ **<u>Swm Dŵr</u>**<br>▪ **<u>Llygredd Atmosfferig</u>** |

[46] Wahlberg, N., Klemtti, T., Selonen, V. & Hanski, I. (2002). Metapopulation structure and movements in five species of checkerspot butterflies. Oecologia 130: 2074-2091

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | *Hypodryas*) *aurinia*) | | hynny, gallai unrhyw laswelltir gwlyb lle mae tamaid y cythraul yn tyfu ac sydd o fewn 1.5km i ffin yr ACA fod yn gynefin â chysylltiad swyddogaethol ar gyfer y boblogaeth breswyl o bili palod.<br><br>Mae un Safle Allweddol arfaethedig yn y CDLIA, sef Coed Hirwaun, 3.4km o'r ACA.<br><br>Mae i'r Safleoedd Ymgeisiol canlynol, sydd wedi'u lleoli o fewn 5km, lwybrau effaith posibl i'r ACA:<br>▪ Tir Ger Coed Hirwaun<br>▪ Tir yng Nghoed Hirwaun, Margam<br>▪ Tir gyferbyn â Coed Hirwaun<br>▪ Tir ger Afan Landscapes<br>▪ Water Street, Margam<br><br>Gall y CDLIA gael effaith bosibl yn sgîl llygredd atmosfferig a newidiadau posibl i ansawdd a swm y dŵr. Gan hynny, gallai'r llwybrau hyn arwain yn uniongyrchol at effeithiau. Cymerir y safle hwn ymlaen i AP mewn perthynas â'r llwybrau effaith hyn. | |
| ACA Coetir Blackmill | <u>Cynefin Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn</u><br>Hen goedydd derw digoes gydag *Ilex* a *Blechnum* yn Ynysoedd Prydain | • Llygredd aer<br>• Rhywogaethau estron ymledol<br>• Lledaeniad rhywogaethau brodorol sy'n achosi problemau | Wedi'i leoli 6.5km i'r dwyrain o ffin dde-ddwyreiniol ardal awdurdod CNPT.<br><u>Pwysau Hamdden</u><br>Mae coetiroedd cymhwyso ACA Coetiroedd Melin Ifan Ddu, a ddynodwyd oherwydd yr hen goedydd derw â mes di-goes, gydag Ilex a Blechnum, yn sensitif i effeithiau hamdden trwy amryw o fecanweithiau. Fodd bynnag, mae CNPT y tu hwnt i'r dalgylch hamdden craidd nodweddiadol ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd mewndirol, sef 5km, a dylid nodi bod safleoedd coetir eraill | Dim – Wedi'i sgrinio allan o'r AP. Nid oes LSE unigol neu gyfunol â phrosiectau a chynlluniau eraill. |

[47] Wahlberg, N., Klemtti, T., Selonen, V. & Hanski, I. (2002). Metapopulation structure and movements in five species of checkerspot butterflies. Oecologia 130: 2074-2091

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | | | sy'n llawer agosach at drigolion CNPT. Ar ben hynny, nid yw'r Cynllun Rheoli Craidd yn nodi bod mynediad hamdden yn ffactor sy'n effeithio ar gyflwr y coedydd derw. Ar y cyfan, felly, ni fydd y CDLIA yn cael LSE ar ACA Coetir Blackmill o ran pwysau hamdden ac mae'r llwybr effaith hwn wedi'i sgrinio allan o'r AP mewn perthynas â'r safle Ewropeaidd hwn.<br><br><u>Llygredd Atmosfferig</u><br>Ystod nitrogen CL y cynefin coetir yw 10-15 kg N/ha/y flwyddyn yn ôl APIS. Gall lefel CL sy'n uwch na'r isafswm hwn arwain at nifer o effeithiau ar goed, gan gynnwys ffafrio tyfu ar i fyny yn hytrach na thyfu gwreiddiau (ynghyd â mwy o berygl o straen yn sgîl sychder a dadwreiddio), newidiadau mewn fflora mycorhysol, cynhyrchu mwy o ddeiliach marw a dysychiad yn ystod y gaeaf. Mae effeithiau tebygol $NH_3$, $NO_x$ a chyfanswm y dyddodiadau nitrogen yn debygol o ddeillio o'r ffyrdd a'r ardaloedd trefol cyfagos.<br><br>Nid oes Safleoedd Allweddol o fewn 10km o'r ACA. Yn seiliedig ar y pellter o ardal y CDLIA a'r Safleoedd Allweddol, nid yw llygredd atmosfferig yn debygol o gael LSE ar ACA Coetir Blackmill ac nid yw'r llwybr effaith hwn wedi'i gynnwys. Mae'r safle wedi'i sgrinio allan o'r AP mewn perthynas â'r llwybr effaith hwn. | |
| ACA Bae Dunraven | <u>Rhywogaeth Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>*Rumex rupestris* (tafolen y traeth) | • Amherthnasol | Wedi'i lleoli 11.5km i'r de o ffin ddeheuol ardal awdurdod CNPT.<br><br><u>Pwysau Hamdden</u><br>Mae tafolen y twyni, sy'n rhywogaeth gymhwyso, yn agored i effeithiau negyddol sy'n deillio o ddefnydd hamdden, gan gynnwys difrod yn sgîl sathru ar blanhigion unigol, erydu ymylon llwybrau, cywasgiad pridd a gorfaethu. | Dim – Wedi'i sgrinio allan o'r AP. Nid oes LSE unigol neu gyfunol â phrosiectau a chynlluniau eraill. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | | | <u>Llygredd Atmosfferig</u><br>10-20 kg N/ha/ flwyddyn yw lefel nitrogen CL tafolen y twyni. Yn gyffredinol, mae perygl y gallai lefel CL sy'n uwch na'r isafswm newid cyfansoddiad y gymuned gan ffafrio graminoidau a fyddai ar yr un pryd yn arwain at golli cysgod tafolen y twyni mewn unrhyw ardal benodol.<br><br><u>Swm ac Ansawdd y Dŵr</u><br>Mae cymunedau tafolen y twyni yn agored i newidiadau yn swm ac ansawdd y dŵr, fodd bynnag nid ystyrir bod cysylltiad arwyddocaol rhwng yr ACA ac unrhyw gyrff dŵr wyneb a/neu ddŵr daear ac nid yw'n ddibynnol arnynt.<br><br>Yn seiliedig ar y pellter at ffin y CDLlA a'r ffaith fod y Safle Allweddol agosaf yn 13.3km o'r ACA, mae'r safle wedi'i sgrinio allan o'r AP yng nghyswllt y llwybrau effaith hyn. | |
| ACA Afon Wysg | <u>Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>Llysywen bendoll y môr *Petromyzon marinus*<br>Llysywen bendoll y nant *Lampetra planeri*<br>Llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis*<br>Gwangen *Alosa fallax*<br>Eog *Salmo salar*<br>Penlletwad *Cottus gobio* | • Llygru dyfroedd wyneb (dŵr llynnol a daearol, morol a lled hallt)<br>• Llygredd pridd a gwastraff solid (heb gynnwys gollyngiadau)<br>• Rhywogaethau estron goresgynnol<br>• Lledaeniad rhywogaethau brodorol sy'n achosi problemau<br>• Addasiadau eraill i ecosystemau | Wedi'i lleoli 11km i'r gogledd o ffin ogleddol ardal awdurdod CNPT.<br><br><u>Pwysau Hamdden</u><br>Fel y nodir yn y Cynllun Rheoli Craidd: mae twristiaeth a hamdden, sy'n troi o gwmpas ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y mae afon Wysg yn llifo trwyddi, yn rhan bwysig o'r economi leol. Yn draddodiadol, mae'r defnydd hamdden o afon Wysg wedi canolbwyntio ar bysgota, gyda'r eog a'r brithyll yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer llawer o'r gwaith rheoli ar yr afon, a gyflawnir trwy wahanol brosiectau a gyllidir gan elusen bysgota ac amgylcheddol Sefydliad Gwy ac Wysg.<br><br><u>Ansawdd y Dŵr</u> | Dim – Wedi'i sgrinio allan o'r AP. Nid oes LSE unigol neu gyfunol â phrosiectau a chynlluniau eraill. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | Dyfrgi *Lutra lutra*<br><br>Rhywogaethau Anecs II sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond heb fod yn brif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>Herlyn *Alosa alosa*<br><br>Cynefinoedd Anecs I nad ydynt yn brif reswm dros ddethol y safle hwn<br>Dyfrffydd ar lefel y gwastatir i'r mynydd gyda llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion* | | Mae llygredd o ddraeniau trefol, prosiectau gwella ffyrdd, tir wedi'i halogi a gwahanol darddleoedd domestig a diwydiannol yn gallu bod yn sylweddol a rhaid ei reoli'n briodol. Mae llygredd tarddle penodol o weithfeydd trin carthion ar raddfa fawr wedi lleihau yn sylweddol ac ni welir torri safonau ansawdd dŵr fel mater o drefn bellach, ond mae problemau lleol yn parhau gyda gorlif carthffosiaeth gyfun a chamgysylltu carthffosydd. Mewn isafonydd llai, mae systemau trin carthion preifat, gan gynnwys tanciau carthion sydd heb eu cynnal a'u cadw'n dda, hefyd yn gallu diraddio ansawdd y dŵr, ac yn aml ni fydd hynny'n gael ei ddarganfod trwy waith monitro arferol. Rhaid i berchnogion y systemau hyn eu cofrestru â Cyfoeth Naturiol Cymru a sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir<br><br>Swm Dŵr<br>Mae llif yr afon yn sylfaenol bwysig i'r ACA ac mae'n cefnogi'r cynefinoedd sy'n sail i ddynodiad y safle. Gallai cynnydd yn y galw am adnoddau dŵr gael effaith niweidiol ar yr ACA.<br><br>Nid oes cysylltiadau hydrolegol rhwng awdurdod CNPT a'r ACA y gellir priodoli effeithiau iddynt. Mae'n bosib y gallai twristiaeth a defnydd hamdden o'r ACA gynyddu ond mae'n hynny'n annhebygol o fod yn arwyddocaol.<br><br>Mae'r Safleoedd Allweddol a gynigiwyd ar gyfer eu datblygu yn fwy na 15km o'r ACA ac felly mae'r safle wedi'i sgrinio allan o'r AP yng nghyswllt y llwybrau effaith hyn. | |
| ACA Bannau Brycheiniog | Cynefin Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>Llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant yn yr hafnau | • Llygredd aer | Wedi'i lleoli 12.5km I'r gogledd o ffin ogleddol ardal awdurdod CNPT.<br><br>Llygredd atmosfferig | Dim – Wedi'i sgrinio allan o'r AP. Nid oes LSE unigol neu gyfunol â phrosiectau a chynlluniau eraill. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | Llethrau creigiog silicaidd gyda llystyfiant yn yr hafnau<br><br><u>Cynefin Anecs I sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nad yw'n brif reswm dros ddethol y safle:</u><br>Rhostir sych Ewropeaidd<br><br><u>Cynefin Anecs I sy'n bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond nad yw'n brif reswm dros ddethol y safle:</u><br>Cymunedau llysiau tal hydroffilaidd ar y gwastatir ac ar lefelau'r mynydd a'r mynydd-dir alpaidd | | Mae'r Cynllun Rheoli Craidd yn datgan bod: Nifer o brosesau eang a pharhaus sy'n deillio o weithgarwch dynol yn newid yr amodau amgylcheddol ac ecolegol, ac yn achosi pryder ym Mannau Brycheiniog ac mewn ardaloedd ucheldir eraill ym Mhrydain. Mae hyn yn cynnwys asideiddio glaw a phriddoedd oherwydd llygredd atmosfferig, a gorfaethu (yn enwedig lefelau uwch o nitrogen a ffosfforus), trwy gyfuniad o lygredd atmosfferig, tail/troeth gormodol yn yr ardaloedd a ffafrir ar gyfer pori stoc a mewnbwn arall o darddleoedd gwasgaredig. Mae mwsoglau, llysiau'r afu a chen yn arbennig o agored i niwed yn sgîl llygredd o darddleoedd atmosfferig.<br><br>Nid oes cynigion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau cyflogaeth na phreswyl ar Safleoedd Allweddol sydd o fewn 15km i'r ACA ac felly mae'r safle wedi'i sgrinio allan o'r AP yng nghyswllt y llwybrau effaith hyn. | |
| ACA Cwm Cadlan | <u>Cynefinoedd Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:</u><br>1. Dolydd *Molinia* ar bridd calchaidd, mawnog neu glaeog, llawn gwaddod (*Molinion* | • Llygredd aer<br>• Newidiadau i amodau hydrolig sy'n deillio o weithgarwch dynol<br>• Lledaeniad rhywogaethau brodorol sy'n achosi problemau<br>• Addasiadau eraill i ecosystemau | <u>Llygredd aer</u><br>Gallai dyddodiad atmosfferig ar y safle hwn niweidio nodwedd y ffen alcalinaidd. Mae dyddodiad llwch yn debygol o fod yn uchel o ystyried pa mor agos yw'r ACA i Chwarel Penderyn. Ni chyhoeddwyd llwyth critigol y llygrydd hwn yn erbyn y cynefin yma a dylid cymryd bod hynny'n arwydd o ddiffyg effaith. Amcangyfrifir bod y dyddodiadau N atmosfferig yn yr ardal hon yn 21.8 kg N/ha/y flwyddyn sy'n uwch na therfyn isaf y llwyth critigol ar gyfer y llygrydd hwn (15-35 kg N / ha / y flwyddyn). | Dim – Wedi'i sgrinio allan o'r AP. Nid oes LSE unigol neu gyfunol â phrosiectau a chynlluniau eraill. |

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | *caeruleae*)<br>Ffen alcalïaidd | | Mae'n debygol bod llwyth critigol N ar gyfer ffeniau alcalinaidd math M10 o gwmpas pen isaf yr ystod hon.<br><br><u>Swm Dŵr</u><br>Mae problemau o ran ansawdd dŵr yn gysylltiedig â defnydd tir cyfagos yn hytrach na chefnogaeth tarddleoedd dŵr wyneb neu ddŵr daear. Dywed y Cynllun Rheoli Craidd: Y pryder mwyaf yw'r newidiadau yn yr hydroleg bresennol, er y gallai hyn gael effaith fwy uniongyrchol ar y ffen alcalinaidd. Byddai draeniau newydd neu ddyfnhau'r draeniau presennol yn arwain at lystyfiant sy'n llai gwlyb. Gallai'r chwarel weithredol gyfagos sy'n gweithio o dan y ddyfrhaen, gyda'r dŵr yn cael ei bwmpio i ffwrdd, effeithio ar yr hydroleg.<br><br>Nid oes cynigion ar gyfer datblygiadau cyflogaeth na phreswyl ar y Safleoedd Allweddol sydd o fewn 15km i'r ACA ac felly mae'r safle wedi'i sgrinio allan o'r AP yng nghyswllt y llwybrau effaith hyn. | |
| ACA Blaen Cynon | <u>Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn</u><br>Pili Pala Britheg y gors *Euphydryas* (*Eurodryas, Hypodryas*) *aurinia* | • Addasiadau eraill i ecosystemau<br>• Llygredd aer<br>• Rhywogaethau estron ymwthiol<br>• Llygru dŵr daear (tarddleoedd penodol a gwasgaredig)<br>• Newidiadau i amodau hydrolig sy'n deillio o weithgarwch dynol | Nid yw britheg y gors, sef nodwedd gymhwyso'r ACA, yn gallu symud yn bell. Credir yn gyffredinol ei bod yn rhywogaeth tra lleol a llonydd, y mae ei larfâu yn bwydo ar damaid y cythraul o fewn ffin ddynodedig y safle. Fel oedolion fodd bynnag gall y gwryw a'r benyw wasgaru o'u llecynnau porthiant blaenorol. Dengys gwaith ymchwil bod britheg y gors, gwryw a benyw, ar gyfartaledd yn teithio 1.5km a 510m yn y drefn honno[48]. Gan hynny, gallai unrhyw laswelltir gwlyb lle mae tamaid y cythraul yn tyfu ac sydd o fewn 1.5km i ffin yr ACA fod yn gynefin â chysylltiad swyddogaethol ar gyfer y boblogaeth breswyl o bili palod. | Dim – Wedi'i sgrinio allan o'r AP. Nid oes LSE unigol neu gyfunol â phrosiectau a chynlluniau eraill. |

[48] Wahlberg, N., Klemtti, T., Selonen, V. a Hanski, I. (2002). Metapopulation structure and movements in five species of checkerspot butterflies. Oecologia 130: 2074-2091

| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| | | | Nid oes cynigion ar gyfer datblygiadau cyflogaeth na phreswyl ar y Safleoedd Allweddol sydd o fewn 15km i'r ACA ac felly mae'r safle wedi'i sgrinio allan o AP yng nghyswllt y llwybrau effaith hyn. | |
| ACA Bae ac Aberoedd Caerfyrddin | Cynefin Anecs I sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>Cefnenni tywod sy'n cael eu gorchuddio i ryw raddau gan ddŵr y môr drwy'r amser<br>Aberoedd<br>Traethellau lleidiog a thraethellau tywod nad yw dŵr y môr yn eu gorchuddio adeg llanw isel<br>Morydau a baeau bas mawr<br>Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill yn byw ar y llaid a'r tywod<br>Dolydd heli Iwerydd (*Glauco-uccinellietalia maritimae*)<br>Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle hwn:<br>Gwangen *Alosa fallax*<br>Rhywogaethau Anecs II sy'n | • Cyfundrefn geoffisegol: addasu prosesau cludo gwaddodion; newidiadau i'r is-haen<br>• Paramedrau amgylcheddol sylfaenol: newidiadau i waddodion crog, afloywder; ocsigen tawdd<br>• Ansawdd amgylcheddol: gorfaethu; adfer symudedd halogyddion gwenwynig ac anwenwynig<br>• Aflonyddu corfforol: gorchuddio, dadleoli, gwrthdaro, sŵn a gweledol<br>• Ail-greu: gwaredu rhywogaethau targed neu aflonyddu arnynt. | Lleolir yr ACA 12.5km i'r gorllewin o ffin ogledd-orllewinol ardal awdurdod CNPT.<br><br>Mae cysylltiad hydrolegol posibl â gogledd-orllewin ardal awdurdod CNPT yn Nyffryn Aman. Mae afon Aman yn llifo o ffin ogleddol awdurdod CNPT i Bantyffynnon lle mae'n ymuno ag afon Llwchwr.<br><br>Rhaid amddiffyn rhag effeithiau uniongyrchol datblygu o ganlyniad i'r Cynllun trwy'r polisi cynllunio amgylcheddol; gan hynny, ni chaniateir ychwanegu at y pwysau ar ansawdd dŵr y cyrff dŵr sy'n derbyn.<br><br>Nid oes unrhyw lwybrau effaith eraill yn bosibl a chan fod yr ACA yn fwy na 10km i ffwrdd (yn ogystal ag ACA a safle Ramsar Moryd y Burry a nodir isod), mae'r ffaith nad oes cysylltiad uniongyrchol â phrif afon Llwchwr a bodolaeth polisi diogelu'r amgylchedd a fydd yn sicrhau na fydd y datblygiad yn achosi unrhyw niwed uniongyrchol i'r cyrff dŵr sy'n derbyn, ni ddisgwylir unrhyw LSE o ganlyniad i'r Cynllun, boed yn unigol neu'n gyfunol â chynlluniau a/neu brosiectau eraill. | Dim – Wedi'i sgrinio allan o'r AP. Nid oes LSE unigol neu gyfunol â phrosiectau a chynlluniau eraill. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | bresennol fel nodwedd gymhwyso, ond heb fod yn brif reswm dros ddethol y safle:<br>Llysywen bendoll y môr *Petromyzin marinus*<br>Llysywen bendoll yr afon *Lampetra fluviatilis*<br>Herlyn *Alosa alosa*<br>Dyfrgi *Lutra lutra* | | | |


| Safle Ewropeaidd | Nodweddion Cymhwyso | Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol | Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE) | Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn |
|---|---|---|---|---|
| ACA Moryd y Burry | Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle:<br>▪ Gylfinir *Numenius arquata*<br>▪ Pibydd y mawn *Calidris alpina alpine*<br>▪ Cornicyll llwyd *Pluvialis*<br>▪ *Squatarola*<br>▪ Pibydd *Calidris canutus*<br>▪ Pioden y môr *Haematopus ostralegus*<br>▪ Hwyaden gynffonfain *Anas acuta*<br>▪ Pibydd coesgoch *Tringa totanus*<br>▪ Hwyaden hudo *Tadorna tadorna*<br>▪ Hwyaden lydanbig *Anas clypeata*<br>▪ Corhwyad *Anas crecca*<br>▪ Cwtiad y traeth *Arenaria interpres*<br>▪ Chwiwell *Anas penelope* | • Newidiadau i amodau anfiotig<br>• Llygredd aer<br>• Llygredd dŵr<br>• Pwysau hamdden | Gweler uchod. | Dim – Wedi'i sgrinio allan o'r AP. Nid oes LSE unigol neu gyfunol â phrosiectau a chynlluniau eraill. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Safle Ewropeaidd** | **Nodweddion Cymhwyso** | **Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol** | **Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE)** | **Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn** |
| Safle Ramsar Moryd y Burry | Rhywogaethau Anecs II sy'n brif reswm dros ddethol y safle:<br>1. Pibydd coesgoch cyffredin *Tringa totanus tetanus*<br>2. Hwyaden gynffonfain y gogledd *Anas acuta*<br>3. Pioden Ewrasiaidd y môr *Haematopus ostralegus ostralegus*<br>4. Pibydd coch *Calidris canutus islandica*<br>Rhywogaeth Anecs II sy'n cyflwyno fel nodwedd gymhwyso, ond heb fod yn brif reswm dros ddethol y safle: | Ni nodwyd rhai. | Fel uchod | Dim – Wedi'i sgrinio allan o'r AP. Nid oes LSE unigol neu gyfunol â phrosiectau a chynlluniau eraill. |

| **Safle Ewropeaidd** | **Nodweddion Cymhwyso** | **Agored i niwed o'r llwybrau effaith canlynol** | **Asesiad o'r Effaith Sylweddol Debygol (LSE)** | **Llwybrau effaith wedi'u sgrinio i mewn** |
|---|---|---|---|---|
| | Hwyaden lydanbig<br>*Anas clypeata* | | | |

# Atodiad F Lleoliad y Safleoedd Ymgeisiol a nodwyd fel rhai a allai fod yn addas ac yn gyflawnadwy i'w datblygu mewn perthynas â Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd

Ffigur 3. Map o'r Safleoedd Ymgeisiol a nodwyd fel rhai a allai fod yn addas ac yn gyflawnadwy i'w datblygu mewn perthynas â Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd




Stantec

Client

Neath & Port Talbot Council

**Replacement Local Dev Plan**

Considered Sites with Reference Number


0 1 2 km

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023
Contains data from OS Zoomstack
© Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024.

| | |
|---|---|
| 1:36,000 @ A3 | Date: 22/10/2024 |
| Drawn: SJ | Checked: AC |
| Figure: 04 | Rev: A |



Document Path: C:\Users\sanjasper\OneDrive - Stantec\Documents\Projects\332611859\332611859.aprx




Stantec

Client

Neath & Port Talbot Council

**Replacement Local Dev Plan**


Considered Sites with Reference Number


Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023
Contains data from OS Zoomstack
© Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024.


| | |
|---|---|
| 1:36,000 @ A3 | Date: 22/10/2024 |
| Drawn: SJ | Checked: AC |
| Figure: 04 | Rev: A |



Document Path: C:\Users\sanjasper\OneDrive - Stantec\Documents\Projects\332611859\332611859.aprx




Stantec

Client

Neath & Port Talbot Council

**Replacement Local Dev Plan**

Considered Sites with Reference Number


0 1 2 km

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023
Contains data from OS Zoomstack
© Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024.

| | |
|---|---|
| 1:36,000 @ A3 | Date: 22/10/2024 |
| Drawn: SJ | Checked: AC |
| Figure: 04 | Rev: A |



Document Path: C:\Users\sanjasper\OneDrive - Stantec\Documents\Projects\332611859\332611859.aprx




Client

Neath & Port Talbot Council

**Replacement Local Dev Plan**

Considered Sites with Reference Number


0 1 2 km

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023
Contains data from OS Zoomstack
© Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024.


| | |
|---|---|
| 1:36,000 @ A3 | Date: 22/10/2024 |
| Drawn: SJ | Checked: AC |
| Figure: 04 | Rev: A |




Document Path: C:\Users\sanjasper\OneDrive - Stantec\Documents\Projects\332611859\332611859.aprx




| Stantec | Client: Neath & Port Talbot Council | **Replacement Local Dev Plan** Considered Sites with Reference Number | Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023 Contains data from OS Zoomstack © Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024. | 1:36,000 @ A3 | Date: 22/10/2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Drawn: SJ | Checked: AC |
| | | | Page 5 of 10 | Figure: 04 | Rev: A |




| Stantec | Client<br>Neath & Port Talbot Council | **Replacement Local Dev Plan**<br>Considered Sites with Reference Number | 0 1 2 km<br>Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023<br>Contains data from OS Zoomstack<br>© Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024.<br>Page 6 of 10 | 1:36,000 @ A3 | Date: 22/10/2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Drawn: SJ | Checked: AC |
| | | | | Figure: 04 | Rev: A |




Stantec

Client

Neath & Port Talbot Council

**Replacement Local Dev Plan**

Considered Sites with Reference Number


0 1 2 km

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023
Contains data from OS Zoomstack
© Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024.

1:36,000 @ A3 | Date: 22/10/2024
Drawn: SJ | Checked: AC
Figure: 04 | Rev: A



Document Path: C:\Users\sanjasper\OneDrive - Stantec\Documents\Projects\332611859\332611859.aprx




Stantec

Client

Neath & Port Talbot Council

**Replacement Local Dev Plan**

Considered Sites with Reference Number


0 1 2 km

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023
Contains data from OS Zoomstack
© Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024.



| | |
|---|---|
| 1:36,000 @ A3 | Date: 22/10/2024 |
| Drawn: SJ | Checked: AC |
| Figure: 04 | Rev: A |

Document Path: C:\Users\sanjasper\OneDrive - Stantec\Documents\Projects\332611859\332611859.aprx




Stantec

Client

Neath & Port Talbot Council

**Replacement Local Dev Plan**

Considered Sites with Reference Number


0 1 2 km

Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023
Contains data from OS Zoomstack
© Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024.

| | |
|---|---|
| 1:36,000 @ A3 | Date: 22/10/2024 |
| Drawn: SJ | Checked: AC |
| Figure: 04 | Rev: A |



Document Path: C:\Users\sanjasper\OneDrive - Stantec\Documents\Projects\332611859\332611859.aprx




| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Stantec | Client<br>Neath & Port Talbot Council | **Replacement Local Dev Plan**<br>Considered Sites with Reference Number | 0 1 2 km<br>Contains OS data © Crown Copyright and database right 2023<br>Contains data from OS Zoomstack<br>© Natural England copyright. Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2024.<br>Page 10 of 10 | 1:36,000 @ A3 / Date: 22/10/2024<br>Drawn: SJ / Checked: AC<br>Figure: 04 / Rev: A |

# Atodiad G Rhestr o'r Safleoedd Ymgeisiol a nodwyd fel rhai a allai fod yn addas ac yn gyflawnadwy ar gyfer datblygu

| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle Ymgeisiol |
|---|---|
| RLDP/SV/UC011 | 59-62 Heol Gough / Gough Road, Ystalyfera |
| RLDP/PT/0009 | Tir ym Mlaen Baglan – Safle 1 / Blaen Baglan Land Site 1 |
| RLDP/PT/0010 | Tir ym Mlaen Baglan – Safle 2 / Blaen Baglan Land Site 2 |
| RLDP/N/UC013 | Compton Mews, Cefn 11 - 19 Stryd y Castell, Sgiwen / Compton Mews, Rear of 11-19 Castle Street Skewen |
| RLDP/AMV/0001 | Pwll y Dwyrain, Heol Newydd, Tai'r Gwaith / East Pit, New Road, Tairgwaith |
| RLDP/DV/0019 | Tai Lloches Canolfan Gynt / Former Canolfan Sheltered Housing |
| RLDP/AMV/2003 | Ffatri Swelco Gynt, tu ôl i Heol y Gors, Cwmgors / Former Swelco Factory, Rear of Heol y Gors, Cwmgors |
| RLDP/SV/0016 | Ysgol Gynradd y Wern Gynt (YGGD Y Wern) Cyflwyniad 1 / Former Y Wern, Primary School ( YGGD Y Wern) Submission 1 |
| RLDP/SV/UC015 | Ysgol Gynradd y Wern Gynt (YGGD Y Wern), Ystalyfera / Former Y Wern, Primary School (YGGD Y Wern), Ystalyfera |
| RLDP/N/UC012 | Gardd y tu cefn i 9 Maes Llwynonn Llangatwg / Garden at rear of 9 Maes Llwynonn Cadoxton |
| RLDP/N/UC010 | Bwthyn yr Ardd, Cimla (tu cefn i ysgol Saeson) / Garden Cottage, Cimla (rear of Saeson school) |
| RLDP/P/UC008 | Tir yn ymyl 35 Heol Newydd, Ynysmeudwy / Land adjacent to 35 New Road, Ynysmeudwy |
| RLDP/PT/UC025 | Tir yn ymyl Afan Landscapes / Land adjacent to Afan Landscapes |
| RLDP/PT/0013 | Tir yn ymyl y B4282, Bryn / Land adjacent to B4282, Bryn |
| RLDP/PT/2015 | Tir yn ymyl Coed Hirwaun / Land Adjacent to Coed Hirwaun |
| RLDP/P/UC007 | Tir yn ymyl Ysgol Gynradd Rhyd y Fro / Land adjacent to Rhyd y Fro Primary School |
| RLDP/PT/0023 | Tir yn ymyl The Willows – Opsiwn A / Land adjacent to The Willows - Option A |
| RLDP/PT/0024 | Tir yn ymyl The Willows – Opsiwn B / Land adjacent to The Willows - Option B |
| RLDP/P/0029 | Tir yn ymyl 11-14 March Hywel a 32/42 Cae Rhedyn a Thir yn ymyl March Hywel Rhos a Thir yn ymyl The Smiths Arms a thu cefn i 70-114 Heol Castell-nedd / Land Adjoining 11-14 March Hywel And 32/42 Cae Rhedyn & Land Adjacent To March Hywel Rhos & Land Adjacent to The Smiths Arms and to the Rear of 70- 114 Neath Road |
| RLDP/P/0030 | Tir yn ymyl 11-14 March Hywel a 32/42 Cae Rhedyn a Thir yn ymyl March Hywel Rhos a Thir yn ymyl The Smiths Arms a thu cefn i 70-114 Heol Castell-nedd Rhos Pontardawe (gan gynnwys Safle yn ymyl sy'n eiddo i Drydydd Parti) / Land Adjoining 11-14 March Hywel And 32/42 Cae Rhedyn & Land Adjacent To March Hywel Rhos & Land Adjacentto The Smiths Arms And To The Rear Of 70-114 Neath Road Rhos Pontardawe (Including Adjoining Third Party Owned Site) |

| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle Ymgeisiol |
|---|---|
| RLDP/N/2007 | Tir yn ymyl Bryn Teg / Land adjoining Bryn Teg |
| RLDP/P/2004 | Tir yn ymyl Ysgol Waun Penlan, Rhydyfro / Land adjoining Waun Penlan School, Rhydyfro |
| RLDP/PT/UC003 | Tir ym Mlaenbaglan / Land at Blaenbaglan |
| RLDP/AMV/0014 | Tir yn Brook Terrace, Tai'r Gwaith / Land at Brook Terrace, Tairgwaith |
| RLDP/N/0039 | Tir yng Nghae Rhys Ddu / Land at Cae Rhys Ddu |
| RLDP/PT/0042 | Tir yng Nghoed Hirwaun, Margam / Land at Coed Hirwaun, Margam |
| RLDP/NV/UC006 | Tir yn Dan y Graig, Pontwalby, Glyn-nedd / Land at Dan y Graig, Pontwalby, Glynneath |
| RLDP/N/UC007 | Tir yn Fferm y Fforest, Aberdulais – Safle 1 / Land at Fforest Farm, Aberdulais - Site 1 |
| RLDP/N/0006 | Tir yn Fferm y Fforest, Aberdulais – Safle 2 / Land at Fforest Farm, Aberdulais - Site 2 |
| RLDP/P/2005 | Tir yng Ngelligron, Pontardawe / Land at Gelligron, Pontardawe |
| RLDP/N/0045 | Tir yn Heol y Glo, Tonna (Opsiwn Datblygu 1) / Land at Heol Y Glo, Tonna (Development Option 1) |
| RLDP/N/0046 | Tir yn Heol y Glo, Tonna (Opsiwn Datblygu 2) / Land at Heol Y Glo, Tonna (Development Option 2) |
| RLDP/PT/UC049 | Tir ym Mhen y Bryn / Land at Pen y Bryn |
| RLDP/AV/0001 | Tir ym Mhen y Bryn, Croeserw / Land at Pen y Bryn, Croeserw |
| RLDP/N/0043 | Tir ar safle'r Tudor Inn gynt ac i'r Dwyrain o'r Tudor Inn gynt, Cimla / Land at the Former Tudor Inn and East of the Former Tudor Inn, Cimla |
| RLDP/PT/0062 | Tir ar Heol Tir Morfa, Sandfields (Cyflwyniad 1) / Land at Tir Morfa Road, Sandfields (Submission 1) |
| RLDP/SV/UC004 | Tir yn Y Boblen, 24 Heol y Bryn, Cwmllynfell / Land at Y Boblen, 24 Bryn Road, Cwmllynfell |
| RLDP/N/0044 | Tir i'r Dwyrain o Heol y Glo, Tonna / Land East of Heol Y Glo, Tonna |
| RLDP/P/0032 | Tir i'r Gogledd o Heol Castell-nedd, Rhos / Land North of Neath Road, Rhos |
| RLDP/P/0017 | Tir oddi ar Commercial Road a Heol Gwrhyd / Land off Commercial Road & Heol Gwrhyd |
| RLDP/AMV/0012 | Tir oddi ar Heol y Glyn/Heol Godfrey / Land off Glyn Road / Heol Godfrey |
| RLDP/P/2002 | Tir oddi ar Heol y Gwrhyd / Land off Gwrhyd Road |
| RLDP/AMV/0004 | Tir oddi ar Heol Leyshon, Gwaun Cae Gurwen / Land off Leyshon Road, Gwaun Cae Gurwen |
| RLDP/SV/0014 | Tir oddi ar Heol Tirbach (Golchfa Tirbach gynt) / Land off Tirbach Road (Former Tirbach Washery) |
| RLDP/P/2006 | Tir oddi ar Heol y Dramffordd / Land off Tramway Road |
| RLDP/SV/UC003 | Tir oddi ar Y Clos, Cwmllynfell / Land off Y Clos, CwmllynfellL |
| RLDP/N/0007 | Tir gyferbyn â 61-127 March Hywel / Land Opposite 61-127 March Hywel |

| **Cyfeirnod y Safle** | **Enw'r Safle Ymgeisiol** |
|---|---|
| RLDP/PT/UC024 | Tir gyferbyn â Choed Hirwaun / Land opposite Coed Hirwaun |
| RLDP/N/0036 | Tir i'r de-orllewin o'r Cimla (Cyflwyniad 1) / Land southwest of Cimla (Submission 1) |
| RLDP/N/0037 | Tir i'r de-orllewin o'r Cimla (Cyflwyniad 2) / Land southwest of Cimla (Submission 2) |
| RLDP/N/0038 | Tir i'r de-orllewin o'r Cimla (Cyflwyniad 3) / Land southwest of Cimla (Submission 3) |
| RLDP/P/0027 | Tir i'r dwyrain o'r Rhos / Land to the east of Rhos |
| RLDP/N/UC008 | Tir ar yr ochr ddwyreiniol i Fferm Tyla Morris, Heol Pant Hywel Ddu, Ynysmaerdy, Llansawel, SA11 2TU / Land to the east side of Tyla Morris Farm, Pant Howell Ddu Road, Ynysmaerdy, Briton Ferry, SA11 2TU |
| RLDP/SV/0011 | Tir i'r de o Adeilad GMF, Ystalyfera / Land to the south of the GMF Building, Ystalyfera |
| RLDP/N/0015 | Parc Leiros, Rhyddings, Castell-nedd / Leiros Park, Rhyddings, Neath |
| RLDP/PT/0035 | Glanfa Ffenics, Port Talbot / Phoenix Wharf, Port Talbot |
| RLDP/DV/0020 | Safleoedd 5 a 6, Parc Busnes Nant y Cafn / Sites 5 & 6, Nant y Cafn Business Park |
| RLDP/N/UC011 | Tanybryn, Main Road, Llangatwg / Cadoxton |
| RLDP/SV/UC004 | Tir yn Y Boblen, 24 Heol y Bryn, Cwmllynfell / Land at Y Boblen, 24 Bryn Road, Cwmllynfell |
| RLDP/PT/0030 | Stryd y Dŵr, Margam / Water Street, Margam |